

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023

Dana Jones

## **Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Siambr y Cyngor - Penmorfa, Dydd Mercher, 21 Mehefin 2023 am 9.30 am i drafod y materion canlynol:**

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio>a gynhaliwyd ar 09 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 3 - 10)**
- 5. Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 11 - 14)**
- 6. Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth (Tudalennau 15 - 116)**
- 7. Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth (Tudalennau 117 - 168)**
- 8. Arolygiaeth Gofal Cymru - Datganiad Blynyddol 2022-23 (Tudalennau 169 - 172)**
  - (i) Atodiad 1 (Tudalennau 173 - 288)
- 9. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 (Tudalennau 289 - 304)**
- 10. Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/1/23 - 31/3/23 (Tudalennau 305 - 322)**
- 11. Adroddiad Camau Rheoli Archwilio Mewnol (Tudalennau 323 - 330)**
- 12. Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol (Tudalennau 331 - 350)**

13. **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23 (Tudalennau 351 - 358)**
14. **Cofrestr Risgiau Corfforaethol (Tudalennau 359 - 380)**
15. **Blaenraglen Waith (Tudalennau 381 - 382)**
16. **Unrhyw fater arall y mae'r Cadeirydd yn penderfynu ei fod at sylw brys y Pwyllgor**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO  
a gynhaliwyd ar ffurf Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac  
o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 9 Mawrth 2023**

YN BRESENNOL: Mr Alan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Wyn Evans, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd a Mark Strong ynghyd â Mr Andrew Blackmore a Mrs Caroline Whitby

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Bryan Davies a Keith Henson (Aelodau Cabinet)

Archwilio Cymru: Mr Derwyn Owen a Miss Non Jenkins

Swyddogion yn bresennol: Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad, Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael, Miss Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd, Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio, Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol, Mr Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30am -11:05am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Materion personol**

Dim.

**3 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023 a 19 Ionawr 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

CYTUNWYD i gadarnhau bod Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023 a 19 Ionawr 2023 yn gywir.

**Materion sy'n Codi**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023

Eitem 9 - Dywedodd y Cadeirydd y dylid ystyried caniatáu i aelodau'r pwyllgor fynd i weithdai a gynhelir yn y dyfodol ynghylch paratoi'r gyllideb ac y dylai hyn gael ei gynnwys yn y Flaenraglen Waith.

**5 Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

## Tudalen 4

Ystyriwyd Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. CYTUNWYD i nodi'r cynnwys a'r diweddariad fel y'u cyflwynwyd.

### 6 Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth

Ystyriwyd Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth. Roeddent mewn tair rhan:

- a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- b) Unrhyw waith lleol ynghylch risg a gyflwynwyd / a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

Fel rhan o'r diweddariad, esboniodd Mr Derwyn Owen, Archwilio Cymru, y cefndir i'r cynnydd arfaethedig yn Ffioedd Archwilio Allanol Archwilio Cymru a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen dros dro ar gyfer archwilio'r Datganiad Cyfrifon. Cadarnhaodd DO y byddai Archwilio Cymru yn cyhoeddi eu llythyr Ffioedd yn fuan ac y byddai modd ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor.

Yn dilyn cyflwyniad gan Archwilio Cymru a chwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-

- (i) nodi'r adroddiadau er gwybodaeth;
- (ii) nodi'r cynnydd posibl yn y ffi archwilio o ran cyfrifon 2023/24 a oedd yn digwydd yn bennaf oherwydd y newidiadau yn y gofynion safonol ar gyfer archwilio cyfrifon. Nodwyd bod Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 wedi ystyried y cynnydd a amcangyfrifir a dywedodd Archwilio Cymru nad oedd ond yn gallu codi tâl am yr amser a gymerid i wneud yr archwiliad, felly gallai'r ffi derfynol fod yn llai o bosib;
- (iii) nodi mai bwriad Archwilio Cymru ar hyn o bryd oedd cwblhau'r archwiliad o Gyfrifon 2022/23 erbyn 30/11/23 ac mai'r disgwyl ar hyn o bryd oedd y byddai'r archwiliad o Gyfrifon 2023/24 yn cael ei gwblhau erbyn 30/10/24 a'r archwiliad o Gyfrifon 2024/25 yn cael ei gwblhau erbyn 30/09/25. Roedd trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Thrysoryddion Cymru a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r dyddiadau cau.
- (iv) nodi bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael wedi cadarnhau mai'r bwriad oedd sicrhau bod drafft cyntaf amserlen dros dro Cyfrifon 2022/23 yn barod ar gyfer archwilio allanol erbyn canol Gorffennaf 2023, a oedd yn gynharach yn y flwyddyn na'r adeg y caewyd Cyfrifon 2021/22, a oedd wedi'u llofnodi ym mis Awst 2022.
- (v) gofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i ystyried yr adroddiad am yr *Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?* Nodwyd bod dogfennau Asesiad Effaith Integredig y Cyngor (h.y. yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn eu gwneud yn haws i'r Aelodau eu darllen ac i'r swyddogion eu cwblhau.

### 7 Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth Cyflwyniad

## Tudalen 5

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn nodi ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth a'r cynnydd a wnaed o ran y cynigion a'r argymhellion.

Roedd dwy ran i'r adroddiad hwn:

- a) Gwybodaeth dracio'r Cyngor am gynigion y Rheoleiddiwr/Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion; a
- b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor.

Y Sefyllfa bresennol

a) Gwybodaeth dracio'r Cyngor am gynigion y Rheoleiddiwr/Arolygiaeth ar gyfer gwella a'r argymhellion

Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor 2022-23:

- Ffurflen Ymateb – Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21
- Ffurflen Ymateb – Diweddariad ar Gynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon
- Ffurflen Ymateb – Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?
- Archwilio Cymru - 'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru -ffurflen ymateb rheolwyr i ddilyn
- Archwilio Cymru - 'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol –ffurflen ymateb i ddilyn

**b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor.**

Dim

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiadau er gwybodaeth.

### **8 Diweddariad ar Brisio Asedau - Ar lafar yn unig**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr gan nodi bod Gweithdy wedi'i gynnal i dderbyn diweddariad am brisio asedau a dywedodd fod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio ddiweddariad byr am y sefyllfa bresennol o ran Prisio Asedau. Nododd fod angen gwneud gwaith manylach ar wyth eiddo cyn cwblhau'r gwaith prisio arnynt. Dywedodd fod Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Asedau hefyd wedi'i benodi'n ddiweddar ac y byddai'r unigolyn hwn felly yn adnodd ychwanegol i gynorthwyo â'r gwaith prisio. Roedd cyfarfod wedi'i gynnal yn ddiweddar gydag Archwilio Cymru i roi diweddariad am y gwaith prisio a oedd newydd ei gwblhau ac roedd disgwyl y byddai cyfarfod arall yn cael ei gynnal ymhen mis.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

### 9 **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarter 3**

Ystyriwyd adroddiad y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol am Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarter 3. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

CYTUNWYD i nodi'r gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

### 10 **Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2023/24**

Ystyriwyd Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2023/24. Dywedwyd bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, ynghyd â'r Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), yn mynnu y dylai Cynghorau gael Siarter Archwilio Mewnol ynghyd â Strategaeth a Chynllun Archwilio Blynyddol.

Cafodd y cynllun ei baratoi mewn modd a fyddai'n sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i gefnogi'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor.

Byddai'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig yn cefnogi'r Siarter Archwilio Mewnol drwy gynhoi'r meysydd gwaith y byddai'r Adain Archwilio Mewnol yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2023/24.

CYTUNWYD i gymeradwyo Strategaeth a Chynllun Archwilio 2023/24 fel y'i cyflwynwyd.

### 11 **Adroddiad Archwilio Mewnol - Adolygiad o Fframwaith Llywodraethu 2022-23**

Roedd adolygiad wedi'i gynnal yn ddiweddar o'r Fframwaith a gefnogai Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23. Dywedwyd bod y Fframwaith Llywodraethu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Leol wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2023. Bu Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn rhan o'r adolygiad.

Roedd Archwilio Cymru wedi rhoi barn archwilio am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn gyson o ran eu gwybodaeth nhw ohono a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd adolygiad yr adain archwilio mewnol yn cynnwys asesiad o'r gweithdrefnau a oedd ar waith i baratoi'r fframwaith llywodraethu a'r fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd ynghyd ag ystyriaeth o'r 'dystiolaeth' a nodwyd yn y fframwaith. Roedd yr adolygiad hwn felly yn ategu gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac roedd yn rhoi sicrwydd bod y weithdrefn yn gadarn, yn benodol ac yn effeithiol.

CYTUNWYD i nodi'r Adolygiad o Fframwaith Llywodraethu 2022-23 fel y'i cyflwynwyd.

## 12 **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft**

Dywedwyd bod adroddiad ynghylch Dogfen y Fframwaith Llywodraethu wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor hwn ar 17 Ionawr 2023. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi cyflwyniad i'r adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu a'r gofynion yr oedd yn rhaid i awdurdodau lleol gadw atynt.

Roedd Dogfen y Fframwaith Llywodraethu wedi'i diweddaru ers yr adroddiad blaenorol ar 17 Ionawr i sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol. Roedd y diweddariadau fel a ganlyn:

- Dileu tystiolaeth/camau gweithredu o'r ddogfen lle nad ydynt bellach yn berthnasol neu lle maent wedi'u cwblhau.
- Ychwanegu tystiolaeth ychwanegol ar gyfer B3.1 mewn ymateb i drafodaethau yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn â'r ffaith bod y sgôr wedi cynyddu o 5/6 i 7/8.
- Roedd y camau gweithredu canlynol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa ar hyn o bryd:
  - A1.1 ac A1.2 – Nodi bod y Swyddog Monitro yn parhau i roi cyngor ynghylch materion y Cod Ymddygiad a bod arfarniadau wedi aildddechrau. Fe'u diweddardwyd hefyd i adlewyrchu'r sefyllfa ar hyn o bryd gydag Archwilio Cymru ynghylch yr Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio.
  - A1.4 – Wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n weddill ynghylch adolygu Polisi Chwythu'r Chwiban a rhoi adroddiadau am weithgarwch, a ffurflenni diwygiedig o ran y Cod Ymddygiad a Datgan Buddiannau.
  - A3.1 – Cam gweithredu wedi'i ddiweddaru i egluro mai'r Swyddog Diogelu Data fydd yn rhoi Hysbysiadau Preifatrwydd i Gynghorwyr.
  - A3.1 – Cam gweithredu wedi'i ychwanegu i nodi y bydd y Rheolwr Corfforaethol, Archwilio Mewnol yn cwblhau cymhwyster proffesiynol.
  - B3.1 – Cam gweithredu wedi'i ddiweddaru i egluro y bydd y modd y gweithredir y polisi Ymgysylltu a Chyfranogi yn cael ei adolygu cyn y cwblheir y cam gweithredu.
  - E2.2 – Ychwanegwyd y byddai'r Gofrestr o Benderfyniadau Dirprwyedig yn cael ei chyhoeddi.

Tynnwyd sylw yn yr adroddiad at yr holl newidiadau a wnaed i'r Fframwaith ers y tro diwethaf iddo gael ei gyflwyno i'r pwyllgor.

Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23 wedi'i baratoi yn unol â'r fframwaith. Roedd yn cynnwys y canlynol:

- Cydnabyddiaeth o'r cyfrifoldeb o ran sicrhau trefniadau llywodraethu da;
- Cyfeiriad at yr asesiad;
- Barn ar lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi;

## Tudalen 8

- Adroddiad cynnydd ar sut mae'r problemau a nodwyd y llynedd wedi'u datrys;
- Cynllun gweithredu y cytunwyd arno i ymdrin â materion llywodraethu dros y flwyddyn nesaf; a'r
- Casgliad.

CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-

i) nodi'r Ddogfen Fframwaith Llywodraethu wedi'i Diweddarau 2022-23; ac  
ii) argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2022-23 yn amodol ar sicrhau bod y frawddeg yn y casgliad sy'n nodi bod "yr adolygiad wedi cadarnhau bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ac yn addas at y diben" hefyd yn cael ei chynnwys yn y crynodeb gweithredol ar ddechrau'r ddogfen.

### 13 Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Dywedwyd bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Roedd hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 1 Chwefror 2023, roedd risg newydd, R022: Recriwtio a Chadw wedi'i hychwanegu, gyda sgôr risg o 15.

Roedd R003: Gwella a Pherfformiad Corfforaethol gyda sgôr risg barhaus o 6 wedi'i is-raddio i risg gwasanaeth fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023. Roedd y Cyngor wedi ymgymryd â'i hunanasesiad cyntaf yn llwyddiannus ac roedd wedi pennu amcanion llesiant newydd. Roedd proses y cynlluniau busnes wedi'i hailsefydlu'n llwyddiannus ers Covid ac roedd y bwrdd perfformiad yn cyfarfod yn rheolaidd. Ar ben hynny, roedd y Grŵp Arweiniol wedi derbyn adborth cadarnhaol ynglŷn â'r trefniadau perfformiad mewn cyfarfod â'r rheoleiddwyr ar 16 Ionawr 2023.

Yr unig risg a oedd wedi newid ei sgôr oedd R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch. Roedd y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol wedi nodi cynnydd o 38% yn y tebygolrwydd o ymosodiadau ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn y Deyrnas Unedig ac felly roedd sgôr y risg wedi'i newid i "tebygol" i adlewyrchu hyn.

Roedd cam lliniaru newydd wedi'i ychwanegu at R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Roedd yr holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac roeddent yn cynnwys Statws Coch Oren Gwyrdd (RAG) diwygiedig o ran y camau lliniaru a sylwebaeth wedi'i diweddarau.



## Tudalen 9

CYTUNWYD y dylid nodi'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaraf fel y'i cyflwynwyd, ac y dylid cynnal sesiwn briffio cyn y cyfarfod fel y gallai'r Aelodau gael rhagor o wybodaeth am y modd yr oedd risgiau yn cael eu hychwanegu at y gofrestr risgiau.

**14 Blaenraglen Waith**

Cytunwyd i nodi'r Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd.

**15 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023\*

Pwrpas y Cofnod hwn o Gamau Gweithredu yw monitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfodydd e.e. pan fu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn i adroddiad gael ei gyflwyno iddynt, neu y gofynnwyd am wybodaeth ar gyfer Cyfarfod yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth ar y Cofnod o Gamau Gweithredu dylid cysylltu â'r Swyddog Llywodraethu.

Diweddarwyd: 31 Mai 2023

\* Blwyddyn Fwrdeistrefol

Bydd camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi eu cwblhau yn cael eu tynnu oddi ar y Cofnod dilynol o Gamau Gweithredu.

### Acronymau:

AW – Archwilio Cymru

PW: Prif Weithredwr

SAC – Swyddog Arweiniol Corfforaethol

SDD – Swyddog Diogelu Data

BW – Blaenraglen Waith

SLI – Swyddog Llywodraethu

SM – Swyddog Monitro

RhC – Rheolwr Corfforaethol

RhCAM – Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol

PRhD – Pwyllgor Rheoli Datblygu

PLIA – Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

C a LI – Cyfreithiol a Llywodraethu

Amh – Amherthnasol

IG – I'w gadarnhau

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu | Eitem  | Nodwyd/ Sylwadau   | Camau Gweithredu   | Swyddog(ion) sy'n gyfrifol am y cam gweithredu | Diweddariad ar y datblygiadau   | I'w adrodd nesaf | Statws           | Nodiadau  |
|------|--|--|--|--|--|---|------------------|------------------|---|
| 1    | 27/09/2022                               | <b>15 Adroddiad ynghylch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (2021-2022)</b> |  | (ii) Adroddiad ynghylch a oedd y cwynion hyn yn cyfeirio at gyfathrebu neu ddiffyg cyfathrebu.   |  | (ii) Fe'i ystyrir yn yr adroddiad nesaf.  | 27/09/2023       | <b>Ar waith</b>  | Mae'r tîm yn edrych ar hyn dros y flwyddyn  |
| 2    | 27/09/2022                               | <b>16 Cofrestr Risgiau Corfforaethol- Chwarter 1</b>                               | (iii) y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud. | y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud. |  | Mae'r mater hwn wedi ei roi ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach. |                  | <b>Ar waith</b>  | Mae arolygu manau bwyd wedi'i nodi yn y flaenraglen waith ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach ym mis Hydref |
| 3    | 17/01/2023                               | <b>Adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau</b>                | Archwilio Cymru - Amser am newid – Tlodi yng Nghymru   |  |  |   |                  | <b>Cwblhawyd</b> |   |

|   |            |   |   |  |                             |                                      |            |                  |   |
|---|------------|---|---|--|-----------------------------|--------------------------------------|------------|------------------|---|
|   |            |   | Archwilio Cymru - 'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol   |  | Geraint Edwards             |                                      |            | <b>Cwblhawyd</b> | Diweddarwyd   |
|   |            |   | Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli Asedau'n Strategol   |  | Russell Hughes-Pickering    |                                      |            | <b>Cwblhawyd</b> |   |
| 4 | 09/03/2023 | <b>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</b>                               | Eitem 9 – paragraff olaf – angen Gweithdy ar y Gyllideb   | Trefnu Gweithdy ariannol   | Harry Dimmack / Duncan Hall |                                      | 27/09/2023 | <b>Ar waith</b>  | Ystyried gweithdy maes o law ar y cyd â gweithdy cofrestru risg.            |
|   |            |   |   | Dosbarthu sleidiau o'r Gweithdy ar y Gyllideb i'r aelodau  | Harry Dimmack / Duncan Hall |                                      | 27/09/2023 | <b>Ar waith</b>  |   |
| 5 | 09/03/2023 | <b>Adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau</b> | A roddwyd gwybod i Gyngor Sir Ceredigion am y cynnydd yn y ffioedd?   | Dosbarthu dogfennau – Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru.   | Harry Dimmack               | E-bostiwyd i'r aelodau ar 23/03/2023 |            | <b>Cwblhawyd</b> |   |
|   |            |   |   | Cynllun Archwilio Ceredigion   | Archwilio Cymru             |                                      |            | <b>Cwblhawyd</b> |   |
| 6 | 09/03/2023 | <b>Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft</b>                      | Diweddarau'r Datganiad gan roi "Cadarnhaodd yr adolygiad fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ac yn addas i'r diben" yn y crynodeb gweithredol. | Diweddarau'r Datganiad cyn ei gyflwyno i'r Cyngor am gymeradwyaeth derfynol                                | Harry Dimmack               | Cymeradwywyd gan y Cyngor            |            | <b>Cwblhawyd</b> |   |
| 8 | 09/03/2023 | <b>Cofrestr Risgiau Chwarter 3</b>                                  | Mae angen inni ddeall yn well y broses lawn o gynnwys / tynnu ymaith eitemau.   | Gofynnir am weithdy i egluro'r broses o ychwanegu / tynnu ymaith risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol. | Harry Dimmack               |                                      |            |                  | Ystyrir y gweithdy unwaith y bydd yr Asesiad Risg newydd, y Strategaeth a'r |

|   |            |  |   |   |               |   |  |                  |                             |
|---|------------|--|---|---|---------------|---|--|------------------|-----------------------------|
|   |            |  |   |   |               |   |  |                  | Fframwaith wedi'u cyflwyno. |
| 9 | 09/03/2023 |  | Mae'r Cylch Gorchwyl yn gyffredinol iawn, mae angen i ni egluro beth yw pwrpas y pwyllgor a beth rydym yn ei wneud. | Cylchredeg y Cylch Gorchwyl ymhlith aelodau'r pwyllgor. | Harry Dimmack | E-bostiwyd y Cylch Gorchwyl i'r aelodau ar 16/03/2023 |  | <b>Cwblhawyd</b> |                             |

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council****ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**DYDDIAD:** 21 Mehefin 2023**LLEOLIAD:** O bell drwy Gynhadledd Fideo**TEITL:** Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd o ran astudiaethau y mae Archwilio Cymru wedi ymgymryd â nhw neu yn ymgymryd â nhw**Er:** Penderfyniad**Cyflwyniad**

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth ac mae iddo dair rhan

- a) *Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
- b) *Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
- c) *Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru*

**Y Sefyllfa Bresennol:****a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio****b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Archwilio Cymru - Llythyr I awdurdod lleol (**Atodiad 1**)
- Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Archwilio Manwl 2023 (**Atodiad 2**)
- Archwilio Cymru – Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2021- 22 – Cyngor Sir Ceredigion (**Atodiad 3**)
- Archwilio Cymru – Briff Prosiect – Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad – Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Deilliannau – Cyngor Ceredigion (**Atodiad 4**)
- Archwilio Cymru – Archwilio Cymru Cynllun Blynnyddol 2023-24 (**Atodiad 5**)

**c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru**

- Archwilio Cymru – Ein Rhaglen waith ar gyfer 2023-26 (**Atodiad 6**)

# Tudalen 16

**ARGYMHELLIAD:** Rhoi ystyriaeth i adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth

**Rheswm dros yr Argymhelliad:** Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau, cynigion a'r gwaith yr ymgwymerir ag ef

- **Atodiadau:**
  - Atodiad 1** Archwilio Cymru - Llythyr I awdurdod lleol
  - Atodiad 2** Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Archwilio Manwl 2023
  - Atodiad 3** Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2021- 22 – Cyngor Sir Ceredigion
  - Atodiad 4** Briff Prosiect – Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad – Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Deilliannau – Cyngor Ceredigion
  - Atodiad 5** Archwilio Cymru – Archwilio Cymru Cynllun Blynyddol 2023-24
  - Atodiad 6** Archwilio Cymru – Ein rhaglen waith ar gyfer 202-26

**Enw Cyswllt:** Elin Prysor

**Teitl:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro

**Dyddiad yr Adroddiad:** 21/06/2023



I: Cyfarwyddwyr Cyllid Llywodraeth Leol  
Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd  
Llywodraeth Leol – Llywodraeth Cymru

[drwy e-bost]

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter  
Caerdydd / Cardiff  
CF10 4BZ

Phone / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

[info@audit.cymru](mailto:info@audit.cymru) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

[www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru) / [www.audity/wales](http://www.audity/wales)

**Cyfeirnod:** AMH/DO

**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Mawrth 2023

Annwyl gydweithiwr

## Llywodraeth Leol – Archwilio Cyfrifon 2022-23

- 1 Rydym ar fin cychwyn ein gwaith archwilio cyfrifon ar gyfer pob corff LG. Rydym felly'n achub ar y cyfle i ysgrifennu atoch gyda rhywfaint o wybodaeth bwysig am gyflwyno safon archwilio ddiwygiedig sy'n effeithio'n sylfaenol ar sut y byddwn yn ymgymryd â'ch dihareb 2022-23 au.
- 2 O fewn y llythyr hwn rydym yn ystyried:
  - effaith y safon diwygiedig;
  - yr effaith ganlyniadol ar ffioedd archwilio; ac
  - amserlen archwiliadau cyfrifon 2022-23 ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

### Effaith ISA 315

- 3 Bydd ein harchwiliadau o gyfrifon Llywodraeth Leol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn cael ei gynnal o dan safon archwilio diwygiedig ([ISA 315 \(DU\) Nodi ac Asesu Risgiau Cam-ddweud Deunydd \(Diwygiwyd Gorffennaf 2020\)](#)).
- 4 Mae'r safon ddiwygiedig hon yn effeithiol ar gyfer archwiliadau o gyfrifon am gyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2021 ac mae'n berthnasol i archwilio pob endid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus ledled y DU, waeth beth fo'u natur, eu maint neu eu cymhlethdod.

## Tudalen 18

- 5 Bydd y safon ddiwygiedig yn cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar sut mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio a'n dull archwilio cyffredinol.
- 6 Wrth gynllunio ein harchwiliad, bydd yn ofynnol i ni ymgymryd â gweithdrefnau asesu risg manylach a helaeth i nodi'r risgiau o gam-ddweud materol. Bydd dyluniad a pherfformiad dilynol ein dulliau archwilio yn ymateb i bob risg a asesir.
- 7 Mae **Atodiad 1** yn amlinellu'r newidiadau allweddol a'r effaith bosibl ar eich sefydliad o ran ceisiadau gwybodaeth gan ein timau archwilio.
- 8 Diwygiwyd y safon i yrru asesiadau risg mwy effeithiol o ansawdd gwell, yn ogystal â hyrwyddo mwy o ymarfer corff o amheuaeth broffesiynol. Mae hefyd yn gofyn i ni gael dealltwriaeth llawer mwy cadarn o systemau TG sefydliad.
- 9 Mae fframweithiau adrodd ariannol a strwythurau llywodraethu yn dod yn fwyfwy cymhleth tra bod technoleg yn parhau i chwarae rhan fwy datblygedig yn amgylchedd rheoli endidau. Mae'r newidiadau hyn yn gofyn am adnabod ac asesu risg er mwyn cael prosesau archwilio gwell a thrylwyr.
- 10 Nid oedd y safon flaenorol yn mynd i'r afael ag offer a thechnegau awtomataidd, sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol gan archwilwyr i lywio asesiad risg. Mae ein harchwiliadau'n ymgorffori elfennau o'n Harchwiliad a Gynorthwyr gan Ddadansoddeg yn gynyddol. Mae'r safon ddiwygiedig yn cyflwyno ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â'r defnydd archwilwyr o offer a thechnegau awtomataidd.

### Effaith ar ffioedd archwilio

- 11 O ganlyniad i'r newidiadau a amlinellir uchod, rydym yn disgwyl i archwiliadau 2022-23 gymryd mwy o amser i gwblhau. Bydd yn ofynnol hefyd i ni ddefnyddio staff cymwys CCAB mwy profiadol ar archwiliadau i ddelio â'r lefel uwch o farn a oedd yn golygu bod angen y safon.
- 12 Yn ein Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd Awst 2022, nodwyd bod ein hasesiad cychwynnol o effaith y cymysgedd sgiliau cyfoethocach hwn ar ffioedd yn gynnydd cyfartalog posibl mewn graddfeydd ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol o rhwng 12% a 18%. Mae hyn yn gyson â'r disgwyliadau yng nghyfrff archwilio cyhoeddus eraill y DU a chwmnïau archwilio'r sector preifat.
- 13 Rydym bellach wedi dechrau asesiad risg manylach o dan y dull archwilio newydd a byddwn yn gallu rhoi asesiad wedi'i ddiweddarau o'r ffi archwilio i chi ar ôl i ni gwblhau'r gwaith cynllunio risg cychwynnol hwnnw. Ein amcangyfrif cychwynnol yw y bydd ffioedd archwilio yn cynyddu 10.2% ar gyfer ISA 315 yn ychwanegol at y cynnydd chwyddiant o 4.8% a amlinellir yn ein [Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2023-24](#). Bydd eich Cyfarwyddwr Ymgysylltu yn trafod y ffi

arfaethedig ar gyfer eich archwiliad unwaith y bydd yr asesiad risg hwnnw wedi gwblhau.

## Amserlen ar gyfer archwilio Cyfrifon 2022/23

- 14 Mae gan gyflwyno'r Safon ddiwygiedig a dull archwilio hollol wahanol oblygiadau ar gyfer amserlenni archwilio. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chyrff Archwilio Cyhoeddus eraill y DU i ddatblygu methodoleg archwilio y credwn y bydd yn ychwanegu gwerth i Gyrrff Archwilio wrth barhau i gynnal yr archwiliad o ansawdd uchel yr ydym yn gwybod eich bod yn ei ddisgwyl gennym. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd angen amser ychwanegol i'w weithredu ar y dull newydd.
- 15 O'n trafodaethau gyda gwahanol gyrrff archwilio, rydym yn ymwybodol bod nifer ohonoch yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff cyllid profiadol ac y gallai hyn hefyd effeithio ar amserlenni archwilio. Rydym yn wynebu heriau tebyg ac yn gwybod nadyw ei safbwynt yn gyson â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), Archwilio'r Alban a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Mae erthygl cynllun adfer y Swyddfa Archwilio yn gyfeiriad defnyddiol yn y cyd-destun hwn. Yn <sup>1</sup>ogystal, mae adroddiad mwy diweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Ionawr 2023) yn tynnu sylw at yr oedi i farn archwilio llywodraeth leol yn Lloegr, ac mae'n disgrifio cynlluniau i fynd yn ôl ar y trywydd iawn gyda'r amserlen ar gyfer barn archwilio a gyhoeddwyd.<sup>2</sup>
- 16 Fel archwilwyr cyrrff llywodraeth leol Cymru, rydym hefyd wedi bod yn profi oedi cyn cwblhau ein harchwiliad o'r cyfrifon 21-22. Mae'r oedi hyn yn deillio o amrywiaeth o ffactorau er yn bennaf o fater technegol ynghylch prisio asedau seilwaith Llywodraeth Leol. Effeithiodd y mater hwn ar bob corff llywodraeth leol ledled y DU sy'n dal asedau isadeiledd. Cyhoeddodd CIPFA ei ganllawiau cyfrifo terfynol yn gynnar ym mis Ionawr 2023. O ganlyniad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr yn nodi ei disgwyliad y byddai cyfrifon awdurdodau Cymreig yn cael eu ardystio erbyn 31 Ionawr 2023. Mae'r materion hyn, ynghyd

---


<sup>1</sup> [Yr NAO: cael cyfrifon y llywodraeth yn ôl ar y trywydd iawn | ICAEW](#)

<sup>2</sup> [Prydlondeb archwilydd lleol yn adrodd ar lywodraeth leol yn Lloegr](#)

â chyflwyno cyfrifon 21-22 yn hwyr, wedi effeithio ar ein gallu i ddechrau ein harchwiliadau 2022-23 yn unol ag amserlenni'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn cefnogi uchelgais Cymdeithas Trysorwyr Cymru a'r sector yn gyffredinol i ddychwelyd at amserlen gynharach. Rydym yn deall o'n trafodaethau hyd yma bod gan y sector uchelgais i ddychwelyd i'r pwynt lle mae cyfrifon yn cael eu paratoi ac ar gael i'w harchwilio erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Gan gymryd y gellir cyflawni'r dyddiad hwn gan fwyafrif o gyrff yn 2023, ac gan ystyried y materion y cyfeirir atynt uchod, rydym felly yn cynnig dyddiad cau ardystio archwiliadau o **30 Tachwedd 2023** ar gyfer gyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru. Os bydd unrhyw faterion yn codi a allai oedi cyn cwblhau'r archwiliad byddwn wrth gwrs yn trafod amserlen arall gyda chi ar y cyfle cyntaf posib.

- 17 Rydym yn cydnabod bod hyn yn hwyrach nag yr hoffai llawer o gyrff ond credwn ei bod yn bwysig gosod amserlenni realistig y gallwn i gyd weithio iddynt. Dros y tair blynedd nesaf byddai ein cynllun ar gyfer dychwelyd i ddyddiad cau ar gyfer 30 Medi fel a ganlyn:
- Archwilio Cyfrifon 2022-23 – ardystiad erbyn 30 Tachwedd;
  - Archwilio Cyfrifon 2023-24 – ardystiad erbyn 31 Hydref 2024; ac
  - Archwilio Cyfrifon 2024-25 – ardystiad erbyn 30 Medi 2025.
- 18 Rydym yn gwerthfawrogi'r berthynas waith adeiladol sydd gennym gyda'ch timau cyllid a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chi i gyflwyno'r terfynau amser ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
- 19 Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio ar y cyd â chi i lywio'r her hon yn llwyddiannus, gan adeiladu ar ein profiadau a rennir. Byddwn yn sicrhau ein bod yn mynd i'r holl lywodraeth leol berthnasol am a thrafod cynnwys y llythyr hwn gyda chi.
- 20 Diolch i chi a'ch timau am weithio mor dda gyda ni.

Yn gywir



Ann-Marie Harkin  
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio

## Atodiad 1 – y newidiadau allweddol i'r safon a'r effaith bosib ar eich sefydliad

| Newid allweddol  | Effaith bosib ar eich sefydliad  |
|--|--|
| <p><b>Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a helaeth</b></p>                               | <p>Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn derbyn nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yng nghyfnod cynllunio'r archwiliad. Gall ceisiadau am wybodaeth gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut mae'n integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);</li> <li>• gwybodaeth am broses asesu risg eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro'r system o reoli mewnol;</li> <li>• gwybodaeth fanylach am sut mae trafodion yn cael eu cychwyn, eu cofnodi, eu prosesu a'u hadrodd. Gall hyn gynnwys mynediad at ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisi a gweithdrefnau; a</li> <li>• thrafodaethau manylach gyda'ch sefydliad i gefnogi asesiad y tîm archwilio o risg cynhenid.</li> </ul>   |
| <p><b>Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn perthynas â TG</b></p> | <p>Efallai y bydd eich sefydliad yn derbyn mwy o ymholiadau i gynorthwyo'r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceisiadau TG sy'n berthnasol i adrodd ariannol;</li> <li>• y seilwaith TG ategol (e.e. y rhwydwaith, cronfeydd data);</li> <li>• Prosesau TG (e.e. rheoli newidiadau i'r rhaglen, gweithrediadau TG); ac</li> <li>• y personél TG sy'n ymwneud â'r prosesau TG.</li> </ul> <p>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi'r rheolaethau TG cyffredinol a gall hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG o fewn eich sefydliad.</p> <p>Ar rai archwiliadau, gall ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i gynorthwyo gyda'u gwaith. Efallai y bydd angen i'n archwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch</p> |

## Tudalen 22

| <b>Newid allweddol</b>   | <b>Effaith bosib ar eich sefydliad</b>  |
|--|---|
|  | tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen.   |
| <b>Gofynion gwell yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol</b>   | Gall ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth sy'n ymddangos fel pe baent yn gwrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi'i ddysgu yn yr archwiliad.  |
| <b>Mae modd graddio'r asesiadau risg yn ddibynnol ar natur a chymhlethdod y corff sy'n cael ei archwilio</b> | Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad.   |
| <b>Gall timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ym mherfformiad eu harchwiliad</b>                  | Gall ein timau archwilio wneud defnydd o offer a thechnegau awtomataidd megis dadansoddi data wrth berfformio eu harchwiliad. Gall ein timau ofyn am wybodaeth neu wybodaeth wahanol mewn fformat gwahanol i archwiliadau blaenorol er mwyn iddynt gyflawni eu gweithdrefnau archwilio. |

## Cyngor Sir Ceredigion – Cynllun Archwilio Manwl 2023

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3608A2023



# Tudalen 24

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau

### Rhoi Sicrwydd



i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

### Egluro



sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a sut mae'n diwallu anghenion pobl

### Ysbrydoli



a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella



Manteisio'n llawn ar ein persbectif, ein harbenigedd a'n dyfnder mewnwelediad unigryw



Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein gwelededd, ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Cynnwys

|   |    |
|---|----|
| Cyflwyniad  | 5  |
| Cipolwg ar eich archwiliad  | 8  |
| Perthnasedd datganiadau ariannol  | 9  |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol                                   | 10 |
| Meysydd eraill y bydd yr archwiliad yn canolbwyntio arnynt                  | 11 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol                                     | 13 |
| Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig                                    | 14 |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant                                       | 15 |
| Swyddogaethau archwilio statudol  | 15 |
| Ffi a'r tîm archwilio   | 16 |
| Ansawdd archwilio   | 18 |
| Atodiadau   |    |
| Atodiad 1—newidiadau ac effaith allweddol Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 | 19 |

# Cyflwyniad

Rwyf bellach wedi cwblhau fy ngwaith cynllunio i raddau helaeth.

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2023.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



## Fy nghyfrifoldebau archwilio

Rwyf yn cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Rwyf yn archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- Rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid imi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.
- Mae angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno tystysgrif ac adrodd ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac asesiad ynghylch a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn cael ei baratoi yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'ch datganiadau ariannol a'm gwybodaeth am yr Awdurdod.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, rwyf hefyd yn gyfrifol am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Cyngor i gefnogi'r gwaith o baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen);
- archwilio yn annibynnol Ffurflenni Blyneddol Awdurdod Harbwr Ceredigion, Tyfu Canolbarth Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru
- ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grant fel y cytunwyd gyda'r cyrff cyllido.

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Gwaith archwilio perfformiad

Rwyf yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau<sup>1</sup> fel Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad lleol yn parhau i gael ei darparu drwy gyfuniad o Brosiect Asesu Sicrwydd a Risg, prosiectau lleol pwrpasol a phrosiectau thematig sy'n archwilio'r risgiau sy'n gyffredin i bob cyngor.

Cynhelir y rhan fwyaf o'm gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf. Sefydliad anllywodraethol yw ef sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

<sup>1</sup> Pan fyddwn yn ymgymryd â gwaith archwilio o dan ein pwerau a'n dyletswyddau statudol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth gan gyrrff cyhoeddus sy'n cynnwys rhywfaint o ddata personol. Mae ein hysbysiad prosesu archwilio teg cyffredinol yn esbonio'r hyn a wnawn â data personol, a sut y gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

# Cipolwg ar eich archwiliad



## Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risgiau sylweddol i ddatganiad ariannol

- Y rheolwyr yn diystyru rheolaethau

Meysydd eraill bydd yr archwiliad yn canolbwyntio arnynt

- Priso datgeliadau'r gronfa bensiw
- Priso tir ac adeiladau



## Bydd fy archwiliad perfformiad yn cynnwys:

- Sicrwydd ac Asesu Risg gan gynnwys unrhyw waith dilynol
- Adolygiadau thematig
  1. Comisiynu a rheoli contractau
  2. Cynaliadwyedd ariannol mewn llywodraeth leol
- Adroddiad Lleol – i'w gadarnhau os bydd un



## Perthnasedd

|                |             |
|----------------|-------------|
| Perthnasedd    | £2.8 miliwn |
| Trothwy adrodd | £140,000    |

# Perthnasedd datganiadau ariannol



## Perthnasedd £2.8 miliwn

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai hynny a allai fel arall achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio

- Gwariant gros 2021-22 sef £280,679 miliwn
- Canran perthnasedd yw 1%

Rwy'n adrodd i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu unrhyw gamddatganiadau uwchlaw lefel ddibwys (wedi'i gosod ar 5% o berthnasedd h.y. £140,000)



## Meysydd o ddiddordeb penodol

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth £1,000
- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £10,000 (Unigolion), £2.8 miliwn (Cyrff Eraill)

# Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

## Arddangosyn 1: Risgiau sylweddol i ddatganiad ariannol

| Risg sylweddol   | Ein hymateb arfaethedig  |
|--|--|
| <p><b><u>Risg y bydd y rheolwyr yn diystyru rheolaethau</u></b></p> <p>Mae'r risg y bydd y rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Rhyngwladol ar Archwilio 240.32–33].</p> | <p>Bydd y tîm archwilio yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;</li> <li>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a</li> <li>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol.</li> </ul> |



# Meysydd eraill y bydd yr archwiliad yn canolbwyntio arnynt

Rwy'n nodi risgiau camddatgan perthnasol eraill a nodwyd, er na phennwyd nhw'n risgiau sylweddol fel yr uchod, yr hoffwn ddod â nhw at eich sylw.

## Arddangosyn 2: meysydd eraill i ganolbwyntio arnynt

| Risg Archwilio  | Ein ymateb arfaethedig   |
|---|--|
| <p><b>Prisio datgeliadau'r gronfa bensiw</b></p> <p>Mae datgeliadau cronfa bensiw Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn cynrychioli amcangyfrif perthnasol. Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo.</p>                                      | <p>Byddwn ni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>yn gwerthuso'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr i'w harbenigwr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;</li> <li>asesu cymhwysedd, galluedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiau;</li> <li>asesu cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor i'r actiwari;</li> <li>profi cywirdeb datgeliadau net y gronfa bensiw yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraid gan yr actiwari; ac</li> <li>asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghori (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol.</li> </ul> |
| <p><b>Prisio Tir ac Adeiladau</b></p> <p>Mae Cyfrifyddu am Eiddo, Peirianwaith, Offer ac Asedau Anniriaethol yn faes heriol o'r cyfrifon.</p> <p>Yn ein Hadroddiad Archwilio Cyfrifon 2021-22, a adroddwyd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2023, gwnaethom adrodd am anawsterau sy'n codi o archwilio asedau'r Cyngor (yn enwedig Prisiau Asedau) o ran trywydd archwilio annigonol a diffyg Sicrwydd Ansawdd effeithiol i sicrhau bod problemau a</p> | <p>Byddwn yn gweithio gyda'r tîm Ystadau i fonitro cynnydd wrth nodi materion a godwyd yn y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Byddwn yn adolygu rhaglen brisio asedau'r Cyngor i sefydlu pryd y prisiwyd grwpiau unigol o asedau a cheisio cadarnhau nad yw'r prisiau a gynhaliwyd yn gynharach nag ar 31 Mawrth 2023 yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau fel yr oeddynt ar ddiwedd y flwyddyn.</p>   |

gwallau yn cael eu nodi'n fewnol ac nid pan fydd archwiliad yn cael ei gynnal.

Ymhellach, yng ngoleuni ansicrwydd ynghylch gwerth marchnad asedau ers dechrau'r pandemig a chostau adeiladu yn cynyddu, mae risg y gallai gwerth cario asedau a adroddir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar 31 Mawrth 2023. Yn benodol, gall hyn fod yn wir pan fo asedau wedi'u prasio ar sail dreigl ac nid fel yr oeddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Rwy'n nodi isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio a'r allbynnau sydd wedi'u cynllunio.

## Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni'r allbynnau sydd wedi'u cynllunio

| Allbwn arfaethedig   | Gwaith a wnaed       | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|--|----------------------|--------------------------|
| Cynllun Archwilio Amlinellol 2023  | Mawrth 2023          | Mawrth 2023              |
| Cynllun Archwilio Manwl 2023   | Mawrth – May 2023    | Mehefin 2023             |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol</li> <li>Barn ar y Datganiadau Ariannol</li> </ul> | Awst – Tachwedd 2023 | Tachwedd 2023            |

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Nodaf isod fanylion am fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig.

## Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig

|   |   |   |
|---|---|---|
| <p><b>Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys unrhyw waith dilynol</b></p>     | <p>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fo angen gwaith archwilio pellach o bosibl yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gallai'r gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg hwn gynnwys unrhyw waith dilynol/ olrhain y byddwn yn ei nodi o bosibl o'n hadroddiadau archwilio a'n hargymhellion mewn blynyddoedd blaenorol.</p> | <p>Parhaus</p>  |
| <p><b>Adolygiad thematig— cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol</b></p> | <p>Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau gan gynnwys canolbwyntio ar y gweithredoedd, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau mewn cyllid a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig.</p>   | <p>Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda chi a'u manylu yn y briffiau prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob archwiliad</p> |
| <p><b>Adolygiad thematig— comisiynu a rheoli contractau</b></p>           | <p>Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</p>  | <p>Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda chi a'u manylu yn y briffiau prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob archwiliad</p> |
| <p><b>Prosiect lleol pwrpasol</b></p>                                     | <p>I'w gadarnhau os bydd un</p>   | <p>Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda chi a'u manylu yn y briffiau prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob archwiliad</p> |

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio perfformiad drwy ein diweddariadau rheolaidd i Swyddogion y Cyngor a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor pan fo hynny'n ofynnol.

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant, a swyddogaethau archwilio statudol

## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Gofynnwyd i mi hefyd ymgymryd â gwaith ardystio ar hawliadau grant y Cyngor, a fydd, rwy'n rhagweld, yn cynnwys Budd-daliadau Tai, Pensiwn Athrawon, Ardrethi Annomestig a ffurflenni cyllideb cyfun.

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i dderbyn cwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei ystyried yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a'r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y [cynllun ffioedd](#) ar gyfer blwyddyn 2023–24 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae cynnydd o 4.8% yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2023–24, ar gyfer pwysau chwyddiant. Hefyd, mae cynnydd ychwanegol o 10.2% yn fy ffi archwilio ariannol ar gyfer effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar fy null archwilio ariannol. Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a'r hyn y mae'n ei olygu i'r archwiliad yr ymgymeraf ag ef yn **Atodiad 1**.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £324,595.

## Arddangosyn 5: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2023, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio   | Ffi arfaethedig (£) <sup>2</sup> | Ffi amcangyfrifedig y llynedd (£) |
|--|----------------------------------|-----------------------------------|
| Archwilio'r cyfrifon <sup>3</sup>  | 183,344                          | 159,446                           |
| Gwaith archwilio perfformiad <sup>4</sup>                                | 108,948                          | 103,684                           |
| Gwaith ardystio grantiau <sup>5</sup>                                    | 26,850                           | 25,605                            |
| Archwilio ffurflenni blynyddol Awdurdod Harbwr Ceredigion                | 1,886                            | 1,790                             |
| Archwilio ffurflenni blynyddol Tyfu Canolbarth Cymru                     | 1,803                            | 1,700                             |
| Archwilio ffurflenni blynyddol Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru | 1,764                            | 0                                 |
| Cyfanswm y ffi   | 324,595                          | 292,225                           |

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

<sup>2</sup> Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

<sup>3</sup> Yn daladwy o fis Tachwedd 2022 hyd fis Hydref 2023.

<sup>4</sup> Yn daladwy o fis Ebrill 2023 hyd at fis Mawrth 2024.

<sup>5</sup> Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae'r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion papur gwaith disgwylidiedig i gefnogi'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw             | Swyddogaeth                                 | Rhif cyswllt  | Cyfeiriad e-bost   |
|-----------------|---|---------------|--|
| Derwyn Owen     | Cyfarwyddwr Ymgysylltu                      | 02920 320 651 | <a href="mailto:derwyn.owen@archwilio.cymru">derwyn.owen@archwilio.cymru</a>         |
| Jason Blewitt   | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol)      | 02920 320 700 | <a href="mailto:jason.blewitt@archwilio.cymru">jason.blewitt@archwilio.cymru</a>     |
| Non Jenkins     | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad)   | 02920 320 500 | <a href="mailto:non.jenkins@archwilio.cymru">non.jenkins@archwilio.cymru</a>         |
| Eleanor Ansell  | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol)    | 02920 320 500 | <a href="mailto:eleanor.ansell@archwilio.cymru">eleanor.ansell@archwilio.cymru</a>   |
| Nigel Griffiths | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320 500 | <a href="mailto:nigel.griffiths@archwilio.cymru">nigel.griffiths@archwilio.cymru</a> |

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o fy nhîm yn annibynnol, heb fod yn gysylltiedig â'r Cyngor na'ch swyddogion. Yn ogystal â hyn, nid ydym, yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i ni eu dwyn i'ch sylw.

## Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgyssylltu a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd\* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd. Am fwy o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022](#).

### Ein Pobl



Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyllo ac adolygu

### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.



- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

### Sicrwydd annibynnol

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.



- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

\*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.



## Atodiad 1

## Y newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a'r effaith bosibl ar eich sefydliad

| Newid allweddol   | Effaith bosibl ar eich sefydliad   |
|---|--|
| <p><b>Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth</b></p>                            | <p>Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut y mae'n integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);</li> <li>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro'r system rheoli mewnol;</li> <li>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a'u hadrodd. Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;</li> <li>• trafodaethau manylach â'ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio.</li> </ul>  |
| <p><b>Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG</b></p> | <p>Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo'r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aphiau TG sy'n berthnasol i adrodd ariannol;</li> <li>• y seilwaith TG ategol (e.e. y rhwydwaith, cronfeydd data);</li> <li>• Prosesau TG (e.e. rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);</li> <li>• y personél TG sy'n ymwneud â'r prosesau TG.</li> </ul> <p>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi'r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad.</p> <p>Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i'n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen.</p> |

## Tudalen 42

| <b>Newid allweddol</b>   | <b>Effaith bosibl ar eich sefydliad</b>  |
|--|--|
| <b>Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol</b>  | Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys i wrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad.   |
| <b>Mae asesiadau risg yn gallu ehangu'n gyflym, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir</b> | Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad.  |
| <b>Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad</b>                    | Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad. Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio. |



# Tudalen 44

Drwy ein gwaith Arfer Da, rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwleidiadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.

Mae ein cylchlythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau, y gellir eu haddasu i'ch dewisiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith Arfer Da cliciwch [yma](#).

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr [yma](#).

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

## Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2021-22 – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3510A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio 4

Ffioedd 6

# Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio

- 1 O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grantiau, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant, o hyn ymlaen).
- 2 Gwnaethom ein gwaith gyda'r nod o ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:  
'A oes gan Gyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, amserol ac wedi'u dogfennu'n briodol yn cael eu cynhyrchu?'
- 3 Rydym wedi cwblhau'r archwiliad ac wedi dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau y cynhyrchir a chyflwynir yr hawliadau grant yr oedd angen eu hardystio o fewn 2021-22.
- 4 Ar gyfer 2021-22, fe wnaethom ardystio chwe hawliad grant (o gymharu â chwech yn 2020-21), gyda gwerth cyfanredol o £44 miliwn (£45 miliwn yn 2020-21).
- 5 Cyflwynodd y Cyngor bob un o'r chwe hawliad grant (100%) erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno (100% yn 2020-21) ac mae pob un o'r rhain bellach wedi'u hardystio. Cost yr archwiliad ar gyfer 2021-22 yw £25,60 5 (£23,158 yn 2020-21).
- 6 Ar y cyfan, yn sgil yr archwiliadau ni chyniwyd unrhyw welliannau, ac ni fu unrhyw newid i'r hawl am grant.



- 7 Ceir manylion y crynodeb o'r prif ganlyniadau ein gwaith ardystio grantiau a ffurflenni'r Cyngor ar gyfer 2021-22 ar y tudalennau canlynol sy'n dangos ble y gwnaed naill ai gwelliannau archwilio, o ganlyniad i'n gwaith, neu ble yr oedd yn rhaid i ni osod amod ar ein tystysgrif archwilio.
- 8 Mae amod yn golygu y nodwyd materion yn ymwneud â chydymffurfiad y Cyngor â gofynion cynllun nad oedd modd eu datrys drwy addasu. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd y corff sy'n talu'r grant perthnasol yn gofyn am wybodaeth bellach gan y Cyngor i fodloni ei hun bod y symiau llawn o grant a hawlr yn briodol. Mae perygl posibl bod cyrff sy'n talu grantiau yn adfachu grant y Cyngor pan nad ymdrinnir â phroblemau.

#### Arddangosyn 1: diwygiadau ac amodau hawliadau grant

| Cyf      | Cyf CI | Grantiau a ffurflenni   | Dyddiad y disgwylir yr hawliad | Derbyniwyd yr hawliad | Hwyr            | Tystysgrif amodol | Addasiad (>£10,000) | Addasiad (<£10,000) | Tystysgrif ddiomod |   |
|----------|--------|---|--------------------------------|-----------------------|-----------------|-------------------|---------------------|---------------------|--------------------|---|
| 1        | BEN01  | Cymhorthdal Budd-dal Tai  | 30-04-22                       | 25-04-22              | Na              |                   |                     |                     | ✓                  |   |
| 2        | HLG01  | Adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006<br>Cyllidebau Cyfun          | 11-06-21                       | 31-08-22              | Na <sup>1</sup> |                   |                     |                     | ✓                  |   |
| 3        | HLG03  | Adran 34-194 o Ddeddf GIG (Cymru)<br>2006 Trosglwyddiadau Arian | 30-09-22                       | 30-09-22              | Na              |                   |                     |                     | ✓                  |   |
| 4        | LA01   | Ffurflenni Ardrethi Annomestig<br>Cenedlaethol                  | 28-05-22                       | 25-05-22              | Na              |                   |                     |                     | ✓                  |   |
| 5        | PEN 05 | Ffurflenni Cynllun Pensiwn Athrawon                             | 31-05-22                       | 03-05-22              | Na              |                   |                     |                     | ✓                  |   |
| 6        | SOC07  | Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal<br>Cymdeithasol               | 30-09-22                       | 29-09-22              | Na              |                   |                     |                     | ✓                  |   |
| Cyfanswm |        |   |                                |                       |                 |                   | 0                   | 0                   | 0                  | 6 |

<sup>1</sup> Cytunwyd ar estyniad ar gyfer cyflwyno'r hawliad HLG01.

# Ffioedd

- 9 Mae ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni yn uwch na'r hyn a godwyd yn 2020-21, ac yn uwch na'r amcangyfrif a ddarparwyd o fewn y Cynllun Archwilio, sef £24,000.

## Arddangosyn 2: manylion ffioedd fesul grant/ffurflenni

| Manylion ffioedd fesul grant/ffurflenni                                | 2021-22        | 2020-21        |
|--|----------------|----------------|
| BEN01 – Cymhorthdal Budd-dal Tai                                       | £12,024        | £11,271        |
| HLG01 – Adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 Cyllidebau Cyfun            | £1,278         | £1,298         |
| HLG03 – Adran 34 – 194 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 Trosglwyddiadau Arian | £1,273         | £1,212         |
| LA01 – Ffurflenni Ardrethi Annomestig Cenedlaethol                     | £2,517         | £2,362         |
| PEN05 – Ffurflenni Cynllun Pensiwn Athrawon                            | £2,950         | £2,775         |
| SOC07 – Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol                 | £2,925         | £2,297         |
| Goruchwyllo Grantiau, Cynllunio a Rheoli                               | £2,638         | £1,943         |
| <b>Cyfanswm y ffi</b>  | <b>£25,605</b> | <b>£23,158</b> |



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.



# Briff Prosiect – Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad – Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Deilliannau – Cyngor Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3527A2023

## **Diben y ddogfen hon**

Dogfen ddrafft yw hon a ddarperir yn gyfrinachol a hynny dim ond er mwyn gwirio cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ynglŷn â'r casgliadau y daethpwyd iddynt.

## **Trin y ddogfen cyn ei chyhoeddi**

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac maent yn aros yn eiddo iddo. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Archwilio Cymru o dan swyddogaethau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol ac at y diben hwnnw yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol y gellir ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel a ganiateir yn benodol gan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw gynnwys ynddi, na'u storio mewn system adalw na'u trosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'u datgelu wrth unrhyw un ac eithrio'r derbynydd gwreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Archwilio Cymru ymlaen llaw. Rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu ei datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

## Tudalen 54

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Ceredigion fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol a gynhwysir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Briff prosiect                                 |    |
| Cefndir  | 4  |
| Sail gyfreithiol                               | 4  |
| Amcan archwilio                                | 5  |
| Cwestiynau archwilio                           | 5  |
| Cwmpas yr archwiliad                           | 5  |
| Meini prawf archwilio                          | 5  |
| Dulliau archwilio                              | 5  |
| Allbwn   | 5  |
| Amserlen                                       | 6  |
| Cysylltiadau Archwilio Cymru                   | 6  |
| Atodlen gwaith maes                            | 7  |
| Atodiadau                                      |    |
| Atodiad 1 – Cwestiynau a meini prawf archwilio | 9  |
| Atodiad 2 – Hysbysiad prosesu teg              | 11 |

## Briff prosiect

### Cefndir

- 1 Mae deall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r deilliannau y mae'n gweithio tuag atynt yn rhan bwysig o drefniadau i sicrhau bod cynghorau'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio'u hadnoddau. Mae hefyd yn ffordd bwysig y gall y Cyngor ei sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu'n unol â'r ffordd o weithio 'cynnwys' wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â chynnydd tuag at ddeilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau'n galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd a sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu lle y bo angen i wella deilliannau.
- 2 Yn fwy eang mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth am berfformiad, yn ein Crynodebau Archwilio Blynyddol yn 2022 fe wnaethom hefyd nodi bod llai o gyfeiriad at wybodaeth gymharol am berfformiad fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau o berfformiad cynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Fe wnaethom hefyd nodi y bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian ac y byddai'n her i gynghorau ei ystyried, yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddff Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- 3 Fel rhan o'n rhaglen archwilio perfformiad yng Nghyngor Ceredigion (y Cyngor), byddwn yn cyflawni prosiect i ddeall defnydd y Cyngor o ddata mewn perthynas â deilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn ei brosesau rheoli perfformiad.
- 4 Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau fel rhan o'n rhaglen archwilio perfformiad yn 2022-23.

### Sail gyfreithiol

- 5 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn dan y dyletswyddau a gynhwysir o fewn:
  - adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi (neu beidio) bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ac;
  - adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.



## Amcan archwilio

- 6 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw cael sicrwydd:
- bod yr wybodaeth am berfformiad y mae'r Cyngor yn ei darparu ar gyfer uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliant ei weithgareddau; a
  - bod yr wybodaeth hon yn rhan o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio'i adnoddau a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 7 Byddwn yn ceisio adnabod cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

## Cwestiynau archwilio

- 8 Mae **Atodiad 1** yn cynnwys y cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio ar gyfer yr archwiliad hwn.

## Cwmpas yr archwiliad

- 9 Bydd yr archwiliad arfaethedig yn cwmpasu'r data allweddol ar safbwynt defnyddwyr a deilliannau a ddarperir ar gyfer aelodau ac uwch swyddogion, a sut y defnyddir yr wybodaeth hon. Ni fydd yn adolygiad llawn o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor nac yn adolygiad manwl o ansawdd data.

## Meini prawf archwilio

- 10 Bydd yr archwiliad arfaethedig yn defnyddio'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos y berthynas rhwng y meini prawf a'r cwestiynau archwilio. Goleuwyd hyn gan ein gwybodaeth gronol yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 11 Mae **Atodiad 1** yn dangos y berthynas rhyngddynt a'r cwestiynau archwilio.

## Dulliau archwilio

- 12 Bydd yr adolygiad yn cynnwys adolygu dogfennau a chynnal cyfweiliadau.
- 13 Efallai y byddwn hefyd yn gwyllo recordiadau o gyfarfodydd cyhoeddus.

## Allbwn

- 14 Byddwn yn darparu adroddiad byr ar ôl cwblhau ein gwaith a bydd hwnnw'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## Amserlen

15 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos amserlen lefel uchel ar gyfer prif gyfnodau'r archwiliad.

### Arddangosyn 1: amserlen archwilio

| Cyfnod                                  | Dyddiad           |
|---|-------------------|
| Cyhoeddi briff prosiect                 | Ebrill 2023       |
| Cyhoeddi'r allbwn drafft                | 01 August 2023    |
| Cyhoeddi'r allbwn terfynol <sup>1</sup> | 01 September 2023 |

Mae cyhoeddi allbwn yn golygu lanlwytho'r allbwn i wefan Archwilio Cymru.

## Cysylltiadau Archwilio Cymru

16 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r tîm yn Archwilio Cymru a fydd yn gweithio ar yr archwiliad hwn.

### Arddangosyn 2: Cysylltiadau Archwilio Cymru

| Enw                                 | Manylion cyswllt   |
|-------------------------------------|--|
| Gary Emery - Cyfarwyddwr Archwilio  | <a href="mailto:Gary.Emery@audit.wales">Gary.Emery@audit.wales</a>         |
| Tim Buckle - Rheolwr Archwilio      | <a href="mailto:Timothy.Buckle@audit.wales">Timothy.Buckle@audit.wales</a> |
| Martin Gibson - Arweinydd Archwilio | <a href="mailto:Martin.Gibson@audit.wales">Martin.Gibson@audit.wales</a>   |
| Gareth Lewis - Uwch Archwilydd      | <a href="mailto:Gareth.Lewis2@audit.wales">Gareth.Lewis2@audit.wales</a>   |

<sup>1</sup> Ar gyfer allbynnau lleol/rhanbarthol, cyhoeddi'r allbwn terfynol fydd hyn. Ar gyfer Astudiaethau Gwerth am Arian, astudiaethau llywodraeth leol, adolygiadau thematig cenedlaethol ac allbynnau arunigol eraill a gyhoeddir yn y wasg ac sydd â phroffil cenedlaethol, cyhoeddi'r allbwn terfynol fydd hyn.

## Atodlen gwaith maes

- 17 Byddwn yn gwneud ein gwaith maes yn unol â'r dewis iaith a nodwyd gan y sefydliad. Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i gwrdd â dewisiadau iaith unigolion yn ystod yr archwiliad, os byddwn yn cael y rhain ar adeg sefydlu'r gwaith maes.

## Cais am ddogfennau

- 18 Byddwn yn cynnal adolygiad o'r dogfennau a restrir isod. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gallwn ofyn am ddogfennau ychwanegol yn ystod y prosiect. Lle ma dogfennau yn y rhestr isod ar gael yn gyhoeddus, cyfeiriwch ni at eu lleoliad ar-lein os gwelwch yn dda. Lle mae gennym eisoes gopïau o'r dogfennau, byddwn yn cadarnhau hyn yn y cyfarfod i sefydlu'r prosiect. Hefyd, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu unrhyw ddogfennau ychwanegol ar ein cyfer a allai fod yn berthnasol i'r gwaith hwn yn eich tyb chi.

### Arddangosyn 3: cais cychwynnol am ddogfennau

#### Teitl y ddogfen

Fe hoffem adolygu'r dogfennau canlynol sy'n cwmpasu'r 12 mis diwethaf:

- adroddiadau ar berfformiad i Bwyllgorau Craffu a'r Cabinet;
- adroddiadau mewnol ar berfformiad a ystyriwyd yn y TRhC;
- adroddiadau mewnol eraill ar berfformiad;
- dogfennau sy'n cwmpasu trefniadau ac adolygiadau o ansawdd data; a
- adroddiadau a gwerthusiadau perfformiad blynyddol.

## Cyfweliadau

- 19 Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r rhestr gychwynnol o bobl yr hoffem gyfweid â hwy yn ystod ein gwaith. Byddwn yn cysylltu â chi eto i drefnu dyddiadau ac amseroedd sy'n gyfleus i ni ac i chi pan fyddwn yn dechrau'r cyfnod casglu tystiolaeth.
- 20 Yn dilyn ein hadolygiad o ddogfennau, efallai y byddwn yn adnabod cyfweliadau pellach. Gall y rhain fod yn berthnasol i feysydd gwasanaeth penodol. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Cyngor os mai felly y bydd hi.

## Arddangosyn 4: cyfweleion

| Teitl   |
|---|
| Aelod Cabinet â'r portffolio ar gyfer trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol <ul style="list-style-type: none"><li>Cynghorydd Bryan Davies – Arweinydd y Cyngor</li></ul>  |
| Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb am drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol <ul style="list-style-type: none"><li>Barry Rees - Cyfarwyddwr Corfforaethol</li></ul>  |
| Uwch swyddog(ion) â chyfrifoldeb am drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol <ul style="list-style-type: none"><li>Alun Williams - Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Gwarchod y Cyhoedd</li><li>Diana Davies - Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Partneriaeth a Pherfformiad</li></ul> |

Oni chytunir yn wahanol gyda'r Cyngor, rydym yn bwriadu cynnal cyfweiliadau'n rhithwir trwy Microsoft Teams.

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Arddangosyn 5: prif gwestiwn yr archwiliad

A yw'r data ar berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?

| Cwestiynau L2  | Meini Prawf Archwilio <sup>2</sup> (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)  |
|--|--|
| <b>Lefel 2</b>   |  |
| 2.1 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau? | <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r wybodaeth:<ul style="list-style-type: none"><li>– yn berthnasol i'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun;</li><li>– yn ddigon i'w gwneud yn bosibl deall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau;</li><li>– yn ddigon i ddarparu dealltwriaeth am gynnydd tuag at y deilliannau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni;</li><li>– yn dod oddi wrth yr amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; ac</li><li>– yn cael ei defnyddio i oleuo cymariaethau â pherfformiad cyrff tebyg lle y bo'n berthnasol.</li></ul></li><li>• Mae'r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chasglu.</li></ul> |

<sup>2</sup> Goleuwyd ein meini prawf archwilio gan ein gwybodaeth gronol o waith archwilio blaenorol yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a dangosyddion perfformiad yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy

| Cwestiynau L2  | Meini Prawf Archwilio <sup>2</sup> (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)   |
|--|---|
| <b>Lefel 2</b>   |   |
| 2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ddeilliannau gweithgareddau'r Cyngor? | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r wybodaeth yn dod o ystod o ffynonellau tystiolaeth i ddarparu golwg gyfannol ar gynnydd.</li> <li>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd dros y tymor byr, canolig a hir.</li> <li>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro'r modd y cyflawnir deilliannau sy'n cwmpasu nifer o feysydd gwasanaeth a/neu sefydliadau.</li> </ul> |
| 2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Cyngor drefniadau eglur i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu ar gyfer uwch arweinwyr.</li> <li>• Lle canfyddir gwendidau yn ansawdd y data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy.</li> </ul>   |
| 2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ddeilliannau?   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lle canfyddir perfformiad gwael mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ymyriadau.</li> <li>• Ceir tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella'i gynnydd tuag at ei ddeilliannau o ganlyniad i'w ymyriadau.</li> </ul>   |
| 2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.</li> <li>• Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg i adnabod cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau.</li> </ul>  |

## Atodiad 2

### Hysbysiad prosesu teg

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2021

### Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthyfych sut y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'n gwaith.

#### Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru'n cynnwys archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru'n darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Mae 'Archwilio Cymru' yn nod masnach i Swyddfa Archwilio Cymru, a dyma hunaniaeth ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

#### Swyddog Diogelu Data (DPO)

Gellir cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy e-bost yn [Swyddog.Gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:Swyddog.Gwybodaeth@archwilio.cymru)

#### Y deddfau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR). Ein seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn Neddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gan ddibynnu ar y pŵer neu'r swyddogaeth arbennig sydd dan sylw, mae'r seiliau statudol hyn yn perthyn i Erthygl 6(c) ac (e) Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data — prosesu sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, i gyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.

#### Pwy fydd yn gweld y data?

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a staff perthnasol yn Swyddfa Archwilio Cymru, megis tîm yr astudiaeth, yn gallu gweld yr wybodaeth a ddarperir gennych.

Gall ein hadroddiad cyhoeddedig gynnwys rhywfaint o'ch gwybodaeth, ond byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth y gellir eich adnabod ohoni — gweler hefyd 'eich hawliau chi' isod.

# Tudalen 64

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gydag:

- a) uwch reolwyr yn y corff(cyrff) a archwilir hyd y bo'n angenrheidiol er mwyn arfer ein pwerau a'n dyletswyddau; a;
- b) rhai cyrff cyhoeddus eraill/cyrff adolygu gwasanaethau cyhoeddus megis Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Arolygiaeth Gofal Cymru (Gweinidogion Cymru), Estyn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, pan fo'r gyfraith yn caniatáu hynny neu'n ei wneud yn ofynnol, megis o dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw'r data

Yn gyffredinol, byddwn yn cadw eich data am chwe blynedd, er y gallai hyn gynyddu i 25 mlynedd os yw'n ategu adroddiad cyhoeddedig—byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth y gellir eich adnabod ohoni—gweler hefyd 'eich hawliau chi' isod. Ar ôl 25 mlynedd, mae'r cofnodion naill ai'n cael eu trosglwyddo i Archif Genedlaethol y DU neu'n cael eu dinistrio'n ddiogel. Yn ymarferol, ychydig iawn o wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw y tu hwnt i chwe blynedd.

## Ein Hawliau Ni

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau i gael gwybodaeth, esboniad a chymorth o dan baragraff 17 Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 52 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 26 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 98 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gall fod yn dramgwydd troseddol, y gellir ei gosbi â dirwy, os yw rhywun yn methu â darparu gwybodaeth.

## Eich Hawliau Chi

Mae gennych chi hawliau i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a ddelir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi niwed a thrallod sylweddol a diangen.

I gael copi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at Y Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, neu anfonwch neges e-bost i [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru). Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

## Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data neu i gwyno am y modd yr ydym yn trin eich data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, neu drwy anfon neges e-bost i [casework@ico.gsi.gov.uk](mailto:casework@ico.gsi.gov.uk) eu drwy ffonio 01625 545745.







Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Cynllun Blynyddol 2023-24

Gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol  
am ein huchelgeisiau tymor hwy a  
dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 ac mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein huchelgeisiau tymor hwy a'n dangosyddion perfformiad allweddol. Mae wedi ei baratoi ar y cyd, ac wedi ei osod gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Senedd wedi gwneud darpariaeth i'w Pwyllgor Cyllid fod yn gyfrifol am ystyried ac adrodd i'r Senedd ar y Cynllun Blynyddol hwn.

Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn y Cynllun hwn, cyfeiriwn yn benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau pan fo angen manylder cyfreithiol.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar ffurf a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'i gynnwys, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod.

#### Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas (llawr gwaelod a'r cyntaf)

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Ffôn 02920 320 500

E-bost [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Twitter [@WalesAudit](https://twitter.com/WalesAudit)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Rhagair  | 4  |
| Ein rôl a'n pwrpas   | 6  |
| Yr hyn a wnawn   | 8  |
| Ein hamgylchedd gweithredu   | 10 |
| Ein rhaglenni gwaith: sut rydym yn trefnu ac yn ariannu ein gwaith | 14 |
| Cyflawni archwiliad  | 15 |
| Gweithredu'r busnes  | 17 |
| Ein blaenoriaethau a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni              | 19 |
| Mesur ac adrodd ar ein perfformiad                                 | 26 |

## Atodiadau

|   |    |
|---|----|
| 1 Gwaith archwilio lleol                                    | 31 |
| 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol | 32 |
| 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol                  | 34 |
| 4 Ein cyllid  | 36 |

# Rhagair

## Rydym yn falch o gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24

### We are pleased to present our Annual Plan for 2023-24

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 sy'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf, o ran ein gwaith archwilio a'r ffordd y mae'r busnes yn cael ei redeg.

Mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru yn llwm. Mae chwyddiant uchel ynghyd ag effeithiau economaidd a chymdeithasol cyni, y pandemig a'r ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd wedi erydu pŵer gwario cyrff cyhoeddus ac unigolion fel ei gilydd. Mae costau byw cynyddol yn rhoi mwy a mwy o deuluoedd mewn tlodi ac mae'r galw am wasanaethau yn parhau i gynyddu.

Yn y byd cymhleth hwn sy'n newid yn gyflym, mae gan archwilio rôl hanfodol o ran rhoi'r wybodaeth a'r sicrwydd y maent ei angen i'r cyhoedd, gwleidyddion, pobl sy'n gwneud penderfyniadau a'r dylanwadwyr ynglŷn â pha mor dda y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Gyda chyllid cyhoeddus o dan y fath straen, mae ein gwaith craidd o archwilio datganiadau ariannol cyrff cyhoeddus yn bwysicach nag erioed ac mae'n rhaid ei flaenoriaethu. Mae'n darparu sicrwydd, tryloywder ac atebolrwydd i drethdalwyr, y Senedd a chynrychiolwyr etholedig eraill. Mae'n rhoi gwybodaeth ariannol gywir a dibynadwy i gyrff cyhoeddus gynllunio a rheoli eu gwasanaethau a'u cyllid.

Bydd ein rhaglen waith gwerth am arian yn adlewyrchu rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r wlad lle gall Archwilio Cymru ychwanegu'r gwerth mwyaf:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur
- Cydnerthedd gwasanaeth a mynediad ato
- Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda

Bydd ein hymgyrch ddi-baid i wella ansawdd ein gwaith yn gweld gwreiddio safonau rhyngwladol newydd ar gyfer archwilio ariannol a pherfformiad.

Byddwn yn ceisio cynyddu effaith ein harchwiliadau trwy welliannau i'n cynnyrch, llwyfannau digidol a'n sianeli. Bydd rhaglen o weithgareddau Cyfnewid Arfer Da (GPX) yn cynyddu effaith ein gwaith ymhellach, gan ddod â phobl at ei gilydd yn bersonol ac yn rhithiol i rannu gwybodaeth a syniadau.

Nid yw Archwilio Cymru'n ddiogel rhag y pwysau ariannol y mae gweddill y sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Rydym yn cynnal adolygiad cynaliadwyedd ariannol i sicrhau bod y busnes yn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl.

Bydd ein prosiect Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol yn ein gweld yn dechrau'r flwyddyn mewn safle llai, fwy ynni-effeithlon, a hygyrch yng Nghaerdydd. Byddwn yn parhau i asesu sut mae ein hasedau ledled Cymru yn ein galluogi i gyflawni ein gwaith archwilio gorau gan hefyd wneud cyfraniad sylweddol at ein huchelgeisiau sero net. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o weithio hybrid i gydnabod buddion busnes a manteision unigol cymysgedd o weithio wyneb yn wyneb a gweithio o bell.

Nid yw dim o'n gwaith yn bosibl heb ein staff - y timau medrus a brwdfrydig iawn sy'n gwneud cyfraniad hanfodol i'n gwasanaethau cyhoeddus cenedlaethol. Bydd cefnogi lles ein pobl a gwneud Archwilio Cymru yn lle gwych i weithio yn parhau, felly, dyma yw ein blaenoriaeth uchaf gan ei fod yn sail i bopeth rydym yn ei wneud.



**Adrian Crompton**

Archwilydd  
Cyffredinol Cymru



**Dr Kathryn Chamberlain**

Cadeirydd Swyddfa  
Archwilio Cymru

# Ein rôl a'n pwrpas

- 1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y pleidleisir arno'n flynyddol gan y Senedd. Mae elfennau sylweddol o'r cyllid hwn yn cael ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.
- 2 Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau o ddarparu adnoddau, fel staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac o fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.
- 3 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, mae ein pwrpas wrth wraidd popeth a wnawn – i sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda, i esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario ac ysbrydoli sector cyhoeddus Cymru i wella.

**SICRHAU  
ESBONIO  
YSBRYDOLI**

Manteisio i'r eithaf ar ein safbwynt unigryw, ein harbenigedd a thrylwyredd ein gwybodaeth

Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, annibynnol, yr ymddiriedir ynddo

Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd

Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel

Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu

Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol



- 4 Mae Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: ein Strategaeth 2022-27 yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei gymryd tuag at gyrraedd ein llawn botensial fel ysgogwyr newid a gwelliant wrth galon gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd yng Nghymru. Mae'n nodi ein gweledigaeth i gynyddu ein heffaith drwy:
- fanteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad;
  - cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol;
  - cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad, a pherthnasedd; a
  - bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.
- 5 Mae ein strategaeth yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun Blynyddol hwn, sy'n nodi rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod yr ail flwyddyn o gyflawni ein strategaeth. Rydym yn canolbwyntio ar dri maes allweddol
- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
  - Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
  - Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol.




## Yr hyn a wnawn

- Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith o blaid craffu effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr etholedig lleol. Rydym yn gwbl annibynnol o'r llywodraeth.
- Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o werth cenedlaethol ar gyfer archwiliadau ac astudiaethau arian. Gellir arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd, os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.
- Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth adnoddau dynol a naturiol ochr yn ochr â'n hystyriaeth o adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyfrif am eu defnydd.
- Rydym yn nodi arferion da o bob rhan o ehangder llawn ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu a rennir.
- Rydym yn ymgymryd â'n gwaith yn unol â [Chod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol](#). Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y mae archwilio a rhai swyddogaethau eraill i'w cyflawni ac yn ymgorffori'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn arfer proffesiynol gorau.
- Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill yn y DU a chyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith ein gwaith ar y cyd.

## Sut rydyn ni'n dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru<sup>1</sup>

12 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio bron â bod £26 biliwn o incwm a gwariant, sef dros chwarter cynnyrch domestig gros Cymru.



1 Nid yw ffynonellau ariannu a amlygir yn yr arddangosyn yn cynnwys gweithgareddau cynhyrchu incwm mewn cyrrf cyhoeddus unigol.

2 Yn cynnwys derbyniadau gan Swyddfa Cymru, Dosbarthiad CThEM o'r Gronfa Yswiriant Gwladol mewn perthynas â Nawdd Cymdeithasol, a Chyfradd Treth Incwm Cymru.



# Ein hamgylchedd gweithredu

- 13 Mae ehangder ein gwaith archwilio ar draws sector cyhoeddus Cymru a'r meysydd polisi datganoledig, ein lle fel rhan o broffesiwn cyfrifyddu ac archwilio ehangach yn y DU, ac effaith newidiadau ehangach yn y gymdeithas, i gyd yn cyfrannu at amgylchedd gweithredu Archwilio Cymru.
- 14 Rydym yn monitro datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i'n rhaglen waith archwilio a'n gwaith o weithredu'r busnes. Mae hyn yn cynnwys ystyried risgiau i'n darpariaeth ond hefyd meysydd cyfle i'n rhaglen waith. Mae materion sydd wedi dod i'r amlwg neu wedi sydd wedi gwaethygu dros y flwyddyn ddiwethaf ac wrth i ni ddechrau 2023-24 wedi'u nodi isod.

## Darparu Adnoddau ar gyfer ein gwaith

### Ariannu ein gwaith

- 15 Mae'r ffordd y mae ein gwaith yn cael ei ariannu yn golygu bod yn rhaid i ni fod yn ymwybodol o'n costau ein hunain tra hefyd yn rheoli effaith pwysau chwyddiant. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ansawdd uchel ein gwaith archwilio, gan gyflawni'n effeithiol y gwahanol bwerau a dyletswyddau a roddir i'r Archwilydd Cyffredinol a bodloni'r safonau y mae gan y cyhoedd a'i gynrychiolwyr hawl i'w disgwyl gan gorff archwilio cenedlaethol annibynnol. Yn y cyfamser, mae angen ystyried effaith newidiadau posib i'r proffesiwn archwilio ar lefel y DU yn y cyd-destun datganoledig.

### Heriau recriwtio a chadw staff

- 16 Bydd gofynion archwilio newydd yn gofyn am newid yn ein cymysgedd sgiliau ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon ac yn cynyddu costau'r gwaith hwnnw (fel y nodir yn [ein Cynllun Ffioedd 2023-24](#)). Fodd bynnag, rydym hefyd yn wynebu cystadleuaeth o'r proffesiwn cyfrifyddu ac archwilio ehangach lle rydym yn gweld tystiolaeth o gyfraddau cyflog yn cynyddu'n sylweddol, yn enwedig yn y sector preifat. Mae hyn yn cyflwyno heriau sylweddol i'n gallu i recriwtio a chadw staff sydd â chymwysterau addas o fewn ein cyfyngiadau cyllido.
- 17 Rydym hefyd yn wynebu tarfu pellach posibl ar ein hadnoddau, a'n gallu i greu incwm, drwy unrhyw weithredu diwydiannol parhaus sy'n ymwneud â'n staff.

## Gwaddol pandemig COVID-19

### Addasu i newidiadau yn ein ffyrdd o weithio

- 18 Fel llawer o gyrrff cyhoeddus, rydym wedi gweld newid sylweddol sy'n debygol o fod yn barhaol yn y ffordd rydym yn gweithio a'r cydbwysedd rhwng gweithio yn y swyddfa, gweithio gartref, a gweithgarwch archwilio ar y safle mewn lleoliadau eraill. Bydd angen i ni barhau i addasu wrth inni sefydlu 'normal newydd' sy'n cefnogi ein heffeithlonrwydd sefydliadol, lles a datblygiad ein staff, a'r diwylliant cyffredinol rydym am ei weld yn Archwilio Cymru.

### Yr effaith ar amserlen archwilio ein cyfrifon

- 19 Mae'r pandemig, ynghyd â phwysau eraill ar adnoddau, wedi effeithio ar yr amserlen ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio cyfrifon blynyddol a byddwn yn ymdrin ag etifeddiaeth hyn trwy 2023-24 a thu hwnt. Mae cyrrff archwilio wedi ymgysylltu'n adeiladol â ni yn ystod y pandemig, er eu bod dan bwysau sylweddol eu hunain. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau o gyrrff archwilio yn cymryd mwy o amser i baratoi cyfrifon i'w harchwilio. Yn ogystal, rydym yn dal i weithio trwy ôl-groniad sylweddol o waith archwilio'r cynghorau tref a chymuned a ddaeth yn ôl yn fewnol ychydig cyn y pandemig.

## Materion llywodraethu a capasiti yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru

- 20 Rydym eisoes wedi gweld yr effaith y gall methiannau llywodraethu o fewn y cyrrff yr ydym yn eu harchwilio eu cael ar ein rhaglenni gwaith. Gallai unrhyw gynnydd mewn materion o'r fath, sy'n codi er enghraifft yn sgil y pwysau ariannol ar wasanaethau, effeithio'n sylweddol ar ein darpariaeth ein hunain.
- 21 Rydym hefyd wedi adrodd o'r blaen am bwysau capasiti ar draws gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus. Gallai'r pwysau ar adnoddau staff cyrrff archwilio effeithio ar sut maen nhw'n ymgysylltu â ni i gefnogi cyflawni ein gwaith, fel y gallai gweithredu diwydiannol ehangach.

## Ymateb i faterion cymdeithasol ehangach

### Yr argyfwng hinsawdd a natur

- 22 Mae rôl glir ar gyfer archwilio o ran adrodd ynghylch pa mor effeithiol y mae cyrrff cyhoeddus yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys cefnogi trawsnewid cyfiawn. Ond rydym hefyd eisiau dangos ein bod yn chwarae ein rhan drwy ein cynlluniau sero net a bioamrywiaeth ein hunain.

## Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- 23 Mae anghydraddoldeb yng Nghymru yn parhau i fod yn bryder sylweddol ac mae'r argyfwng costau byw yn cyflwyno heriau a risgiau ychwanegol. Mae ein [Cynllun Cydgynllun cydraddoldeb Strategol](#) yn nodi ein hymrwymadau allweddol ar gyfer y cyfnod 2022-2026 a sut y byddwn yn cyflawni ein rôl wrth helpu i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da, fel cyflogwr a thrwy ein gwaith archwilio.
- 24 Rydym hefyd am gofleidio'r Gymraeg. Rydym yn ymfalchïo yn ein darpariaeth gwasanaeth archwilio dwyieithog ac yn ymroddedig i weithredu a chynnal [Safonau'r Gymraeg](#). Rydym yn bwriadu gwthio y tu hwnt i'n gofynion statudol i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog wrth inni weithredu ein strategaeth Gymraeg ar gyfer 2022-2027.

## Digido

- 25 Mae cyfleoedd digidol yn cefnogi newidiadau i'r ffordd mae cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau a'n ffyrdd ein hunain o weithio. Fodd bynnag, mae dibyniaeth gynyddol ar ddulliau digidol yn cyflwyno risgiau cynyddol mewn amgylchedd lle mae ymosodiadau seibr yn dod yn fwy soffistigedig ac ymosodol. Mae gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd digidol hyn hefyd yn creu heriau o ran sgiliau digidol a chynhwysiant.

## Datblygiadau yn ein tirwedd archwilio

### Pwerau, dyletswyddau a chwmpas archwilio newydd

- 26 Yn 2022-23, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wyth corff cyhoeddus arall. Rydym wedi bod yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â goblygiadau ymarferol ac adnoddau cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf yn y cyfnod adrodd presennol (2020-2025).
- 27 O 2023-24 ymlaen, yr Archwilydd Cyffredinol fydd yr archwilydd allanol ar gyfer y [Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) newydd. Byddwn ni hefyd yn monitro datblygiadau yn barod ar gyfer ein gwaith archwilio yn y [Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil](#) newydd pan fydd yn gwbl weithredol.

## Newidiadau mewn arian cyhoeddus

- 28 Gyda rhaglenni ariannu'r UE yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023, byddwn yn parhau i gynllunio ar gyfer effaith peidio ag archwilio cronfeydd yr UE mwyach sy'n cefnogi ffermwyr ac amaeth. Yn y cyfamser, mae datblygiadau ynghylch Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn codi cwestiynau newydd ynghylch llif y cyllid trwodd at y cyrff yr ydym yn eu harchwilio yng Nghymru ac unrhyw ystyriaeth ynghylch sut mae prosiectau a gefnogir gan y cyllid hwnnw yn cael eu rheoli'n lleol ac yn cyfrannu at amcanion ehangach y cyrff.

## Ystyried gwaith cyrff adolygu allanol eraill

- 29 Wrth i ni geisio gweithio'n effeithlon, lleihau dyblygu gwaith a lleihau gofynion ar gyrff archwilio, rydym yn ystyried gwaith a wnaed neu a gynlluniwyd gan gyrff adolygu allanol eraill ac yn cysylltu'n rheolaidd â'r cyrff hynny. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, y gwahanol gomisiynwyr yng Nghymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym hefyd yn cysylltu â chyrff eraill sy'n canolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus, fel Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Llywodraethiant Cymru.



# Ein rhaglenni gwaith: sut rydym yn trefnu ac yn ariannu ein gwaith

---

- 30 Gellir rhannu ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2023-24 yn fras yn ddwy raglen waith - darparu archwiliadau a gweithredu'r busnes.
- 31 Mae cyflawni archwiliadau yn cynnwys rhaglen waith a blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2023-24 wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r ail adran ar weithredu'r busnes yn crynhoi rhaglen waith a blaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2023-24 wrth arfer ei swyddogaethau.
- 32 Mae'r adnoddau sydd ar gael, ac a allai ddod ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r Amcangyfrif Cymeradwy o Incwm a Threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024, i'w defnyddio i gyflawni'r rhaglenni gwaith hyn.



## Cyflawni archwiliadau

### Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus



Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian



Ardystio cynlluniau grant sy'n werth oddeutu **£1.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1.8 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd



Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 1 – Gwaith archwilio lleol

Atodiad 2 – Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Atodiad 3 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

- 33 Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol, mae pedair egwyddor a gydnabyddir yn eang yn sail i'n darpariaeth archwilio:

|  |  |
|--|--|
| <b>Y pwyslais cyhoeddus</b><br>Cynhelir archwiliad ar ran y cyhoedd ac fe'i gwneir er budd y cyhoedd   | <b>Atebol</b><br>Caiff archwilwyr y sector cyhoeddus eu hariannu'n gyhoeddus ac maent yn atebol am eu defnydd o arian cyhoeddus  |
| <b>Annibynnol</b><br>Mae'n rhaid i archwiliadau fod, ac ymddangos, yn annibynnol, wrth iddynt gael eu cynnal mewn ffordd sy'n wrthrychol ac yn ddiuedd | <b>Cymesur</b><br>Mae angen rhoi digon o le i ddarparwyr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau o safon uchel, wrth fod yn destun lefelau craffu digonol, ond nid gormodol |

- 34 Mae'r gwaith archwilio rydyn ni'n ei wneud mewn cyrff cyhoeddus unigol yn cynnwys:

- rhoi barn ar y cyfrifon;
- ystyried sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy (rheoleidd-dra);
- ystyried sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal (priodoldeb);
- archwilio a oes trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian; ac
- asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.


- 35 Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU drwy'r [Fforwm Archwilio Cyhoeddus](#), a chyda'n cydweithwyr yn y prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio'r cyhoedd ac effaith cyfunol ein gwaith. Rydym yn falch o gynrychioli Cymru ar brydiau ar y llwyfan archwilio rhyngwladol, gan gynnwys mewn digwyddiadau EURORA<sup>3</sup>.
- 36 Gallwn hefyd drefnu gyda mathau penodol o gyrff, yn y DU a thramor, i wneud gwaith sydd wedi ei gomisiynu<sup>4</sup>. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r cronfeydd Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru a gweithredu fel Prif Archwilydd i, ac archwilio cyfrifon, Llywodraeth Anguilla<sup>5</sup> gweithio gyda rheoleiddwyr eraill a chefnogi cyfleoedd yn Jersey a Seland Newydd.

## Gweithredu'r busnes

### Gwaith craidd



Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£24.3 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **290 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

Am ragor o wybodaeth gweler:

Atodiad 4 – Ein Cyllid

- 3 Mae ([EURORA](#)) yn brosiect cydweithredu ymhlith sefydliadau archwilio'r sector cyhoeddus ledled Ewrop.
- 4 Lle rydym yn darparu gwasanaethau i'r gyrff hynny, neu arfer swyddogaethau'r gyrff hynny. Rydym yn ymwybodol y dylai pob gweithgaredd o'r fath hunan ariannu ac ni chaiff ei wneud ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.
- 5 Ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

- 37 Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am bennu a goruchwyllo cyfeiriad strategol y sefydliad a sicrhau ein bod ar y trywydd iawn o ran cyflawni ein huchelgeisiau. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol, ochr yn ochr â dau aelod a etholwyd gan gyflogeion ac aelod sy'n gyflogai a enwebwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n darparu dimensiwn ychwanegol o fewnwelediad a phrofiad.
- 38 Mae'r Tîm Arwain Gweithredol, sy'n cynnwys tri Chyfarwyddwr Gweithredol ac sy'n cael ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn ei gynghori yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Ceisir persbectif staff i helpu i lywio penderfyniadau'r Tîm Arwain Gweithredol gan banel o gynrychiolwyr staff.
- 39 Mae gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu i'w gweld yn adran Datganiad Llywodraethu ein [Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon 2021-22](#).



# Ein blaenoriaethau a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni

- 40 Ochr yn ochr â chyflawni ein cyfrifoldebau statudol craidd, rydym wedi nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn 2023-24, bydd cyflawni'r rhain yn ein cefnogi i wireddu ein huchelgeisiau strategol erbyn 2027. Trefnir ein blaenoriaethau o gwmpas tri maes pwyslais:
- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
  - Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith o gyfathrebu a dylanwadu
  - Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac, yn y dyfodol
- 41 Mae'r adrannau nesaf yn rhoi mwy o wybodaeth am bob un o'r meysydd strategol o bwyslais, pam eu bod yn bwysig, ein cynnydd hyd yma a'n gweithredoedd blaenoriaeth ar gyfer 2023-24. Mae'r camau blaenoriaeth hyn wedi'u nodi mewn dwy ran – mae cyflawni archwiliadau yn cynnwys rhaglen waith a blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol wrth arfer ei swyddogaethau. Mae gweithredu'r busnes yn crisialu rhaglen waith a blaenoriaethau Swyddfa Archwilio Cymru wrth arfer ei swyddogaethau.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

### Pam mae'n bwysig

- 42 Mae llawer o'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu yng Nghymru heddiw yn gymhleth, yn rhyng-gysylltiedig ac yn rhychwantu cylchoedd gwaith amrywiaeth o sefydliadau. Byddwn ni'n parhau i archwilio'r cyfle i newid yn ein model cyllido er mwyn rhoi gwell hyblygrwydd i ni archwilio mwy o faterion trawsbynciol a system gyfan ac fel rhan o hyn, mae'n archwilio sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i 'phum ffordd o weithio' yn cael eu defnyddio.

- 43 Rydym wedi datblygu ein ffordd o feddwl, gan adeiladu ar adborth o'n hymgyngoriad ar y rhaglen waith yng ngwanwyn 2022-23 a'n dadansoddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn 2021, i ganolbwyntio rhaglen archwilio tair blynedd dangosol o waith ar bedair thema allweddol:
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
  - Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur
  - Cydnerthedd gwasanaeth a mynediad ato
  - Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda
    - Llywodraethu da
    - Gweithlu, asedau, a chyllid
- 44 Fel pob sefydliad yn y sector cyhoeddus, rydym yn wynebu heriau ariannol ac mae angen inni fyw o fewn ein modd. Gan adeiladu ar arferion rheoli da, rydym wedi dechrau ar adolygiad cynaliadwyedd ariannol sydd wedi'i gynllunio i roi opsiynau clir ar sut y byddwn yn wynebu'r dyfodol a byddwn yn cymryd agwedd strategol i gysoni ein sefyllfa ariannol tymor canolig, ein darpariaeth gwasanaeth, a ffurf ein gweithlu.
- 45 Wrth i'r dirwedd archwilio newid, rhaid i Archwilio Cymru addasu ac ymateb i newidiadau'r diwydiant gan gynnwys mabwysiadu safonau rhyngwladol wrth gyflawni ein gwaith archwilio perfformiad a sicrhau cydymffurfiaeth ein gwaith archwilio cyfrifon â gofynion newydd. Ar gyfer ein gwaith cyfrifon, mae'r newidiadau hyn yn gofyn i ni edrych eto ar ein trefniadau cynllunio gweithlu ac ariannu i ddarparu cymysgedd sgiliau priodol. Ochr yn ochr â hyn, rydym am fynd i'r afael â'r llithriad yn amserlen gwaith archwilio ein cyfrifon ac ôl-groniadau eraill.
- 46 Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a chapasiti cyrff archwilio i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ystyried materion sy'n achosi pryderon a allai godi a datblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru.
- 47 Byddwn ni'n gwella ein dull o fonitro perfformiad, gan ganolbwyntio ar olwg gyfannol ar ein risgiau, dangosyddion perfformiad allweddol, effaith a chyflawniad ein rhaglenni gwaith, cynlluniau busnes a phrosiectau mewnol, a sicrhau ein bod yn gallu addasu ein dull gweithredu, sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl a pharhau i fod yn ymatebol i heriau.

## Mae'r llwyddiannau hyd yma yn cynnwys:

- Wrth i ni ddatblygu themâu ein rhaglen waith, rydym wedi bod yn adeiladu ar y gwaith perthnasol sydd eisoes wedi'i gyhoeddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys er enghraifft ar yr agenda sero net a rheoli risg llifogydd, her mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru, ôl-groniad gofal arfaethedig y GIG, seibergadernid ac asesu effaith ar gydraddoldeb. Rydym hefyd wedi bod yn archwilio cyfleoedd am waith ychwanegol sy'n cyfateb i ddata i ystyried risgiau twyll, gan adeiladu ar ein gwaith fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU.
- Mae ansawdd archwilio bob amser yn bwyslais allweddol, rydym wedi buddsoddi yn ein swyddogaeth cymorth technegol a datblygu ein dulliau archwilio trwy weithredu safonau newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer ein harchwiliad o waith cyfrifon a chyflwyno safonau proffesiynol newydd ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad. Yn sail i lansiad y dulliau newydd hyn mae rhaglenni dysgu a datblygu helaeth i roi'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar ein timau archwilio i gyflawni safonau uchel o ansawdd archwilio.
- Mae ein swyddogaeth Ymchwil a Datblygu yn cefnogi datblygiad ein rhaglen archwilio, ein gwaith sganio gorwelion ehangach a datblygu rhwydweithiau, gyda'r byd academiaidd, melinau trafod a chyrrff eraill i helpu i lywio cwmpasu prosiectau archwilio.

## Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn 2023-24

### Cyflawni Archwiliadau

Ymgorffori dull newydd sy'n cydymffurfio â ISA 315<sup>6</sup> - ymdrin â'n harchwiliad o waith cyfrifon a safonau INTOSAI<sup>7</sup> wrth gyflawni ein gwaith Archwilio Perfformiad.

Cyflwyno rhaglen fwy deinamig o waith archwilio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn lleol ac yn genedlaethol.

Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi, cytuno a chyflwyno terfynau amser archwilio ar gyfer ein gwaith cyfrifon ar gyfer 2023 a blynyddoedd y dyfodol.

### Gweithredu'r busnes

Datblygu ein dull o reoli perfformiad integredig.

Cwmpasu ein Hadolygiad Cynaliadwyedd Ariannol a dechrau gweithredu newidiadau angenrheidiol i fyw o fewn ein modd yn 2023-24 a blynyddoedd y dyfodol, gan ddangos ein hymrwymiad ein hunain i werth am arian.

6 Safon Ryngwladol ar Archwilio ddiwygiedig (ISA 315).

7 Safonau proffesiynol rhyngwladol ar gyfer archwilio'r sector cyhoeddus a amlinellir gan y Sefydliad Rhyngwladol o Sefydliadau Archwilio Goruchaf, INTOSAI.

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith o gyfathrebu a dylanwadu

### Pam mae hyn yn bwysig

- 48 Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae'n hanfodol bod ein gwaith yn cael effaith a bod ein negeseuon yn cael derbyniad da ac yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae ein gallu i gyflawni hyn yn dibynnu ar ein hymgysylltiad ag ystod eang o randdeiliaid. Mae rheoli y perthnasoedd hyn yn bwysig i'n safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol ac mae'n gofyn i ni ymgysylltu'n rhagweithiol ag eraill i gyfathrebu negeseuon allweddol o'n gwaith a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus gyda'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn deall sut mae rhanddeiliaid allweddol yn gweld ein gwaith a'n bod yn ymateb i'r gwahanol ffyrdd y mae ein cynulleidfaoedd am dderbyn gwybodaeth yn y byd modern, gan gynnwys trwy ein platfformau digidol.
- 49 I wella effaith ein cynhyrchion archwilio, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio ein hagwedd, gan sicrhau bod ffurf a chyflwyniad ein gwaith yn diddori ac yn ysbrydoli ystod eang o randdeiliaid amrywiol. Byddwn yn parhau â'n hymgyrch tuag at gynhyrchion archwilio byrrach, mwy penodol, ac ymatebol, gan gynnwys sylwebaeth amser real ar faterion amserol pwysig, a defnyddio ein llwyfannau digidol a'n hoffer i wella amlygrwydd ein gwaith a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid.
- 50 Rydym yn bwriadu rhoi mwy o bwyslais ar adrodd thematig, cymariaethau ar draws cyrff archwilio a nodi a rhannu arferion da a rhannu profiad wrth gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i wella. Gall rhai o'r meysydd pwyslais yr ydym yn dewis bwrw ymlaen â nhw fod yn addas i wahanol fathau o gynnyrch – sesiynau briffio byr, blogiau, offer data neu hwyluso cyfnewid syniadau ac ymarfer trwy ddulliau eraill – yn hytrach nag adroddiad llawn neu ynghyd ag ef.

### Mae'r llwyddiannau hyd yma yn cynnwys:

- Rydym yn gwella sut rydym yn arddangos gwybodaeth ac yn cyfleu ein canfyddiadau archwilio gan ddefnyddio dadansoddeg data ac offer data rhyngweithiol i gefnogi ein hadroddiad archwilio.
- Rydym wedi cryfhau ein perthnasoedd a'n cyfranogiad gyda sefydliadau archwilio, a chydweithio ag asiantaethau archwilio eraill y DU yn y Fforwm Archwilio Cyhoeddus (PAF), gan ddarparu ymateb ar y cyd i ymgynghoriad yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar ddyfodol proffesiwn archwilio'r DU.



- Cynnal cyfres o ddigwyddiadau Cyfnewid Arferion Da yn cyd-fynd â'n strategaeth ac yn canolbwyntio ar heriau cyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys ymateb i'r argyfwng hinsawdd, taclo tlodi yng Nghymru ac asesiad effaith cydraddoldeb.
- Rydym yn cymryd rhan yn rheolaidd fel prif siaradwyr mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol.

## Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn 2023-24

### Cyflawni Archwiliadau

Rhoi dull ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ar waith i gasglu adborth annibynnol gan ein cyrff archwilio.

### Gweithredu'r busnes

Gwella ein trefniadau cyfathrebu mewnol gan gynnwys sesiynau ymgysylltu tîm arweinyddiaeth weithredol aml, rhannu straeon sy'n canolbwyntio ar ansawdd, effaith a rhyngweithio sydd gennym trwy ein gwaith, ac adnewyddu sianeli cyfathrebu gan gynnwys ein mewnwyd.

Adnewyddu ein gwefan.

Cyflwyno rhaglen dreigl, wedi'i hadnewyddu o rannu arferion da (GPX), sy'n cyd-fynd â'n rhaglen archwilio ac sydd wedi'i chynlluniwyd o'r cychwyn cyntaf.

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol

### Pam mae hyn yn bwysig

- 51 Ni ellir cyflawni unrhyw un o'n hamcanion ar gyfer archwilio cyhoeddus o ansawdd uchel heb fod â'r staff, y diwylliant a'r adnoddau cywir yn eu lle. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod Archwilio Cymru yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru, un sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'n pobl o fewn diwylliant sy'n caniatáu i bawb ffynnu.

- 52 Mae ein henw da a'n heffaith yn dibynnu ar ansawdd y gwaith rydym yn ei gyflawni ac effeithiolrwydd ein gweithrediad mewnol. Mae ein strategaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn canolbwyntio ar ddenu a chadw staff galluog a medrus iawn a blaenoriaethu datblygiad ein pobl i gyflawni eu rolau, tyfu a pherfformio ar eu gorau.
- 53 Ein huchelgais yw i Archwilio Cymru ddod yn esiampl o sefydliad cyfloe a phenodol ar gyfer Cymru. Byddwn ni'n sicrhau bod ein pwyslais strategol ar weithleoedd yn y dyfodol, sero net, digideiddio, gweithlu a chynlluniau ariannol yn rheng-gysylltiedig ac yn addas ar gyfer y dyfodol – gan greu synergeddau ac effeithlonrwydd wrth eu gweithredu ar draws y sefydliad.
- 54 Byddwn ni'n bachu ar y cyfle i fod yn sefydliad sy'n aeddfedu'n ddigidol, sy'n cael ei ysgogi gan ddata, wrth reoli risgiau seiberddiogelwch yn rhagweithiol i sicrhau bod ein systemau'n ddiogel, yn gydnerth, ac yn addas i'r diben. Mae cymaint o ddigwydd yn y gofod hwn a byddwn yn sicrhau ein bod ar flaen y gad wrth ddatblygu ffyrdd newydd o gyflawni ein busnes craidd.
- 55 Mae ein hymrwymiad i anghydraddoldeb heriol yn rhan annatod o'n gwaith a byddwn bob amser yn herio ein hunain i wneud mwy. Yn ddiweddar fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd gyda set newydd o amcanion cydraddoldeb. Mae hyn yn ymestyn ein huchelgeisiau fel y gwna ein Strategaeth Gymraeg newydd a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2023. Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog ac yn parhau i gofleidio'r Gymraeg yn ein gweithgareddau.

### **Mae'r llwyddiannau hyd yma yn cynnwys:**

- Mae lles staff yn bwyslais sylweddol, gan gydnabod bod gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod diwylliant ein gweithle yn annog ymddygiadau cadarnhaol ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'n gweithwyr. Ym Medi 2022 lanswyd ein Strategaeth Lles wedi'i llunio ar gyfer tair thema lles sydd wrth wraidd ein nodau ar gyfer Archwilio Cymru – Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda.
- Rydym yn parhau i adolygu ein holl anghenion llety ac esblygu ein ffyrdd hybrid o weithio ar ôl COVID. Rydym wedi ymestyn y brydles ar ein swyddfa yn y gorllewin ac adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd. Mae'r staff wedi bod yn treialu'r defnydd o Hybiau, ochr yn ochr ag ailagor nifer fach o ystafelloedd archwilio ar safleoedd cleientiaid, gan alluogi staff i weithio'n effeithiol, yn hyblyg ac mewn cydweithrediad ag eraill.
- Mae gweithredu ein cynllun gweithlu sy'n cefnogi cyflawni'r weledigaeth a nodir yn ein Strategaeth Datblygu Pobl a'r sefydliad – 'i ddatblygu gweithlu galluog ac amrywiol sy'n cael ei ysgogi i gyflawni ein pwrpas a'n huchelgeisiau a chyrraedd ein llawn potensial'.

- Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu ein staff archwilio, cefnogi ein hyfforddeion i gyflawni eu cymwysterau, uwchsgilio staff wrth baratoi ar gyfer gweithredu safonau ac arferion gwaith proffesiynol newydd a pharhau i ddarparu rhaglen ddysgu a datblygu helaeth i ddatblygu gallu ymhellach.
- Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2026, sy'n nodi cyfres newydd o amcanion ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant ac rydym wedi ymrwmo i fod yn gyflogwr o ddewis a chynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

## Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yn 2023-24

### Cyflawni Archwiliadau

Ymgorffori ein system cofnodi a rheoli amser newydd (TRM) er mwyn darparu gwybodaeth reoli well, gan sicrhau defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o sgiliau staff a chefnogi proffilio incwm mwy cywir.

Gwella capasiti a gallu ein gweithlu trwy weithredu'r Cynllun Datblygu Pobl a'r Sefydliad a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

### Gweithredu'r busnes

Mynd i'r afael â pherfformiad sy'n gostwng o ran ymgysylltu a phrofiad cyflogaion.

Ymgorffori uchelgeisiau sero net drwy ffyrdd o weithio, cynllun teithio a datblygu ystadau.

Gweld dychwelyd at weithio yn bersonol yn rheolaidd, fel rhan o fodel gweithio hybrid, ar gyfer pob tîm yn Archwilio Cymru i fireinio cynhyrchiant, ansawdd a diwylliant sefydliadol.

Cyflawni a gwireddu manteision y Strategaeth Lesiant.

Ymgorffori ffyrdd effeithiol o weithio yn swyddfa newydd Caerdydd sy'n cefnogi cynhyrchiant, ansawdd, a diwylliant sefydliadol cydweithredol, a defnyddio dysgu ar draws holl swyddfeydd Archwilio Cymru.



# Mesur ac adrodd ar ein perfformiad

- 56 Yn 2023-24, byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, adrodd ac adlewyrchu ar ein perfformiad, gwerth am arian a risgiau, ac i chwilio am dystiolaeth ar effaith ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys adrodd yn rheolaidd i'n Tîm Arwain Gweithredol a'n Bwrdd ar gynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein meysydd gweithredu blaenoriaeth a chyrraedd ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i'n Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- 57 Ar gyfer pob un o'n rhaglenni gwaith, rydym wedi nodi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel a fydd yn ein helpu i fesur cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol. Byddwn ni'n rhoi pwyslais ar werthuso ein cyfeiriad teithio a chyflymder gwella, ochr yn ochr â'i gymharu â meincnodi priodol.
- 58 Byddwn yn adrodd ar ein perfformiad yn allanol trwy ein Hadroddiad Dros Dro a'n Hadroddiad Blynyddol a'i Gyfrifon, a thrwy ddarparu tystiolaeth mewn cyfarfodydd o Bwyllgor Cyllid y Senedd. Dylid nodi bod ein dangosyddion perfformiad allweddol yn rhan o gyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad gweithredol a chorfforaethol, ac mae llawer ohonynt hefyd yn cael eu hadrodd yn allanol yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon a chyhoeddiadau corfforaethol eraill.
- 59 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, gwnaethom adolygu ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol gan gyfeirio at lefelau cyffredol o berfformiad a meincnodau allanol priodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau cyffredinol a'n strategaeth ar gyfer eu cyflawni.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cyflawni Archwiliadau

### Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Rhif | Dangosydd               | Disgrifiad  | Targed   |
|------|-------------------------|---|--|
| 1    | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio wedi'i chyflawni erbyn y dyddiad cau statudol gofynnol.  | 100%   |
| 2    | Yn brydlon              | Cyfran cynhyrchion archwilio allweddol eraill wedi'u cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adrodd amserol a chael effaith. | 90%  |
| 3    | Ansawdd                 | Cyfran yr archwiliadau a adolygir sy'n cael eu cyflawni yn unol â <u>safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC)</u> .                       | 100% o'r sampl wedi'i asesu yn y ddauategori ansawdd archwilio uchaf |
| 4    | Hygrededd               | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian cyhoeddus ac asedau.      | O leiaf 90%  |
| 5    | Rhoi mewnwelediad       | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith ni, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi ei gael fel arall.             | O leiaf 80%  |
| 6    | Ysgogi gwelliannau      | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.                               | O leiaf 80%  |
| 7    | Arbedion wedi'u nodi    | Gwerth arbedion posibl, incwm, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith.  | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026                                |

**Dull wedi'i dargeddu ac sy'n cael effaith o gyfathrebu a dylanwadu**

| Rhif | Dangosydd  | Disgrifiad   | Targed              |
|------|--|--|---------------------|
| 8    | Digwyddiadau arfer da                            | Mae cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu yn ddefnyddiol iawn.  | O leiaf 90%         |
| 9    | Ymweliadau â'r wefan                             | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei pherfformio, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo.                         | 35,000 bob blwyddyn |
| 10   | Cyfryngau cymdeithasol                           | Nifer yr ymgysylltiadau â'r cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithio gyda'n postiadau er enghraifft eu hoffi, nodi sylw neu ail-drydar/rhannu.        | 3,000 bob blwyddyn  |
| 11   | Rhannu'r hyn yr ydym yn ei ddysgu drwy archwilio | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno yr hyn a ddysgwyd gennym i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 bob blwyddyn     |

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol gweithredu'r busnes

### Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol

| Rhif | Dangosydd                           | Disgrifiad  | Targed  |
|------|-------------------------------------|---|---|
| 12   | Ymgysylltu â chyfoegeion            | Canran cadarnhaol sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol.   | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer y CSPS diweddaraf   |
| 13   | Profiad cyfoegeion                  | Canran cadarnhaol sgorau profiad cyfoegeion mewn arolygon staff thematig <sup>8</sup> .   | O leiaf y sgorau meincnod canolrifol ar gyfer y CSPS diweddaraf |
| 14   | Absenoldeb salwch                   | Diwrnodau gwaith a gollwyd cyfartalog pob aelod o staff bob blwyddyn.   | Llai na chwe diwrnod  |
| 15   | Balans ariannol                     | Amrywiant tanwariant net ar incwm a gwariant o hynny a nodir yn ein Hamcangyfrif am y flwyddyn gyfredol.  | Llai na 2% o'r gyllideb gwariant gros                           |
| 16   | Arbedion costau ac effeithlonrwydd  | Gwerth arbedion cost ac effeithlonrwydd a nodwyd ar draws y busnes.   | £1.4 miliwn   |
| 17   | Allyriadau nwyon tŷ gwydr           | Cyfanswm allyriadau cyfatebol CO <sub>2</sub>   | Gostyngiad o 20% ar waelodlin 2019-20 <sup>9</sup>              |
| 18   | Cyfradd llwyddiant dan hyfforddiant | Cyfran yr hyfforddeion sy'n pasio y tro cyntaf yn eu harholiadau Lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90%   |

<sup>8</sup> Dyma themâu allweddol profiad gweithwyr y CSPS: amcanion a phwrpas sefydliadol; arwain a rheoli newid; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; a cyflog a buddion.

<sup>9</sup> Sy'n ystyried [Canllaw adrodd ar garbon sero net a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru](#).



# Atodiadau

---

- 1 Gwaith archwilio lleol
- 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol
- 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol
- 4 Ein cyllid



# 1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus   | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol <sup>10</sup> | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|--------------------|--|--|
| Comisiwn y Senedd   | ✓                  |  |  |
| Llywodraeth Cymru   | ✓                  |  | ✓                                      |
| 11 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru  | ✓                  |  | ✓ <sup>11</sup>                        |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth                                 | ✓                  |  |  |
| 5 cwmni Llywodraeth Cymru   | ✓                  |  |  |
| 6 Chomisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr  | ✓                  |  |  |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol  | ✓                  | ✓  | ✓                                      |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig                                  | ✓                  | ✓  | ✓ <sup>12</sup>                        |
| 22 o Gyngorau (Awdurdodau Unedol)   | ✓                  | ✓  | ✓                                      |
| 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiaid                                | ✓                  | ✓  |  |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub   | ✓                  | ✓  | ✓                                      |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol  | ✓                  | ✓  | ✓                                      |
| 9 Cronfa pensiwn  | ✓                  |  |  |
| Cyd-bwyllgorau Corfforedig  | ✓                  | ✓  | ✓                                      |
| Bargeinion dinesig a thwf rhanbarthol   | ✓                  | ✓  |  |
| Nifer o gyrrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr | ✓                  |  |  |
| Dros 730 o Gyngorau Tref a Chymuned   | ✓ <sup>13</sup>    |  |  |

10 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd mae gwaith archwilio perfformiad a gynhaliwyd o fewn y sector hwn yn ei raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

11 Dim ond ar gyfer cyrrff rhestredig dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12 Dim ond ar gyfer cyrrff rhestredig dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

13 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

## 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio lleol ar draws sawl GIG, llywodraeth ganolog a/neu gyrrff llywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder cyhoeddus a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol drwy ohebiaeth. Mae'r allbynnau o ran helaeth o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd (gweler hefyd **Atodiad 3**).

Fel y nodwyd yn gynharach yn y Cynllun hwn, rydym wedi bod yn datblygu rhaglen waith flaengar tair blynedd dangosol o dan bedair thema gyffredinol. Bydd y themâu hyn yn fframio ein holl waith archwilio, gan gynnwys ein hastudiaethau cenedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i wneud amser a lle yn ein rhaglen waith ar gyfer gwaith dilynol ar bynciau yr ydym wedi adrodd arnynt yn flaenorol.

Mae'r tablau isod yn crynhoi gwaith ar y gweill a gwaith cenedlaethol arall yr ydym yn bwriadu dechrau yn ystod 2023-24, gan gynnwys gwaith lleol thematig ar draws prif gynghorau a chyrrff y GIG. Gall allbynnau eraill ddod i'r amlwg hefyd yn ystod y flwyddyn a bydd ein hadroddiad interim yn rhoi diweddariad.

### Gwaith sy'n mynd rhagddo ar 1 Ebrill 2023

|  |                                  |
|--|----------------------------------|
| Llywodraethu ansawdd y GIG   | Cyd-bwyllgorau Corfforedig       |
| Rheoli asedau a gweithlu mewn llywodraeth leol                       | Gwneud y gorau o arian gan yr UE |
| Sero net (trosolwg DU gyfan – gyda chyrrff archwilio eraill yn y DU) | Gofal heb ei drefnu              |
| Cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon – dilyniant                    | Gweithlu'r GIG                   |

**Gwaith sy'n mynd rhagddo ar 1 Ebrill 2023**

|  |   |
|--|---|
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy adfywio tir llwyd | Diogelwch adeiladau                                       |
| Gwasanaethau ffoaduriaid Wcreinaidd                      | Llywodraethu/goruchwylio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol  |
| Strategaeth ddigidol ym maes llywodraeth leol            | Defnyddio gwybodaeth am berfformiad mewn llywodraeth leol |
| Tai fforddiadwy  | Gwasanaethau canser                                       |
| Teithio llesol   |   |

**Gwaith arall yr ydym yn bwriadu dechrau yn ystod 2023-24**

|   |  |
|---|--|
| Rheoli cynllunio cyfalaf a rhaglenni                    | Heriau i'r sector diwylliannol   |
| Digartrefedd  | Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth  |
| Ail-gydbwyso gofal a chymorth                           | Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG   |
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac addysg uwch – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub                    | Yr uwch wasanaeth cyhoeddus  |
| Cynaliadwyedd ariannol o fewn llywodraeth leol          | Comisiynu a rheoli contractau mewn llywodraeth leol  |

## 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

### Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) yn ei ystyriaeth o ddefnyddio adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ein gwaith hefyd, pan fo hynny'n berthnasol, lywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

Yn 2023-24, byddwn yn darparu sesiynau briffio rheolaidd i'r PAPAC ar allbynnau o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd yn helpu'r Pwyllgor i benderfynu ar ei ffordd ddilynol o weithredu. Byddwn ni hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth bellach i'r Pwyllgor yn ôl y gofyn, yn enwedig o ran y canlynol:

- datblygu sesiynau briffio aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill;
- datblygu adroddiad y Pwyllgor; a
- digonolrwydd ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor, a rhai cyrff eraill.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor am gynnwys cyffredinol rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ac ar faterion sy'n peri pryder i'r Pwyllgor. Byddwn ni hefyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgwyd wrth archwilio gyda phwyllgorau eraill y Senedd drwy ein hymgysylltiad â thimau clericio ac ymchwilyr eraill, ymateb i ymgynghoriadau a, pan fo hynny'n berthnasol a phan ofynnir amdanynt, briffio pwyllgorau eraill ar y canfyddiadau o'n gwaith ac o bosibl gefnogi eu hymchwiliadau eu hunain.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio i ddarparu sesiynau briffio rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

Byddwn hefyd yn darparu cyngor a chymorth pellach i bwyllgorau archwilio a chraffu, pan fo hynny'n berthnasol, yn enwedig o ran:

- rhoi cymorth ac arweiniad i gadeiryddion pwyllgorau er mwyn eu cefnogi i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl; a
- darparu cyfleoedd dysgu arferion da a sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau'r pwyllgor ar faterion penodol o berthnasol.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am stiwardiaeth arian cyhoeddus ac asedau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn 'berson rhagnodedig' ar gyfer derbyn datgeliadau chwythu'r chwiban am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol a thwyll, gwerth am arian a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn 2023-24, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn:

- ymateb i bryderon o'r fath yn brydlon ac mewn modd teg, gwrthrychol, a phroffesiynol;
- gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i'r rhai sydd wedi cymryd yr amser i roi gwybod i ni amdanynt;
- archwilio materion yn fanylach pan fyddwn o'r farn bod angen gwneud hynny, ac adrodd fel y bo'n briodol; a
- gwneud yn siŵr nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i ystyried materion nad ydynt yn berthnasol i'n gwaith archwilio nac yn treulio gormod o amser ar fân faterion.

## 4 Ein cyllid

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, gan gynnwys trwy ystyried y Cynllun hwn, ein Hadroddiad Dros Dro a'n Hadroddiad Blyneddol a'n Cyfrifon.

Daw tua dwy ran o dair o'n harian o ffioedd sy'n cael eu codi ar gyrrff archwilio yn unol â [chynllun ffioedd](#) sydd wedi ei gymeradwyo<sup>14</sup> gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid a gymeradwywyd gan Gronfa Gyfunol Cymru, ac mae ein defnydd o honno yn destun craffu gan y Bwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.


Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2023-24 wedi'u nodi yn ein [Hamcangyfrif o Incwm a Threuliau a Gwybodaeth Ategol](#) diweddaraf, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2022. Mae £20.4 miliwn o'n gwariant arfaethedig yn ymwneud ag adnoddau staffio sydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol i gynnal ei raglen waith<sup>15</sup>. Mae 3.9 miliwn arall yn darparu ystod o wasanaethau eraill, gan gynnwys llety, teithio, TGCh a ffioedd proffesiynol.

Mae'r Bwrdd yn adolygu ein perfformiad ariannol bob tro y mae'n cyfarfod drwy gydol y flwyddyn. Bob mis, mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn ystyried asesiad risg o'n hiechyd ariannol gyda'r bwriad o sicrhau gwerth am arian ac alldro diwedd blwyddyn o fewn y gyllideb.

<sup>14</sup> Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyrrff yr ydym yn eu harchwilio a rhanddeiliaid allweddol eraill.

<sup>15</sup> Dyma'r uchafswm yr adnoddau sydd ar gael, ac a allai fod ar gael, y rhagwelir y bydd yn cael ei ddyrannu gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol am ymgymryd â'i raglen waith

## Ein gwariant refeniw a chyllid 2023-24





Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas (y llawr gwaelod a'r cyntaf)  
Stryd Tyndall  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.



# Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026

# Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026

## Ynghylch ein rhaglen waith

- 1 Mae strategaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022-2027 yn cynnwys canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni 'rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel', yn ogystal â 'dull gweithredu effeithiol wedi'i dargedu o ran cyfathrebu a dylanwadu'.
- 2 Yng ngwanwyn 2022, buom yn ymgynghori ar ein rhaglen waith. A ninnau wedi ein llywio gan ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, a'n dadansoddiad o'r Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn 2021, rydym wedi bod yn llunio rhaglen fynegol o waith archwilio perfformiad sy'n cyd-fynd â'n harchwiliad blynyddol o gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Drwy nodi gorwel tymor canolig cliriach a thynnu ynghyd wahanol rannau o'n rhaglen waith gyffredinol, ein nod yw gwella ein hymchwil a'n datblygiad cyffredinol, a phrydlondeb ac effaith ein gwaith archwilio.
- 3 Bydd ein rhaglen archwilio ar gyfer 2023-2026 yn canolbwyntio ar bedair thema:



Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb



Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur



Cydnherthedd y gwasanaeth a mynediad



Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda

## Ynghylch y papur hwn

- 4 Rydym wedi paratoi'r papur hwn cyn dechrau'r gwaith o ddatblygu ein gwefan a'r wybodaeth ynddi am ein rhaglen waith i wella ein hymgysylltiad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ynghylch ein gwaith.
- 5 Mae'r papur yn canolbwyntio ar ein harchwiliadau a'n hastudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau o lywodraeth leol, ac yn paratoi adroddiadau cryno o'r canfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws sawl GIG, llywodraeth ganolog a/neu gyrff llywodraeth leol. Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder gan y cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol drwy ohebiaeth. Bydd ein gwaith yn cynnwys ystyried sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i 'phum dull o weithio' yn cael eu defnyddio.
- 6 Mae'r pynciau a nodwyd isod fel gwaith ar y gweill ar 1 Ebrill 2023, neu i ddechrau yn ystod 2023-24, yn adlewyrchu Atodiad 2 o'n Cynllun Blynyddol 2023-24. Gall cynlluniau ar gyfer allbynnau eraill ddod i'r amlwg wrth i'n rhaglen waith esblygu ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys gwaith dilynol a gwaith archwilio lleol sydd eisoes wedi'i gynllunio fel rhan o raglenni'r blynyddoedd blaenorol.
- 7 Yn ogystal, bydd ein cynlluniau archwilio lleol yn cynnwys gweithiau newydd eraill mewn cyrff unigol sydd i'w cyflawni yn ystod 2023-24:
  - Ar gyfer y prif gynghorau: mae adolygiadau lleol yn cynnwys rhoi sylw i wastraff ac ailgylchu, gwasanaethau cynllunio, Safon Ansawdd Tai Cymru, rheoli perfformiad ac adrodd, gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban, rhaglenni trawsnewid, ffyrdd a thrafnidiaeth, trefniadau i gefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy, llywodraethiant corfforaethol, craffu, a diogelu.

- Ar gyfer cyrff y GIG: fel estyniad i'n gwaith asesu strwythuredig blynyddol ar draws yr holl gyrff byddwn yn ymgymryd ag ymchwiliadau dyfnach i ddatblygiadau digidol. Er bod trefniadau cynllunio ar gyfer prosiectau pwrpasol lleol yn parhau, mae meysydd i ganolbwyntio arnynt sy'n dod i'r amlwg mewn cyrff unigol yn cynnwys dilyn argymhellion archwilio blaenorol mewn meysydd megis gofal sylfaenol, llywodraethu ansawdd, codio clinigol a gwasanaethau cleifion allanol, defnyddio cyllid cymorth strategol mewn sefydliadau uwchgyfeirio, a chadernid trefniadau llywodraethu gweithredol.
- Ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub: bydd ein rhaglen archwilio leol yn cynnwys ystyried dulliau o dargedu gwaith atal tân.
- Ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol: bydd ein rhaglen archwilio leol yn cynnwys ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymweld.

8 Rydym hefyd wedi rhestru isod bynciau dangosol yr ydym wedi'u nodi ar gyfer gwaith cenedlaethol posibl i ddechrau yn ystod 2024-25 a 2025-26, y disgwylir i rai ohonynt wedyn lifo i mewn i 2026-27. Byddwn yn ailymweld â'r cynlluniau dangosol hyn fel rhan o'n cylch cynllunio blynyddol ac yn ystyried unrhyw feysydd o ddiddordeb / pryder sy'n dod i'r amlwg ac yn asesu risg yn barhaus.



# Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 2023-2026

Gwaith sy'n mynd rhagddo ar 1 Ebrill 2023

|  |   |
|--|---|
**Atodiad 1:** Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23

**Swyddog Arweiniol  
Corfforaethol:**

Elin Prysor  
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro)

**Swyddog Adrodd:**

Harry Dimmack

**Dyddiad yr Adroddiad:**

07/06/2023

Atodiad 1

# Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## Adroddiad Blynyddol 2022/23

## **ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO YNGHYLCH GWEITHGARWCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y FLWYDDYN 2022/23**

### **1. Rhagair gan Alan Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer blwyddyn 2022-23 y Cyngor, a'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chynnydd y Pwyllgor ar waith cyfredol ac amcanion wrth symud ymlaen.

Bu'r pwyllgor yn destun amryw o newidiadau ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd Etholiadau Lleol 2022 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Penododd y Cyngor aelodau newydd i'r Pwyllgor yn ei Gyfarfod Blynyddol ar 27 Mai 2022, gan gynnwys 6 Chynghorydd a thri Aelod Lleyg newydd, gan fod â strwythur gwleidyddol gytbwys.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i gyflwyno aelodau newydd y Pwyllgor a diolch iddynt am eu cyfraniadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r ystod eang o brofiad sydd ganddynt wedi ein galluogi i gael sicrwydd annibynnol ystyrion am ddigonolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu, risg a sicrwydd. Mae'r pwyllgor wedi goruchwyllo ystod eang o faterion, ac yn benodol mae wedi gwneud y canlynol:

- Adolygu a chymeradwyo Datganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor a chanfyddiadau'r archwiliad allanol arnynt;
- Goruchwyllo adolygiad blynyddol trefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys yr Adolygiad ar y Fframwaith Llywodraethu, y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- Derbynn diweddariadau rheolaidd gan reoleiddwyr ac arolygiaethau allanol, ac ystyried ymatebion y Cyngor i'w canfyddiadau;
- Goruchwyllo gwaith Archwilio Mewnol y Cyngor, gan gynnwys cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol, Strategaeth a Chynllun, Siarter a diweddariadau rheolaidd ar gynnydd;
- Derbynn diweddariadau cyson am y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac argymell ystyried ychwanegu Recriwtio a Chadw yn risg;
- Derbynn yr Adroddiad Hanner Blwyddyn a'r Adroddiad Blynyddol ynghylch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth; a
- Derbynn adroddiadau ar Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod â rhaglen waith amrywiol, gan gynnwys eitemau sefydlog ar gyfer adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol Allanol ac ymatebion y Cyngor iddynt, Archwilio Mewnol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae hyn yn sicrhau goruchwyliaeth gyson ar draws meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor wedi gweithio'n gynhyrchiol gyda Swyddogion i sicrhau gwelliant parhaus ar faterion sy'n codi a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

**Alan Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**



2. AELODAU'R PWYLLGOR



Alan Davies, Cadeirydd ac  
Aelod Lleyg



Andrew Blackmore, Is-  
Gadeirydd ac Aelod Lleyg



Caroline Whitby, Aelod Lleyg



Cyngorydd Elizabeth Evans



Cyngorydd Wyn Evans



Cyngorydd Keith Henson



Cyngorydd Maldwyn Lewis



Cyngorydd Gareth Lloyd



Cyngorydd Mark Strong

### 3. CYFARFODYDD

Trefnodd y Pwyllgor bump o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn, i gyd-fynd â Blaenraglen Waith fanwl sy'n cynnwys yr holl feysydd gwaith sy'n ofynnol dan ei gylch gorchwyl, ac fe'u cynhaliwyd yn ystod mis Mehefin a mis Medi (2022) ac ym mis Ionawr (2 gyfarfod) a mis Mawrth (2023). Roedd agendâu'r cyfarfodydd yn llawn eitemau i'w hystyried, eu trafod a'u hadolygu, a bu un o'r Cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023 yn ystyried y Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

Mae'n dda nodi bod gwaith y Pwyllgor wastad yn cael ei gefnogi'n dda gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO') dros Gyllid a Chaffael, CLO Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro ('MO'), CLO-Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol ('CMIA') a'r Swyddog Llywodraethu, yn ogystal ag Archwilio Cymru.

#### Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

| Aelod                           | Presenoldeb mewn cyfarfodydd (P = Presennol / Y = Ymddiheuriadau) |            |            |            |            |
|---------------------------------|---|------------|------------|------------|------------|
|                                 | 06/06/2022  | 27/09/2022 | 17/01/2023 | 19/01/2023 | 09/03/2023 |
| Alan Davies<br>(Cadeirydd)      | P   | P          | P          | P          | P          |
| Andrew Blackmore (Is-gadeirydd) |   |            | P          | P          | P          |
| Cyng. Endaf Edwards             | P   | Y          | Y          | P          | Y          |
| Cyng. Elizabeth Evans           | P   | P          | P          | P          | P          |
| Cyng. Wyn Evans                 | P   | P          | P          | P          | P          |
| Cyng. Gareth Lloyd              | P   | P          | P          | P          | P          |
| Cyng. Maldwyn Lewis             |   | Y          | Y          | P          | P          |
| Cyng. Mark Strong               | Y   | Y          | Y          | P          | P          |
| Caroline Whitby                 | P   | P          | P          | P          | P          |

### 3. RÔL A GYFLAWNIR GAN Y PWYLLGOR

Mae rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i nodi'n glir yn y Cylch Gorchwyl sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ac yno manylir ar y swyddogaethau amrywiol y mae'r Pwyllgor yn eu cyflawni. Mae hon yn ddogfen gyfeirio allweddol i'r Pwyllgor wrth sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn gosod y Pwyllgor yn rhan sylfaenol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gan nodi:

*Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'n rhoi ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol.*

Mae'r Cylch Gorchwyl yn mynd ymlaen i ddatgan pwrpas y Pwyllgor yn glir, gan nodi:

*Pwrpas y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor llawn a'r rheolwyr am ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth fewnol. Mae'n darparu adolygiad annibynnol o fframweithiau rheoli, llywodraethu a rheoli risg y Cyngor ac yn goruchwilio'r prosesau adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwilio archwilio mewnol ac archwilio allanol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol ar waith.*

Wrth gyflawni ei waith, mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ganllawiau gwahanol gyrrff a sefydliadau allanol gan gynnwys CIPFA.

Yn ôl Datganiad Sefyllfa CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu, diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

*Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae rôl y pwyllgor yn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch risg a rheolaeth lywodraethu ac felly yn rhoi mwy o hyder i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y trefniadau hynny'n effeithiol.*

Isod, nodir crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni hyn. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn hybrid, gydag Aelodau a Swyddogion yn mynychu naill drwy blatfform rhith neu mewn person.

### **5. Crynodeb o'r gwaith ar gyfer 2022-23**

#### **Gweithgarwch Archwilio Mewnol**

- Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ('IA') 2021/22 gan gynnwys barn sicrwydd flynyddol y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ('CMIA') ynghylch fframwaith llywodraethu, rheoli risg a threfniadau rheoli mewnol y Cyngor, a oedd wedi cyfrannu at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Cefnogwyd yr Adroddiad Blynyddol uchod gan adroddiadau chwarterol gan CMIA er mwyn cofnodi cynnydd Archwilio Mewnol trwy gydol y flwyddyn.
- Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiadau Cynnydd canlynol ar gyfer Archwilio Mewnol yn ystod 2021-22:
  - Chwarter 4 2021-22 (cyfarfod 6 Mehefin 2022);
  - Chwarter 1 2022-23 (cyfarfod 27 Medi 2022);
  - Chwarter 2 2022-23 (cyfarfod 17 Ionawr 2023); a
  - Chwarter 3 2022-23 (cyfarfod 9 Mawrth 2023).

- Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Gwrth-dwyll Archwilio Mewnol Blynyddol 2021/22, a oedd yn cynnig crynodeb o waith gwrth-dwyll Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
- Cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllun Gwaith Archwilio Mewnol CMIA ar gyfer 2023/24.
- Cymeradwywyd diweddariad o Siarter Archwilio Mewnol (2023-24) gan y Pwyllgor. Mae'r Siarter wedi'i hailstrwythuro a'i diweddarau yn unol ag argymhellion Asesiad Ansawdd Allanol y gwasanaeth Archwilio Mewnol i gynnwys:
  - cyflwyniad i egluro pwrpas Siarter Archwilio;
  - prif amcanion Archwilio Mewnol a sut y cânt eu cyflawni;
  - cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol;
  - cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol; a
  - strwythur adnoddau a staffio presennol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- Ar 6 Mehefin 2022, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol am yr Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu 2021/2022 (y Fframwaith sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) ar gyfer 2021/22) yn dilyn cyflwyno Adroddiad am y Fframwaith Llywodraethu, AGS a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 (bu Aelodau'r Pwyllgor yn ymwneud â'i adolygiad hefyd). Roedd yr adolygiad Archwilio Mewnol yn cynnwys asesiad o'r gweithdrefnau sydd mewn grym er mwyn llunio'r Fframwaith Llywodraethu, y fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd, ac ystyriaeth o'r 'dystiolaeth' a nodwyd yn y fframwaith, a oedd yn cyd-fynd â gwaith Archwilio Cymru ynghylch yr AGS ac a oedd yn cynnig sicrwydd o'r ffaith bod y weithdrefn yn gadarn, yn cynnwys ffocws ac yn effeithiol.
- Ar 9 Mawrth 2022, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adolygiad Fframwaith Llywodraethu Archwilio Mewnol 2021/22 hefyd, gan nodi'r adolygiad o'r Fframwaith.
- Ar 27 Medi 2022 ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Asesu Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol. Cynhaliodd tîm adolygu o Gyngor Sir Ynys Môn, a oedd yn cynnwys y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Prif Archwilydd, werthusiad o hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2022. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad hwn.
- Nododd y Pwyllgor hefyd adroddiad ar Ymateb CMIA i'r Asesiad Ansawdd Allanol.

### **Diweddariadau ac Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol**

Yn ystod blwyddyn 2022-23, ystyriodd y Pwyllgor y Diweddariadau ac Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol canlynol:

#### Diweddariadau Chwarterol Archwilio Cymru (AC) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Archwilio Cymru: Rhaglen Waith ac Amserlen – Cyngor Sir Ceredigion (Chwarter 4 – 31 Mawrth 2022)
- Archwilio Cymru: Cynllun Archwilio 2022– Cyngor Sir Ceredigion (Mai 2022)
- Archwilio Cymru: Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2020-21 – Cyngor Sir Ceredigion (Mawrth 2022)
- Archwilio Cymru: Rhaglen Waith ac Amserlen – Cyngor Ceredigion (Chwarter 1 – 30 Mehefin 2022)

## Tudalen 181

- Archwilio Cymru: Rhaglen Waith ac Amserlen – Cyngor Ceredigion (Chwarter 2 – 30 Medi 2022)
- Archwilio Cymru: Rhaglen Waith ac Amserlen – Cyngor Ceredigion (Chwarter 3 – 31 Rhagfyr 2022)
- Archwilio Cymru: Crynodeb Archwilio Blynyddol Ceredigion 2022 (Mawrth 2023)

### Adroddiadau Archwilio Allanol (Archwilio Cymru) Lleol

- Sicrwydd ac Asesu Risg – yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd (Mai 2022)
- Archwilio Cymru: Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau'n Strategol – Cyngor Sir Ceredigion (Mai 2022)
- Archwilio Cymru: Llamu Ymlaen – Rheoli'r Gweithlu'n Strategol – Cyngor Sir Ceredigion (Mai 2022)
- Archwilio Cymru: Briff Prosiect – Adolygiad dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ceredigion (Medi 2022)
- Archwilio Cymru: Sicrwydd ac Asesu Risg 2021-22 – yr wybodaeth ddiweddaraf am y Sefyllfa Ariannol (Rhagfyr 2022)
- Archwilio Cymru: Diweddariad ar Gynnydd Asesu Risg a Sicrwydd – Lleihau Carbon (Tachwedd 2022)
- Archwilio Cymru: Briff prosiect – Pennu Amcanion Llesiant yng Nghyngor Sir Ceredigion (Chwefror 2023)
- Archwilio Cymru: Cwestiynau allweddol a'r hyn roedden ni'n chwilio amdano – pennu amcanion llesiant (Chwefror 2023)

### Briffiau Prosiect/Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

- Archwilio Cymru: Adroddiad Cydraddoldeb 2020-2021 (31 Mawrth 2022)
- Archwilio Cymru: Cynllun Blynyddol 2022-23 (1 Ebrill 2022)
- Archwilio Cymru: Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion (6 Ebrill 2022)
- Archwilio Cymru: Y cwricwlwm newydd i Gymru (Mai 2022)
- Archwilio Cymru: Llythyr WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) at AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (1 Gorffennaf 2022)
- Archwilio Cymru: Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 (Gorffennaf 2022)
- Archwilio Cymru: Briff prosiect Gofal heb ei Drefnu (Gorffennaf 2022)
- Archwilio Cymru: Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd 2023-24 (Awst 2022)
- Archwilio Cymru: AC324 – Llythyr i Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth a Gorllewin Cymru (1 Medi 2022)
- Archwilio Cymru: Briff prosiect – Sylwebaeth ar Gydbwyllgorau Corfforedig (Awst 2022)
- Archwilio Cymru: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? (Medi 2022)
- Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21 (Hydref 2022)
- Archwilio Cymru: Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru (Tachwedd 2022)
- Archwilio Cymru: Cyfle wedi'i gollu – Mentrau Cymdeithasol (Rhagfyr 2022)
- Archwilio Cymru: Darlun o Reoli Perygl Llifogydd (Rhagfyr 2022)

## **Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn**

### Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr (MRF) a ystyriwyd (2020-21 & 2021-22):

- Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion (Ebrill 2022)
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru – Nodyn Cynnydd (Tachwedd 2020)
- Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio (Tachwedd 2021) – Diweddariad wedi'i gyflwyno drwy Ddiweddariad Cynllun Gweithredu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio 24.08.2022
- 'Diweddariad 'Gwella ein Perfformiad' – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru (Gorffennaf 2020)

### Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr a ystyriwyd (2022-23):

- Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli Asedau'n Strategol (Mehfin 2022)
- Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli'r Gweithlu'n Strategol (Mehfin 2022)
- Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21 (Hydref 2022)
- Diweddariad ar Gynnydd Asesu Risg a Sicrwydd – Lleihau Carbon (Tachwedd 2022)
- Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? (Medi 2022)

### Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC')

Arolygiaeth Gofal Cymru – Adroddiad Arolygu ar Ofal a Galluogi wedi'u Targeddu (23 Tachwedd 2022):

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Ionawr 2023, adroddwyd bod Adroddiad Arolygu AGC ar Ofal a Galluogi wedi'u Targeddu yn foddhaol, ac ni chodwyd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio.

### Estyn

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Arolygiadau Estyn ar gyfer Tymor Haf 2022 yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022. Adroddwyd bod ymweliadau peilot wedi eu cynnal yn Nhymor y Gwanwyn 2022 a bod y drefn arolygu wedi parhau yn ei ffurf arferol o dymor yr Haf 2022. Cynhaliwyd arolygiadau diweddar ar gyfer Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Llangwryfon ac Ysgol Penglais heb fod angen ail ymweliad ar unrhyw ysgol. Roedd yr argymhellion a godwyd gan Estyn wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau Datblygu Ysgol yr ysgolion priodol. Nododd y pwyllgor fod yr adroddiadau yn gadarnhaol iawn a bod y wasg wedi rhoi pwyslais ar un argymhelliad yn adroddiad Ysgol Penglais, ac nid yr adroddiad yn ei gyfanrwydd a hwnnw'n gadarnhaol.

### Swyddfa Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO)

Gwyliadwriaeth yr IPCO ac Arolwg CHIS – Cyngor Sir Ceredigion 16 Medi 2022:

Derbyniwyd adroddiad Arolygiad IPCO yn dilyn archwiliad arferol diweddar i ddefnydd y Cyngor o Wylidwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS). Ymatebwyd i'r adroddiad ac nid oedd angen unrhyw gamau pellach.

### **Ystyriaethau am y Fframwaith Rheoliadol**

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn eitem reolaidd ar yr agenda, ac fe'i hystyrir yn ystod pob Cyfarfod.

Hysbyswyd y Pwyllgor am y canlynol:

- R005 Cynllun Ariannol Tymor Canolig – roedd y sgôr risg wedi cynyddu i adlewyrchu effaith pwysau cynyddol chwyddiant. Roedd olew a phrisiau nwyddau eraill yn cynyddu uwchlaw'r rhai yn y gyllideb. Roedd risg hefyd y byddai dyfarniadau cyflog yn uwch na'r hyn a gostiwyd a mynegeion chwyddiant sy'n effeithio ar gontractau yn effeithio ar gyllideb y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol.
- R016 Brexit – tynnwyd hwn oddi ar y gofrestr gan ei bod yn amhosibl pennu effaith Brexit yn unig yn erbyn ffactorau byd-eang eraill sy'n cyfrannu at y sefyllfa economaidd.
- R018 Covid-19 – gostyngwyd y sgôr risg. Gwelwyd bod yr amrywiad Omicron presennol yn fwy trosglwyddadwy ond yn llai difrifol i iechyd na rhai o'i ragflaenwyr gan fod y rhaglen frechu wedi bod yn arbennig o effeithiol. Roedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi llacio'r rheoliadau ac roedd bron pob cyfyngiad wedi'i godi, gan arwain at ailgyflwyno gwasanaethau'r Cyngor, yn amodol ar asesiadau risg.
- R022 Recriwtio a Chadw – yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Medi 2022, gofynnodd yr aelodau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol–Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gyfleu barn yr Aelodau i'r Grŵp Arweinyddiaeth y dylid ystyried Recriwtio a Chadw i'w gynnwys ar y gofrestr risg gan fod sawl gwasanaeth yn methu â recriwtio. Dywedodd yr Arweinydd y byddai yntau hefyd yn cyfleu'r safbwyntiau hyn i'r Grŵp Arweinyddiaeth. Cytunodd Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Chwefror 2023 i gynnwys Recriwtio a Chadw ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac adroddwyd ar hyn i'r Pwyllgor ar 9 Mawrth 2023.

Roedd adborth gan y Pwyllgor ar gyfer Swyddogion yn cynnwys yr angen i roi sylw eto i'r risg uchel sy'n gysylltiedig ag archwiliadau diogelwch bwyd. Cododd y pwyllgor ei bryderon bod ôl-groniad o waith i'w gwblhau a bod prinder arolygwyr i leihau'r gwaith hwn.

### **Datganiad Llywodraethu Blynyddol ('AGS')**

- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021-22 a'r Ddogfen Fframwaith Llywodraethu, a Diweddariad ar gynnydd yr AGS ar 6 Mehefin 2022, a chytunodd nodi'r Adroddiad Cynnydd am gamau gweithredu a nodwyd yn AGS ac y byddai AGS yn cael ei adrodd bob chwarter i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

- Ar 27 Medi 2022, nododd y Pwyllgor Adroddiad am gynnydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23. Nodwyd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021-22 a gymeradwywyd wrthi'n cael ei ystyried gan Archwilio Cymru cyn ei gyflwyno eto gyda'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Nodwyd hefyd fod gweithdy wedi'i gynnal ar 28 Tachwedd 2022 ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion perthnasol i ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu a ddisgrifiwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22.
- Adolygwyd y Ddogfen Fframwaith Llywodraethu yn ystod y Gweithdy a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2022, a defnyddiwyd y canlyniadau er mwyn drafftio Datganiad Llywodraethu (AGS) 2022-23.
- Ar 17 Ionawr 2023, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Ddogfen y Fframwaith Llywodraethu 2022-23, Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24 a diweddariad am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23. Yn ystod y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor hefyd i gymeradwyo cynnydd yn y sgôr ar gyfer ymddygiad B3.1 oherwydd gweithredu'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod y Cyngor yn cymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24.
- Cymeradwywyd AGS Drafft 2022-23 a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2023-24 gan y Cyngor ar 20 Mawrth 2023.
- Ystyrir bod Cynllun Gweithredu AGS yn eitem sefydlog ar yr agenda.

### **Adrodd Ariannol**

- Adolygodd y Pwyllgor Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor (tan 31 Mawrth 2022) a'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer Awdurdod Harbwr Ceredigion (tan 31 Mawrth 2022), cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.
- Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Archwiliad Cyfrifon blynyddol gan Archwilio Cymru (ISA260) ar gyfer 2021-22, gan ystyried materion yn codi o'r Archwiliad. Cytunodd y Pwyllgor nodi cynnwys yr Adroddiad, estyn llongyfarchiadau i'r Gwasanaeth am yr Adroddiad rhagorol a nodi y trefnir cyfarfod ychwanegol fis yn ddiweddarach i gael diweddariad ar y materion a godwyd mewn perthynas â'r Gwasanaeth Ystadau (Prisio Asedau).
- Ar 16 Chwefror 2023 cynhaliwyd gweithdy i dderbyn diweddariad ar Brisio Asedau mewn ymateb i'r materion a godwyd yn adroddiad ISA260 Archwilio Cymru. Yn dilyn y gweithdy hwn, cafwyd diweddariad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor a Swyddogion o'r Gwasanaeth Ystadau ar y cynnydd a wnaed tuag at gwblhau'r camau gweithredu a nodwyd. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r sylwadau a wnaed gan Archwilio Cymru. Bydd y Cadeirydd yn parhau i roi diweddariadau hyd nes y bydd y Pwyllgor yn fodlon bod y materion wedi eu datrys.
- Roedd y Datganiad Cyfrifon i fod i gael ei ystyried yn y lle cyntaf gan y Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2022, cyn ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Tachwedd 2022. O ganlyniad i broblem ledled y Deyrnas Unedig mewn perthynas â thrin cyfrifon a'r gofynion datgelu cysylltiedig ynghylch Asedau Seilwaith, gohiriwyd y cyfarfodydd hyn tan 19 Ionawr 2023 a 26 Ionawr 2023 yn y drefn honno. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig o 30 Tachwedd 2022 i 31 Ionawr 2023.



## **Gwaith Arall**

### Proses Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion

Rhoddodd y Pwyllgor gyflwyniad ar broses Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2022. Roedd hyn mewn ymateb i'r drefn newydd hunanasesu perfformiad a gyflwynwyd gan Ran 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd y cyflwyniad cychwynol hwn yn amlinellu'r materion a ganlyn:

- Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Prif bwyntiau yn y Broses Hunanasesu
- Prif lwybrau ymholi
- Amserlen
- Cylch Etholiadau 2022-27
- Integreiddio gyda Hunanasesiad ar Berfformiad
- Beth mae'n ei olygu i Lywodraethu ac Archwilio?

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Hunanasesu Drafft 2021/22 Cyngor Sir Ceredigion. Nododd yr adroddiad fod Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu Adroddiad Hunanasesu drafft ac i wneud argymhellion. Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo Adroddiad Hunanasesu Drafft 2021/22 Cyngor Sir Ceredigion fel y'i cyflwynwyd.

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Hunanasesu Terfynol Cyngor Sir Ceredigion ar 17 Ionawr 2023, gan gynnwys yr Adolygiad Blyneddol ar Berfformiad ac Amcanion Llesiant. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac i barhau i graffu arno er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol.

### Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-27 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr. Pwrpas yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor dderbyn y Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol. Dywedwyd y byddai'r Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei chyflawni dros y pum mlynedd nesaf ac y bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol yn Adroddiad Hunanasesu'r Cyngor.

### Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

- Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Blyneddol ynghylch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (2021-2022) yn ei gyfarfod 27 Medi 2022. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o Gwynion a gwasanaeth Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth benodol am y nifer a'r math o ganmoliaethau a dderbyniwyd, y camau cwynion gwahanol, perfformiad a chanlyniadau yn ymwneud â'r rhain a gwybodaeth am gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR). Darparwyd gwybodaeth hefyd am gyswllt a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod hwn, gyda Llythyr Blyneddol yr Ombwdsmon ynghlwm er gwybodaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor bod nifer y cwynion a symudwyd ymlaen o gam 1 i gam 2 yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol, ac a oedd cwynion yn cyfeirio at ddiffyg cyfathrebu. Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a nodi Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon.

- Cafodd yr Adroddiad Hanner Blwyddyn ynghylch Canmoliaeth a Chwynion ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr. Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a gofynnodd am ragor o fanylion am y cwynion a dderbyniwyd a'u heffaith ar drigolion. Mewn ymateb, adroddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi a Pherfformiad, y gellid coladu'r wybodaeth hon ond roedd yn bryderus nad oedd adnoddau digonol yn y gwasanaeth ar hyn o bryd i gasglu'r wybodaeth hon. Mae'r pwyllgor yn parhau i fod yn awyddus i dderbyn y manylion y gofynnwyd amdanynt maes o law.

### **Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio Cymru Gyfan**

Ar 3 Hydref 2022, mynychodd y Cadeirydd gyfarfod Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan, a'i nodau yw annog:

- Rhannu arfer da;
- Nodi ffyrdd arloesol o gyflawni cyfrifoldebau ffurfiol rôl y Cadeirydd mewn ffordd effeithiol;
- Y cyfle i gwmpasu materion cenedlaethol a rhanbarthol presennol ac yn y dyfodol, ynghyd ag ymatebion posibl i'r sialensiau hyn;
- Fforwm er mwyn rhoi a cheisio cyngor rhwng cydweithwyr sy'n wynebu sialensiau tebyg; a
- Chyfle mentora neu ddatblygu ar gyfer Cadeiryddion newydd.

Cynigiodd CIPFA gymorth wrth ddarparu hyfforddiant, a oedd yn canolbwyntio ar:

1. Datganiad Sefyllfa a chanllawiau CIPFA
2. Asesu Effeithiolrwydd Pwyllgorau
3. Gofynion newydd ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## **6. BLAENRAGLEN WAITH**

Paratowyd Blaenraglen Waith, sy'n cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda:

1. Adroddiadau a Diweddariadau Rheoliadol ac Arolygiaeth;
2. Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau Rheoliadol ac Arolygiaeth;
3. Adroddiadau Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol;
4. Adroddiadau Cynnydd AGS;
5. Cofrestr Risg Gorfforaethol;
6. Blaenraglen Waith; a
7. Chofnod Camau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor.

## **7. CANLYNIADAU AC/NEU EFFEITHIAU gwaith y Pwyllgor**

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS)

\* gweler uchod hefyd amserlen ymwneud y Pwyllgor â'r AGS.

Adolygodd y Pwyllgor AGS 2021/22 cyn ei gynnwys gyda'r Datganiad o Gyfrifon ym mis Ionawr 2023, gan gynnwys mân ddiwygiadau ac er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod camau gweithredu y disgwylwyd iddynt fod wedi cael eu cymryd yn flaenorol, bellach wedi cael eu cymryd.

Ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021-22 ar 8 Gorffennaf 2022, gwnaed nifer o ddiwygiadau mewn ymateb i argymhellion gan Archwilio Cymru cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023. Roedd y rhain yn bennaf yn ddiweddariadau i'r dyddiadau amrywiol a roddwyd ar gyfer gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn gan fod cynnydd pellach wedi'i wneud ers llunio'r Drafft ym mis Gorffennaf 2022. Yn ogystal â'r dyddiadau hyn, roedd casgliadau'r adolygiad hunanasesu ar God Rheolaeth Ariannol CIPFA wedi'u cynnwys fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru yn unol â Chanllawiau CIPFA.

Roedd y Pwyllgor wedi adolygu a diweddaru'r AGS ar 19 Ionawr 2023, a chytunodd argymhell i'r Cyngor ei fod yn cymeradwyo AGS diwygiedig 2021-22. Cymeradwywyd AGS 2021-22 gan y Cyngor ar 26 Ionawr 2023 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

Roedd adolygu'r Adolygiad ar Fframwaith Llywodraethu 2022/23 wedi amlygu'r angen am y canlynol:

- Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori'r Aelodau ymhellach ar y Cod Ymddygiad.
- Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Prif Swyddogion ymhellach ar yr angen i ddatgan cysylltiadau personol agos ag Aelodau neu Swyddogion eraill.
- Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion i gynnwys adolygiad o Aelodau sydd â swyddi cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu aelodaeth
- Y Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol.
- Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion wedi'i adolygu ac i'w gyhoeddi ar ôl ei gymeradwyo.
- Swyddogion i gwblhau modiwl gorfodol e-hyfforddiant Moeseg/Twyll ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo.
- Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w ddarparu a chynnydd i gael ei adolygu yn ystod 2022-2023.
- Mae trafodaethau ar y gweill gydag Archwilio Cymru i gefnogi eu Hadolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio. Ymatebir i unrhyw argymhellion.
- Y Grŵp Arweinyddiaeth i gael diweddariad ar e-ddysgu, ac AD i adrodd i'r Grŵp Arweinyddiaeth.
- Cofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig i'w chyhoeddi.
- Parhau i fonitro'r nifer sy'n gwneud y modiwl Chwythu'r Chwiban sy'n rhan o e-ddysgu gorfodol.
- Polisi Chwythu'r Chwiban wedi'i adolygu a'i ddiweddaru – i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet i'w gymeradwyo.
- Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w darparu gan y Swyddog Diogelu Data.
- Rheolwr Corfforaethol–Archwilio Mewnol i gwblhau cymhwyster proffesiynol.

- Adolygiad o Gynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth ar y gweill.
- Cyhoeddwyd Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi newydd, 'Siarad, Gwranddo a Gweithio Gyda'n Gilydd'. Ystyried rhoi'r polisi hwn ar waith cyn bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau.
- Parhau i ystyried newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau i bartneriaid wrth weithio ar y cyd, gan gynnwys risgiau a rennir.
- Parhau i fonitro cynnydd y camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion archwilio allanol.

Y dyddiad cwblhau disgwylidig ar gyfer y camau gweithredu a restrir uchod yw Mawrth 2024 fan bellaf.

### **8. HUNANASESIAD A SICRWYDD**

Cynhaliwyd gweithdy ar 28 Tachwedd 2022 i ystyried y templedi 'Hunanasesu arfer da' a 'Gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y pwyllgor archwilio' sydd wedi'u cynnwys yn Natganiad Sefyllfa 2022 CIPFA. Trefnir gweithdy ychwanegol yn fuan i baratoi fersiynau terfynol o'r dogfennau hyn, i'w cyflwyno i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir adfyfrio ar y flwyddyn gyfan yn ystod y gweithdy.

Mae Datganiad Sefyllfa 2022 CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu yn nodi canllawiau am swyddogaeth a gweithrediad Pwyllgorau Archwilio mewn awdurdodau lleol. Mae'n cydnabod y dylai effeithiolrwydd Pwyllgor Archwilio gael ei farnu gan y cyfraniad y mae'n ei wneud i fusnes yr awdurdod a'i effaith fuddiol arno.

**Credaf y cyflawnwyd hyn, gan fod y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar lywodraethu, risg a sicrwydd yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi ychwanegu gwerth trwy sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i gynorthwyo gwelliannau ar draws y Cyngor.**

**Alan Davies**

**Cadeirydd – Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - 2022/2023**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

|                             |   |
|-----------------------------|---|
| <b>Adroddiad i'r:</b>       | <b>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</b>   |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>  | <b>21 June 2023</b>   |
| <b>Teitl:</b>               | <b>Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/1/23 – 31/3/23</b>  |
| <b>Pwrpas yr adroddiad:</b> | <b>Darparu diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan yr adain archwilio mewnol yn ystod y cyfnod dan sylw</b> |

Bu i'r Pwyllgor ystyried y Strategaeth Archwilio Mewnol blynyddol 2022/23 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022 lle pennwyd y prif feysydd gwaith i'r cynllun archwilio 2022/23. Ddaru'r Cynllun cynnwys adolygiadau a gafodd eu dwyn ymlaen o gynllun archwilio'r flwyddyn flaenorol, archwiliadau rheolaidd ee ardystio grantiau a gwaith cafodd ei flaenoriaethu ar sail risg, a ddefnyddir gan yr Adain Archwilio Mewnol er mwyn ffurfio barn sicrwydd.

O ran 2022/23, cynhaliwyd y asesiad risg yn ogystal â ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol o Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor gan fod y Cyngor yn wynebu risgiau newydd sy'n newid o hyd. Bydd AM felly yn asesu ei waith yn barhaus, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau newidiol y Cyngor yn rheolaidd.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yma o ran cyflawni'r cynllun archwilio drwy ddarparu crynodeb o'r gwaith a wnaed. Mae hefyd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran adnoddau yn ogystal â chynllun gwella'r Adain.

|                      |  |
|----------------------|--|
| <b>Argymhelliad:</b> | <b>Ystyried y gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.</b> |
|----------------------|--|

|                                    |   |
|------------------------------------|---|
| <b>Rheswm dros y penderfyniad:</b> | <b>Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.</b> |
|------------------------------------|---|

|                   |  |
|-------------------|--|
| <b>Atodiadau:</b> | <b>Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/1/23-31/3/23</b> |
|-------------------|--|

|   |  |
|---|--|
| <b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b> | <b>Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro</b> |
|---|--|

|                        |  |
|------------------------|--|
| <b>Swyddog Adrodd:</b> | <b>Alex Jenkins<br/>Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol</b> |
|------------------------|--|

|                 |                       |
|-----------------|-----------------------|
| <b>Dyddiad:</b> | <b>27 Ebrill 2023</b> |
|-----------------|-----------------------|

# Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

## Legal and Governance Services

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Internal Audit Service



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

## Internal Audit Progress Report

1 Ionawr – 31 Mawrth 2023

Paratowyd gan: Alex Jenkins,  
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Ebrill 2023

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac  
Archwilio: 21 Mehefin 2023

# ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL


## 01/1/2023 – 31/3/2023

### 1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynwyd y Strategaeth Archwilio a'r Rhaglen Flynyddol am 2022/23 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor (PLIA) ar 10 Mawrth 2022.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r PLIA am y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol (AM) yn ystod trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2022/23 a thynnu sylw at unrhyw faes pryder a allai fod wedi dod i'r amlwg yn yr archwiliadau a gwblhawyd.
- 1.3 Ar 31/12/2022 roedd cyfanswm o 97 eitem yn y Cynllun Archwilio Dros Dro gweithredol. Roedd y rhain yn grynhoed o 69 darn o waith a gynlluniwyd yn cynnwys archwiliadau o'r Strategaeth Flynyddol & Cynllun. Cafodd y 28 eitem a oedd yn weddill eu hychwanegu yn ystod y tri chwarter cyntaf, h.y. gwaith ymatebol. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn Adran 3.

### 2 Y GWAITH ARCHWILIO A WNAED

- 2.1 Y Cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Archwilio:



- 2.2 Cwblhawyd deg darn o waith yn ystod y chwarter (gweler y tabl isod) a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth benderfynu ynghylch barn flynyddol yr Adain Archwilio Mewnol:

| Maes Archwilio  | Math o Archwiliad      | Sicrwydd               |
|---|------------------------|------------------------|
| <p><b>Trethi Annomestig – Rheolaeth Allweddol</b></p> <p>Sgôp: Adolygiad yn ystyried trefniadau ar gyfer prosesu taliadau Trethi Annomestig a diwygiadau gan gynnwys gwahanu dyletswyddau; cysoniadau a monitro.</p>  | Rheolaeth Allweddol    | Sylweddol              |
| <p><b>Credydwy - Rheolaeth Allweddol</b></p> <p>Sgôp: Adolygiad yn ystyried trefniadau ar gyfer awdurdodi a thalu costau'r Cyngor a'r rheolaethau dros y broses dalu. NID yw'r sgôp yn cynnwys ystyriaeth o natur y gwariant na ph'un a gyflawnwyd gwerth am arian.</p>   | Rheolaeth Allweddol    | Sylweddol              |
| <p><b>Mân Ddyledwyr – Rheolaeth Allweddol</b></p> <p>Sgôp: Adolygiad yn ystyried trefniadau ar gyfer codi anfonebau ac adennill dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor; monitro casglu ac adennill ôl-ddyledion a chysoni.</p>   | Rheolaeth Allweddol    | Sylweddol              |
| <p><b>Adolygu'r Fframwaith Datganiad Llywodraethu Blynyddol - 2022/23</b></p> <p>Sgôp: Adolygiad llywodraethu sy'n ystyried effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu, yn enwedig yn y meysydd sy'n cael sylw penodol yng nghynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.</p>  | Llywodraethu           | Uchel                  |
| <p><b>GDPR mewn Ysgolion</b></p> <p>Sgôp: Mae'r adolygiad yn cynnwys gwirio cofrestrriad yn rheolaidd, i sicrhau bod gan bob ysgol CSC gofrestrriad dilys a chyfredol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. NID yw'r adolygiad yn cynnwys adolygiad o'r data a ddarparwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.</p>                                  | GDPR                   | Sylweddol              |
| <p><b>Cyngor Chwaraeon Ceredigion</b></p> <p>Sgôp: Yn hanesyddol, mae AM yn paratoi ac yn archwilio cyfrifon blynyddol y corff erbyn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Yn dilyn saib oherwydd y pandemig, archwiliwyd y cyfrifon o'r archwiliad blaenorol hyd at y pwynt pan gaewyd y cyfrif blaenorol er mwyn paratoi ar gyfer cyfrif newydd.</p> | Anrhydeddus / Cyfrifon | Anrhydeddus / Cyfrifon |
| <p><b>Gweithdrefnau Diogelu Corfforaethol</b></p> <p>Adolygu'r modd y mae diogelu yn cael ei lywodraethu gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau. Ni chynhaliwyd rhai profion oherwydd y pandemig.</p>  | Diogelu                | Canolig                |
| <p><b>Paru Data - Moeseg</b></p> <p>Sgôp: Adolygiad yn rhoi sicrwydd yn erbyn niwed i enw da a cholledion ariannol oherwydd gweithgarwch twyllodrus. Gwirio bod aelodau staff yn Datgan a Chofrestru Buddiannau yn gywir.</p>   | Moeseg                 | Cynghorol              |



| Maes Archwilio   | Math o Archwiliad        | Sicrwydd     |
|--|--------------------------|--------------|
| <b>Cynllun Gofal Plant – Grant Cyfalaf</b><br>Sgôp: Cais gwasanaeth i adolygu ffurflenni grant i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyflawn.  | Ymchwiliad Arbennig      | Grant        |
| <b>Ffurflen Ymateb Rheolwyr – Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 20/21</b><br>Sgôp: Cwblhau, monitro a diweddarau Ffurflen Ymateb Rheolwyr Archwilio Cymru ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol | Ffurflen Ymateb Rheolwyr | Amherthnasol |


2.3 Rhestrir isod enghreifftiau o arfer da sydd wedi'i nodi o'r archwiliadau a gwblhawyd y chwarter hwn. Mae'r gwaith hwn hefyd yn rhan o'r broses sicrwydd flynyddol:

- **Trethi Annomestig**
  - ✓ **Monitro cyfraddau casglu a mynd ar drywydd taliadau hwyr yn brydlon**
- **Credydwy**
  - ✓ **Gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer delio â chredydwy newydd a diwygiadau**
- **Mân Ddyledwyr**
  - ✓ **Monitro dyled yn rheolaidd**
  - ✓ **Gwahanu dyletswydd rhwng codi anfoneb a chasglu dyled**
- **Gweithdrefnau Diogelu Corfforaethol**
  - ✓ **Mae gan y Cyngor broses ymateb ac atgyfeirio glir ac effeithiol ar gyfer diogelu**
  - ✓ **Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grwpiau Gweithredu Lleol**
  - ✓ **e-ddysgu gorfodol i'r holl staff**

2.4 Mae cyfanswm o 22 o eitemau yn ddarnau o waith sy'n parhau. Mae Archwilio Mewnol wedi nodi enghreifftiau o arferion da o blith y rhain yn ystod y chwarter. Bydd y rhain hefyd yn cael eu hystyried wrth ffurfio barn flynyddol yr Adain Archwilio Mewnol:


- **Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes** – Cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau gan wasanaethau a staff Argyfyngau Sifil. Rhoddwyd hyfforddiant i Reolwyr Corfforaethol i ddatblygu cynlluniau i ymateb i ymosodiadau meddalwedd wystlo.
- **Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol** – cynigion prosiectau newydd wedi'u darparu a'r panel wedi gofyn am gamau gweithredu lle'n briodol.
- **Gweithdy i Reolwyr Corfforaethol** – rhoi diweddariadau i reolwyr ynghylch ffyrdd o weithio, polisïau a gweithdrefnau er gwybodaeth ac i ddatblygu rôl.
- **Seibergadernid a'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth** – mae'r Grŵp yn rhoi cefnogaeth weithredol, parodrwydd a chyfeiriad i fynd i'r afael â risgiau seiber a'u lleihau, a gwella diogelwch seiber, diogelwch gwybodaeth a llywodraethiant y Cyngor.
- **NMWAG – Twyll**. Y nod yw rhannu gwybodaeth a sgiliau ar atal twyll er mwyn adeiladu cadernid drwy'r Awdurdodau Lleol. Cafodd ymatebion twyll Archwilio Cymru eu rhannu er mwyn penderfynu ar gyfeiriad y grŵp yn y dyfodol.

2.5 Mae'r lefelau o sicrwydd a ddarparwyd ar gyfer yr holl archwiliadau a gwblhawyd hyd yma eleni fel a ganlyn:



2.6 Ceir canllaw i'r meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu ynghylch y lefel sicrwydd yn Atodiad I.

2.7 Cafodd cyfanswm o 19 o 'gamau i'w cymryd' eu hargymell yn yr adroddiadau a gwblhawyd yn ystod y chwarter. O'r rheiny, barnwyd bod 11 yn 'sylfaenol', 6 yn 'ganolig' a 2 yn mân sylwadau:



2.8 Amlinellir y meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu ynghylch y 'camau i'w cymryd' yn Atodiad II

2.9 Mae'r 11 cam gweithredu sylfaenol a nodwyd yn ystod y trydydd chwarter i'w gweld isod:

|   |
|---|
| Rheolaeth Allweddol Trethi Annomestig   |
| <b>A1</b>   |
| <p>Pan fydd staff Trethi Lleol yn creu ac yn casglu taliadau, dylid gwirio'r taliadau a wnaed yn annibynnol. Yn ddelfrydol, ni ddylai unrhyw swyddog sydd â chaniatâd i greu debyd ar Academy allu casglu taliad ar yr un cofnod.</p>   |
| <b>A2</b>   |
| <p>Yn ddelfrydol, ni ddylai aelod o staff wirio ei adroddiadau gwallau/rhybudd ei hun.</p> <p>Dylid enwebu swyddog gwirio annibynnol i wirio sampl arferol o drafodion staff ar y system Paye.net. Dylid gwneud y rhain yn rheolaidd a'u dogfennu'n llawn.</p> <p>Mae hyn yn arbennig o bwysig lle nad oes lefel ddigonol o wahanu dyletswydd o fewn y systemau.</p>  |
| Rheolaeth Allweddol Credydwy  |
| <b>A1</b>   |
| <p>Dylid cymeradwyo cysoniadau yn brydlon ar ôl diwedd y mis.</p>   |
| Rheolaeth Allweddol Mân Ddyledwyr   |
| <b>A1</b>   |
| <p>Dylid cymeradwyo cysoniadau yn brydlon ar ôl diwedd y mis.</p>   |
| GDPR mewn Ysgolion  |
| <b>A1</b>   |
| <p>Nid yw un ysgol wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ers nifer o flynyddoedd. Dylid ystyried e-bost ar y cyd gan y Swyddog Diogelu Data a'r Prif Archwilydd Mewnol.</p>  |
| Gweithdrefnau Diogelu Corfforaethol   |
| <b>A1</b>   |
| <p>Dylid adolygu a diweddarau'r Polisi Diogelu yn unol â'r canllawiau a nodir yn y polisi ei hun. Dylai'r polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gynnwys cyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan,</li> <li>• diweddarau cylch gorchwyl, swyddi ac aelodaeth gwahanol fyrdau a grwpiau,</li> <li>• egluro llinellau atebolrwydd ar draws y Cyngor (e.e. y siart llif yn y fersiwn gyfredol).</li> <li>• Egluro'r dosbarthiad adroddiadau gofynnol ar gyfer materion diogelu.</li> </ul> |
| <b>A2</b>   |
| <p>Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am graffu ar faterion diogelu. Rhaid i Swyddogion Cyfrifol sicrhau bod adroddiadau/cynlluniau diogelu ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu <i>cyn</i> eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet neu'r Cyngor er mwyn i'r cynghorwyr herio holl weithgareddau diogelu'r Cyngor yn effeithiol</p>   |

### A3

Oherwydd pwysigrwydd a sensitifrwydd diogelu, dylid ystyried integreiddio diogelu yn llawn yn y broses rheoli risg.

Gan ddechrau gyda'r Fframwaith Rheoli Risg, byddai hyn yn sicrhau bod lles plant ac oedolion agored i niwed yn cael ei ystyried ym mhob gwasanaeth wrth ystyried risgiau a phrosesau.

### A4

Dylai'r Polisi DBS / Recriwtio Diogel gael ei adolygu a'i ddiweddarau i ystyried unrhyw newidiadau i reoliadau a gweithdrefnau ers ei gymeradwyo.

### A5

Dylid defnyddio dangosyddion perfformiad yn gyson mewn adroddiadau diogelu ar gyfer Oedolion a Phlant.

Dylai adroddiadau ar ddiogelu oedolion gynnwys digon o fanylion i sicrhau bod materion allweddol yn cael eu nodi'n brydlon a bod blaenoriaethau a safonau'n cael eu bodloni.

### A6

Dylid ychwanegu argymhellion Archwilio Cymru at adran camau lliniaru'r Gofrestr Risg Gorfforaethol er mwyn blaenoriaethu meysydd i'w gwella ac olrhain cynnydd.

## Tudalen 197

3. Ceir 28 eitem ymatebol yn y Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol fel a nodir yn y tabl (isod).

| Maes Archwilio  | Math o Archwiliad      | Statws          |
|---|------------------------|-----------------|
| <b>Grant Caledi i Denantiaid</b> Sgôp: Grantiau 2021 – gwirio sampl o geisiadau cyn talu; dilysu gwybodaeth a dogfennau.  | Grant                  | Wedi'i gwblhau  |
| <b>Taliadau Costau Byw</b> Sgôp: Aseswyd o ran sicrwydd ynghylch gweithdrefnau i wneud yn siŵr bod taliadau'n cael eu gwneud yn effeithiol a chywir a bod mesurau rheoli yn eu lle i leihau'r risg o dwyll.                 | Grant                  | Wedi'i gwblhau  |
| <b>Taliadau Gofalwyr Di-dâl</b> Sgôp: Grantiau – gwirio sampl o geisiadau cyn talu; dilysu gwybodaeth a dogfennau.  | Grant                  | Wedi'i gwblhau  |
| <b>Grant Cymorth Tai – Grŵp Llywio</b> Sgôp: Aseswyd o ran sicrwydd ynghylch y gweithdrefnau sydd yn eu lle i wneud yn siŵr bod y Grŵp yn cael cymorth digonol ac yn cyflawni ei amcanion.                                  | Rhoi sicrwydd          | Parhau          |
| <b>Safonau Cymru</b> Sgôp: Adolygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n rhoi ystyriaeth i'r trefniadau sydd yn eu lle o ran cydymffurfio â gofynion Safonau Cymru.  | LICD                   | Dan Adolygiad   |
| <b>Archwiliad Iechyd Llywodraethu Gwybodaeth</b> Sgôp: Adolygiad annibynnol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth presennol a lefelau aeddfedrwydd risgiau gwybodaeth  | Risg / Rhoi sicrwydd   | Wedi'i gwblhau  |
| <b>Cronfeydd Arian Mân ac Arian Parod – Cysoni diwedd blwyddyn i'r Cyfriflyfr</b> Sgôp: Gwirio gweithdrefnau diwedd blwyddyn o ran cysoni arian imprest yn y cyfriflyfr, gyda chefnogaeth ffurflenni datganiadau gwasanaeth | System                 | Wedi'i ddyrannu |
| <b>Incwm Harbyrau</b> Sgôp: Cynhaliwyd profion i ategu'r cyfrif Harbyrau.   | Cyfrif Ategol          | Wedi'i gwblhau  |
| <b>Canolfan Lesiant Llanbedr Pont Steffan</b> Sgôp: Rhoi cyngor ar ddiogelwch arian parod mewn Canolfannau Lles.  | System                 | Parhau          |
| <b>Cyngor Chwaraeon Ceredigion</b> – Gofynnwyd i'r Adain Archwilio Mewnol archwilio'r cyfrifon hyd at yr adeg y caewyd y cyfrif blaenorol er mwyn paratoi ar gyfer y cyfrif newydd.   | Archwiliad Anrhydeddus | Dan Adolygiad   |
| <b>Crwner - Cymharu – Adroddiad Diwygiedig</b> Sgôp: Gwnaed cais i ymgymryd â chymhariaeth bellach o ffioedd Cyfarwyddwyr Angladdau CSC o gymharu ag ALLau eraill.  | Cynghori               | Wedi'i gwblhau  |
| <b>Crwner – Tindr</b> Sgôp: gwnaed cais i roi cyngor ar senarios yn y tendr.  | Cynghori               | Parhau          |
| <b>Crwneriaid - 'Ychwanegol'</b><br>Sgôp: Gofynnwyd i'r gwasanaeth unwaith eto gymharu ffioedd Trefnwyr Angladdau Ceredigion â ffioedd Trefnwyr Angladdau Awdurdodau Lleol eraill Cymru                                     | Cynghori               | Wedi'i gwblhau  |
| <b>Newid Hinsawdd, Erydu Arfordirol a Llifogydd</b> Sgôp: Sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y gwaith a wneir gan CSC yn yr ardal hon. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Zurich Municipal.   | Risg / Rhoi sicrwydd   | Wedi'i ddyrannu |
| <b>Cynllun Gofal Plant</b> Sgôp: Asesu cydymffurfiaeth darparwyr â Thelerau ac Amodau'r cynllun Cynnig Gofal Plant.   | Ymchwiliad Arbennig    | Ar waith        |

## Tudalen 198

| Maes Archwilio  | Math o Archwiliad   | Statws         |
|---|---------------------|----------------|
| <b>Canolfan Orffwys Frys</b> Sgôp: Rhoi cyngor ar risgiau, llywodraethu a rheoli diogelwch arian parod.   | Cynghori            | Wedi'i gwblhau |
| <b>Canolfan Orffwys Frys – Cronfa Arian Parod</b> Sgôp: Darparu dilysiad annibynnol ar yr arian parod o'r Gronfa Arian Parod Frys.  | Rhoi sicrwydd       | Wedi'i gwblhau |
| <b>Effeithiolrwydd y Grŵp Rheoli Aur – penderfyniad i'w wneud ar sgôp</b>   | Llywodraethu        | Heb ddyrannu   |
| <b>Canolfan Lesiant Llanbedr Pont Steffan</b> Sgôp: Rhoi cyngor ar risgiau a'r mesurau rheoli angenrheidiol pe byddai bwlch yn y ddarpariaeth systemau oherwydd trosglwyddo o ddarparwr meddalwedd TG.  | Cynghori            | Wedi'i gwblhau |
| <b>Darpariaeth Swyddfa Ardal Leol</b> Sgôp: Rhoi cyngor ar ddiogelwch arian parod mewn lleoliadau SAL dros dro.   | Cynghori            | Wedi'i gwblhau |
| <b>Y Gronfa Ffyniant Bro – Aseiad o'r Risg</b> Darparu cyngor ar gwblhau Aseiad Risg Archwilio Dwfn y Gronfa Ffyniant Bro sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ynghylch llywodraethu a moeseg.   | Cynghori            | Wedi'i gwblhau |
| <b>Y Gronfa Ffyniant Bro – Cofrestr Datgelu Buddiannau a Lletygarwch</b> Darparu sicrwydd i'r Swyddog Monitro am y gwaith o wirio'r Datganiadau o Fuddiannau ar gyfer archwiliad manwl Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch Datgan Buddiannau a Lletygarwch gan Weithwyr | Cynghori            | Wedi'i gwblhau |
| <b>Y Gronfa Ffyniant Bro – Cofrestr Datgelu Buddiannau a Lletygarwch</b> Darparu sicrwydd i archwiliad manwl Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith o ran Datgan Buddiannau a Lletygarwch gan Weithwyr.                         | Cynghori            | Wedi'i gwblhau |
| <b>Llywodraethu – Prosiectau – Ymchwiliad Arbennig</b><br>Adolygiad o'r prosesau llywodraethu mewnol o fewn prosiect ar ôl i'r Grŵp Arweiniol godi pryderon   | Ymchwiliad Arbennig | Wedi'i gwblhau |
| <b>Ymchwiliad Arbennig – Eitemau coll</b><br>Sgôp: Ymchwilio i leoliad yr eitemau coll.   | Ymchwiliad Arbennig | Wedi'i gwblhau |
| <b>Ymchwiliad Arbennig – Eitemau coll – Adroddiad Ychwanegol</b> Sgôp: Adolygiad o'r prosesau sy'n gysylltiedig â phrynu eitemau drwy'r tîm caffael ac ymchwiliad i leoliad yr eitemau sydd ar goll.  | Ymchwiliad Arbennig | Dan Adolygiad  |
| <b>Ymchwiliad Arbennig – Prynu Cerbyd</b> Sgôp: Ymchwilio i weithdrefnau awdurdodi.   | Ymchwiliad Arbennig | Ar waith       |
| <b>Grant Cyfalaf Gofal Plant</b> Sgôp: Adolygu bod ffurflenni grant yn unol â thelerau ac amodau.   | Grant               | Wedi'i gwblhau |

#### 4 ADNODDAU

- 4.1 Roedd digon o adnoddau ar gyfer Archwilio Mewnol yn ystod pedwerydd cwarter 2022/23.
- 4.2 Neilltuwyd 199 niwrnod i waith archwilio yn ystod y cyfnod 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2023, sy'n cynrychioli 108% o'r diwrnodau yr amcangyfrifwyd yr oedd eu hangen i gwblhau'r cynllun archwilio hyd at ddiwedd y flwyddyn.
- 4.3 Mae'r RhCAM yn parhau i gefnogi Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (GPAC) sy'n sicrhau bod pob awdurdod yn dilyn arferion gorau ac yn gweithredu mewn ffordd gyson; ac yn cefnogi Grŵp Prif Archwilwyr Gogledd a Chanolbarth Cymru (GPAGChC) sy'n cymharu arferion ac yn rhannu dogfennau cyffredinol. Cynhelir y cyfarfodydd hyn gan ddefnyddio 'Teams'.
- 4.4 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y GPAGChC Is-Grŵp i ystyried Atal Twyll, sy'n medru treulio mwy o amser ar y pwnc penodol yma. Mae'r Is-Grŵp yma'n cael ei fynychu gan y Rheolwr Archwilio (ar Teams).
- 4.5 Mae pob aelod staff yn sicrhau ei bod yn bodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus, a'i bod yn cwblhau hyfforddiant gorfodol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn:
- Mae pob aelod o'r staff archwilio wedi gwneud y gweminarau a'r modiwlau e-ddysgu angenrheidiol. Roedd y system e-ddysgu wedi'i ail-ddatblygu ac roedd nifer o'r staff archwilio wedi gwneud cyrsiau diweddarau.
  - Mae'r RhCAM wedi cwblhau'r holl hyfforddiant ar Raglen Rheolwr Ceredigion.
  - Mae'r RhCAM ynghyd â staff eraill o AM lle bo hynny'n berthnasol wedi 'mynychu' gweminarau rheolaidd a gynhaliwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, CIPFA a Data Cymru.
  - Mae tri aelod o staff wrthi'n cwblhau cymwysterau Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol.
  - Mae'r Uwch Archwilydd wedi cwblhau ei chymhwyster fel Technegydd Atal Twyll Achrededig
- 4.6 Mae trefniadau hefyd ar waith i feithrin sgiliau staff y gwasanaeth AM yn barhaus yn y meysydd archwilio / digidol / TGCh / atal twyll, a hynny drwy gael hyfforddiant a thrwy danysgrifio i ffynonellau gwybodaeth fel Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA.

## 5 DANGOSYDDION PERFFORMIAD

5.1 Mae'r Dangosyddion Perfformiad y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn eu defnyddio ar hyn o bryd i'w gweld isod ynghyd â ffigurau perfformiad Chwarter 4 (hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn).

| Dangosydd   | Mesur     | Targed | Chwarter 4<br>(hyd yn hyn<br>yn ystod y<br>flwyddyn) |
|---|-----------|--------|--|
| Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd   | Nifer     | -      | 36   |
| Canran yr amser a gynlluniwyd ar ei gyfer sy'n cael ei dreulio ar archwiliadau.             | %         | 80     | 108  |
| Canran yr holiaduron rheoli ansawdd a ddychwelwyd.  | %         | 50     | 89   |
| Canran ymatebion y cleientiaid a oedd yn nodi eu bod yn 'fodlon' neu'n 'fwy na bodlon'.     | %         | 95     | 100  |
| Canran y camau a dderbyniwyd o gymharu â'r camau a gymerwyd                                 | %         | 95     | 100  |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau rhwng diwedd yr archwiliad ac adeg cyhoeddi'r adroddiad drafft | Diwrnodau | 10     | 1  |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau rhwng y cyfarfod ymadael a'r adroddiad terfynol                | Diwrnodau | 5      | 0.5  |



## 6 CYNLLUN GWELLA 2022/23

| Cyf  | Cydymffurfio â Safon  | Camau Gweithredu Gofynnol   | Dyddiad Targed                                     | Cynnydd  |
|------|---|---|--|--|
| 1000 | Ydi'r siarter archwilio mewnol yn:<br>d) Sefydlu cyfrifoldeb y bwrdd ynghyd â rôl y swyddogion statudol (fel y Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig) o ran archwilio mewnol? | Diweddarau'r Siarter Archwilio Mewnol i gynnwys cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Swyddogion Statudol mewn perthynas ag Archwilio Mewnol a cheisio cymeradwyaeth i'r Siarter | Adolygiad Siarter AM blynyddol nesaf               | Wedi'i gwblhau. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddarau a chafodd ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17.1.23. |
| 1210 | A oes gan y Prif Swyddog Archwilio gymhwyster proffesiynol, fel CMIIA/CCAB neu gyfwerth?  | Dylai'r Cyngor roi cefnogaeth sylweddol i'r RhCAM i ennill cymhwyster proffesiynol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CMIIA) cyn gynted â phosib.                                       | Cyn gynted â phosib, o fewn 3 blynedd o'r penodiad | Mae cymhwyster RhCAM ar waith.   |
| 1311 | Ydi monitro perfformiad parhaus yn cynnwys cael adborth rhanddeiliaid?  | Holiaduron Rheoli Ansawdd i gael eu cyflwyno i'r rhai sy'n cael eu harchwilio. Cyflwynir Holiaduron Rheoli Ansawdd i'r rhai sy'n cael eu harchwilio mewn archwiliadau i ddod drwy Pentana.      | Yn ystod 2022/23                                   | Wedi'i gwblhau. Holiaduron Rheoli Ansawdd wedi'u cyflwyno ar gyfer pob adroddiad archwilio a gyhoeddwyd.                                       |

| Cyf  | Cydymffurfio â Safon  | Camau Gweithredu Gofynnol   | Dyddiad Targed | Cynnydd   |
|------|---|---|----------------|---|
| 2010 | <p>Ydi'r Prif Swyddog Archwilio wedi pennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol mewn cynllun sy'n seiliedig ar risg ac a yw'r blaenoriaethau hyn yn gyson â nodau'r sefydliad?</p> <p>Ydi'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn cyflwyno:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Y gwaith archwilio i'w gyflawni?</li> <li>Blaenoriaethau priodol y darnau hynny o waith archwilio?</li> </ol> <p>Amcangyfrif o'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith?</p> | <p>Dylai'r RhCAM newydd barhau i ddatblygu'r broses asesu risg i lywio'r cynllun blynyddol ar gyfer gweithgarwch archwilio mewnol ac amlinellu blaenoriaethau'r gwaith i'w gyflawni yn y cynllun.</p> <p>Mae hwn yn gyfle delfrydol i sicrhau bod y cynllun archwilio blynyddol yn alinio'n llawn â fframwaith rheoli risg y Cyngor a'i fod yn canolbwyntio ar y prif risgiau i'w amcanion strategol.</p> | O fewn 12 mis  | <p>Wedi'i gwblhau. Mae'r RhCAM wedi datblygu'r broses asesu risg i ymgorffori Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn y Cynllun AM. Cymeradwywyd Strategaeth a Chynllun 2023/24 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Mawrth 2023.</p> |
| 2050 | <p>Ydi'r cynllun sy'n seiliedig ar risg yn cynnwys dull sydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol i ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith a allai fod yn ofynnol er mwyn dibynnu ar y ffynonellau hynny?</p>  | <p>Parhau i ddatblygu'r broses o fapio a chategoreiddio ffynonellau sicrwydd ar gyfer y Cyngor gan ddefnyddio'r model 'Tair Llinell'.</p> <p>Ar ôl ei gwblhau, dylid ymgorffori'r map yn y broses gynllunio ar gyfer archwilio blynyddol mewn perthynas â safon PSIAS '2050 Cydlyniant'.</p>  | O fewn 12 mis  | <p>Wedi'i gwblhau. Mae'r Map Sicrwydd yn defnyddio'r model 'Tair Llinell' ac mae'n cynnwys sylw eang i sicrwydd o ffynonellau eraill, yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ogystal â risgiau eraill y mae AM yn ymwybodol ohonynt.</p>        |

| Cyf  | Cydymffurfio â Safon  | Camau Gweithredu Gofynnol   | Dyddiad Targed                      | Cynnydd  |
|------|---|---|-------------------------------------|--|
| 2220 | <p>O ran ymrwymiadau ymgynghori, ydi'r archwilwyr mewnol wedi sicrhau dealltwriaeth gyda'r cleientiaid ynghylch y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Amcanion?</li> <li>b) Sgôp</li> <li>c) Cyfrifoldebau priodol yr archwilwyr mewnol a'r cleient a disgwyliadau eraill y cleient?</li> </ul>   | <p>Cyflwyno proses ar gyfer dogfenu, cyhoeddi a chytuno ar sgôp archwilio ffurfiol gyda rheolwyr cyn i'r gwaith archwilio gychwyn.</p> <p>Mae'r tîm AM wrthi'n rhoi system feddalwedd archwilio mewnol newydd (Pentana) ar waith, sydd yn cynnwys swyddogaeth ar gyfer gosod sgôp archwiliad ac felly gellir ei ddefnyddio i'r diben hwn.</p> | O fewn 12 mis                       | Wedi'i gwblhau. Cafodd Dogfen ar gyfer gosod Sgôp ei chreu a fydd yn cael ei chyflwyno i'r rhai sy'n cael eu harchwilio fel ymgysylltiad ffurfiol cyn i'r archwiliad gychwyn er mwyn amlinellu sgôp ac amcanion pob archwiliad.  |
| 2421 | Os oedd camgymeriad neu hepgor sylweddol mewn cyfathrebiad terfynol, a wnaeth y Prif Swyddog Archwilio gyflwyno'r wybodaeth wedi'i chywiro i bob un a dderbyniodd y cyfathrebiad gwreiddiol?  | Diweddarau'r Llawlyfr Archwilio i gynnwys darpariaeth fel bod yr archwilydd perthnasol/RhCAM ac ati yn ailgyflwyno gwybodaeth wedi'i chywiro i bob un a dderbyniodd y cyfathrebiad gwreiddiol os yw adroddiad archwilio terfynol yn cynnwys camgymeriad neu'n hepgor yn sylweddol.  | O fewn 3 mis                        | Wedi'i gwblhau.  |
| 2450 | <p>Ydi'r cyfathrebiad [Barn Archwilio Mewnol Blynyddol] yn nodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Sgôp y farn gan gynnwys y cyfnod amser y mae'r farn yn berthnasol iddo?</li> <li>b) Unrhyw gyfyngiad o ran sgôp?</li> <li>c) Ystyriaeth i bob prosiect perthnasol gan gynnwys dibyniaeth ar ddarparwyr sicrwydd eraill?</li> <li>d) Y fframwaith rheoli neu risg neu feini prawf eraill a ddefnyddiwyd yn sail i'r farn gyffredinol?</li> </ul> | Cynnwys adran yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n nodi unrhyw gyfyngiad ar sgôp y gwaith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn berthnasol.   | Adroddiad Blynyddol nesaf (2022/23) | Wedi'i gwblhau. Mae'r Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys Barn Flynyddol Archwilio Mewnol wedi'i greu yn unol â chyfeirnod 2450 PSIAS a disgwyllir iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Mehefin 2023. |

| Cyf  | Cydymffurfio â Safon   | Camau Gweithredu Gofynnol   | Dyddiad Targed | Cynnydd  |
|------|--|---|----------------|--|
| 2500 | Ydi'r Prif Swyddog Archwilio wedi sefydlu proses fonitro a dilyn i fyny ar gamau rheoli i sicrhau bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt wedi'u gweithredu'n effeithiol neu bod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â chymryd camau gweithredu? | Ailsefydlu'r broses ddilyn i fyny.<br><br>Mae'r system Pentana yn cynnwys swyddogaeth dracio, felly pan fydd y system ar waith gellir ei defnyddio i'r diben hwn. | O fewn 6 mis   | Wedi'i gwblhau. Mae'r broses o ran dilyn i fyny ar y camau a argymhellir wedi'i hadfer a chaiff y wybodaeth ei hadrodd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |

## Canllaw i'r meini prawf sicrwydd a ddefnyddiwyd:

| Lefel:                                     | Uchel  | Sylweddol   | Cymedrol  | Cyfyngedig   |
|--|--|---|---|--|
| <b>Digonolrwydd y rheolaethau:</b>         | Mae rheolaethau ar waith i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i amddiffyn y Cyngor yn erbyn risgiau rhagweladwy sylweddol. Ni chanfuwyd dim gwendidau sylfaenol. | Mae rheolaethau ar waith i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i leihau risgiau rhagweladwy sylweddol. Nodwyd rhai meysydd i'w gwella. | Mae rheolaethau ar waith i raddau amrywiol. Nodwyd bylchau sy'n golygu bod y gwasanaeth yn agored i risgiau penodol. Mae angen sicrhau gwelliannau. | Ystyrir bod y rheolaethau yn annigonol. Mae angen cryfhau'r gweithdrefnau yn fawr gan sicrhau cydymffurfiaeth.   |
| <b>Risgiau:</b>                            | Mân risgiau yn unig.   | Mae'r cyfle yn bodoli i wella'r sefyllfa o ran bod yn agored i risg.  | Mae angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiaeth.  | Os na chaiff y rheolaethau eu gwella, mae'r Cyngor yn agored i risg sylweddol (colled ariannol fawr, colli enw da, methu â chyflawni amcanion allweddol y gwasanaeth). |
| <b>Canllaw:</b>                            | Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol na sylweddol.  | Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol . Mae angen cymryd rhai camau gweithredu sylweddol.   | Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylweddol.  | Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylfaenol / sylweddol.   |
| <b>Camau dilynol sydd angen eu cymryd:</b> | Archwiliad cychwynnol yn unig.   | Camau dilynol o ran unrhyw gamau gweithredu sylweddol yn unig / hunanasesiad gyda samplau i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio.                             | Camau dilynol i'w cymryd gan Archwilio Mewnol gan gynnwys cynnal profion sampl i sicrhau bod pob cam wedi'i weithredu ac i ailasesu'r sicrwydd.     | Camau dilynol i'w cymryd gan Archwilio Mewnol gan gynnwys cynnal profion llawn i sicrhau bod pob cam wedi'i weithredu ac i ailasesu'r sicrwydd.                        |

Canllaw i'r camau gweithredu fesul dosbarth:

### Y camau gweithredu fesul dosbarth

| Sylfaenol  | Sylweddol   | Cymedrol   | Teilyngu sylw   |
|--|---|--|---|
| Gwendid sy'n hanfodol i reoli'r risg o fewn y gwasanaeth. Angen rhoi gwybod amdano ac angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol roi sylw iddo. | Canfyddiadau pwysig sy'n nodi na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu a allai arwain at risg ariannol i'r gwasanaeth neu golli enw da. | Canfyddiadau pwysig sy'n nodi na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ond nad ydyw'n risg fawr i'r gwasanaeth o ran colled ariannol / colli enw da. | Eitemau lle mae angen cymryd ychydig o gamau neu ddim camau o gwbl. Wedi'i gynnwys gan y gallai fod o ddiddordeb i'r gwasanaeth neu am ei fod yn rhoi cyngor ynghylch arferion gorau. |

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 21 June 2023

**Teitl:** Adroddiad Camau Rheoli Archwilio Mewnol 1/10/22 – 31/3/23

**Pwrpas yr adroddiad:** Darparu diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan yr adain archwilio mewnol wrth monitro a diweddarau camau rheoli yn ystod y cyfnod uchod

Fel y nodwyd yn Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Rhyngwladol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, mae Safon Perfformiad 2500 yn nodi bod yn rhaid i Archwilio Mewnol sefydlu proses i fonitro a mynd ar drywydd camau rheoli.

Y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu hyn ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r cynnydd a wneir yn gan rheolwyr ar camau rheoli a gyhoeddwyd yng nghynllun gweithredu adroddiadau Archwilio Mewnol.

**Argymhelliad:** Ystyried y gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.

**Rheswm dros y penderfyniad:** Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn monitro cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu hyn ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

**Atodiadau:** Adroddiad Gweithrediadau Rheolwyr Archwilio Mewnol 1/10/22 – 31/3/23

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro

**Swyddog Adrodd:** Alex Jenkins  
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

**Dyddiad:** 25 Mai 2023

**Gwasanaethau Cyfreithiol a  
Llywodraethu**

**Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

# **Camau Rheoli**

---

**Dyddiad Cyhoeddi: 25 Mai 2023**

**Crëwyd gan: Stephanie Land, SA**

**Cymeradwywyd gan: Alex Jenkins, CMIA**




Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



## Cyflwyniad


1. Fel y nodwyd yn Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, mae Safon Perfformiad 2500 yn nodi bod yn rhaid i Archwilio Mewnol sefydlu proses i fonitro a mynd ar drywydd camau rheoli.
2. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw gweithredu camau rheoli. Y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am fonitro'r cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu hyn ac adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
3. Mae ffurflenni Rhoi Diweddariad ar Gamau Rheoli wedi'u datblygu i'w dosbarthu i swyddogion cyfrifol y cytunwyd arnynt er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.
4. Mae proses Archwilio Mewnol ar gyfer mynd ar drywydd camau rheoli fel a ganlyn:



5. Bydd cynnydd pob cam sylfaenol ac angenrheidiol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhan o'r adroddiad hwn bob chwe mis.
6. Mae Archwilio Mewnol yn cadw taenlen er mwyn rhoi cipolwg amser real o'r perfformiad presennol. Mae hyn yn golygu y gellir adrodd ar y wybodaeth a'i holrhain yn effeithiol.
7. Oherwydd ôl-groniad o gamau rheoli o ganlyniad i bandemig Covid-19, bydd Archwilio Mewnol yn blaenoriaethu camau sylfaenol ac angenrheidiol ar gyfer adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2020/2021 neu ynghynt. Cymerir camau dilynol ar gyfer yr holl gamau rheoli o 2021/22 ymlaen.


## Perfformiad presennol

8. Mae'r siartiau canlynol yn dangos perfformiad Camau Rheoli ar 31/03/2023.
9. Dangosir cyfanswm y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau yn ffigur 1. Mae cyfanswm o 65 o Gamau Rheoli sydd heb eu cwblhau. Ystyrir nad yw Camau Rheoli wedi'u cwblhau nes eu bod wedi cyrraedd y cam 'wedi'i gau'.




Ffigur 1

10. Dangosir y Camau Rheoli sydd Heb eu Cwblhau yn ôl y flwyddyn y cawsant eu pennu yn ffigur 2.




Ffigur 2

11. Dangosir cyfanswm y camau hwyr yn ffigur 3. Nid yw'r camau hwyr yn cynnwys Camau Rheoli sy'n derbyn sylw (h.y. os ydynt ar y cam 'diweddariad wedi'i dderbyn', 'gwirio', neu 'wedi'i gau').



Ffigur 3

12. Dangosir statws Camau Rheoli yn ffigur 4. Mae'r holl gamau sydd heb eu cwblhau a gafodd eu monitro yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y siart hwn p'un a ydynt yn hwyr ai peidio. Bydd y camau sydd wedi'u cau yn cael eu tynnu oddi ar y daenlen fonitro ar gyfer adroddiadau dilynol.



*Ffigur 4*

13. Manylir ar gynnydd Archwilio Mewnol o ran ailedrych ar Gamau Rheoli sylfaenol a sylweddol yn Atodiad 1.






## Cynnydd Camau Rheoli: hyd at 31/03/2023

Adroddiadau Camau Rheoli a gyhoeddwyd:

Trwyddedau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)  
(dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 04/06/2021)

Lefel Sicrwydd:

Sylweddol

| Cam Rheoli  | Blaenoriaeth   | Canlyniad   | Statws  |                       |
|---|--|---|---|-----------------------|
| Dylid cynnwys gwybodaeth am drin data mewn polisïau   | <br>Sylweddol   | Cam gweithredu diwygiedig:<br>Dylai'r Gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am drin data yn ei bolisïau. Bwrw ati â mabwysiadu'r polisi newydd 'Canllaw i Gysoni Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yng Nghymru'.   | <b>Blaenoriaeth wedi'i diweddaru / Dyddiad Targed</b><br><br>Sylweddol<br>30 Medi 2023           | <b>Wedi'i dderbyn</b> |
| Dylid cofnodi'r wybodaeth DBS ofynnol ar y system ar gyfer pob cais   | <br>Sylweddol   | Cam gweithredu diwygiedig:<br>Dylai'r gwasanaeth weithredu gweithdrefn i fonitro dyddiadau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau nad yw gyrwyr tacsis yn gweithredu heb wiriad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>Os nad oes gan yrwr taci trwyddedig wiriad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac nad yw'r drwydded wedi'i hildio, dylid dirymu'r drwydded yn unol â'r polisi er mwyn cyflawni dyletswydd y Cyngor i ddiogelu'r cyhoedd. | <b>Blaenoriaeth wedi'i diweddaru / Dyddiad Targed</b><br><br>Canolig<br>Ar unwaith ac yn barhaus | <b>Wedi'i dderbyn</b> |
| Rhaid i unrhyw dystysgrifau DBS a gedwir gael eu ffeilio a'u cloi yn ddiogel mewn cyfleuster storio na ellir ei symud am y cyfnod cadw priodol yn unig. | <br>Sylweddol | WEDI'I GWBLHAU  |   | <b>Wedi'i gau</b>     |

## Camau Rheoli wedi'u Cau

Aseswyd risg y Camau Rheoli canlynol gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ac maent wedi'u cau fel rhan o'r rhaglen Rhoi Diweddariad ar Gamau Rheoli (mae'r rhesymau wedi'u nodi o dan bob eitem isod):

### Canolfan Hamdden Plascrug gan gynnwys Gwerthu (dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 21/09/2018)

Lefel sicrwydd:  
Statws

Canolig  
Wedi'i gau

#### 6 Angenrheidiol, 11 Sylfaenol

Oherwydd nifer sylweddol o newidiadau yn y Gwasanaethau Hamdden o ganlyniad i'r Ffyrdd Newydd o Weithio, Trawsnewid y gwasanaeth Gydol Oes a Llesiant a Meddalwedd Rheoli newydd, mae'r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol wedi cynnwys archwiliad o Ganolfan Hamdden Plascrug ar gynllun Archwilio Mewnol 23/24. Bydd y Camau Rheoli yn cael eu hystyried fel rhan o'r archwiliad.

### Trwyddedau Perfformiadau Plant (dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 21/02/2019)

Lefel sicrwydd:  
Statws

Canolig  
Wedi'i gau

#### 1 Angenrheidiol, 3 Sylfaenol

Ers yr archwiliad gwreiddiol, mae'r gwasanaeth Trwyddedau Perfformiadau Plant wedi symud o'r gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu i'r gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant. Ar ôl trafodaeth gyda'r Rheolwr Corfforaethol – Cynhwysiant ADY a Lles a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg, cytunwyd y byddai archwiliad dilynol o'r gwasanaeth yn rhoi gwell sicrwydd. Mae Trwyddedau Perfformiadau Plant wedi'u cynnwys yng Nghynllun Archwilio Mewnol 23/24.

### GDPR mewn Ysgolion (dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 31/03/2020)

Statws

Wedi'i gau

#### 1 Sylfaenol

Cynhelir yr archwiliad hwn yn flynyddol ac felly mae ar gynllun Archwilio Mewnol 23/24.

### Ymchwiliad Arbennig – Eitemau Coll (dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 21/02/2019)

Lefel sicrwydd:  
Statws

Sylweddol  
Wedi'i gau

#### 3 Sylfaenol

Nid oes angen archwiliad dilynol – mae'r camau a bennwyd wedi'u cynnwys mewn archwiliadau eraill yn y cynllun Archwilio Mewnol. Ymchwiliad Gwrth-dwyll

Mae'r dudalen yn wag yn twriadol

**CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

|                             |  |
|-----------------------------|--|
| <b>Adroddiad i'r:</b>       | <b>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</b>  |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>  | <b>21 Mehefin 2023</b>   |
| <b>Teitl:</b>               | <b>Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23</b>  |
| <b>Pwrpas yr Adroddiad:</b> | <b>Darparu barn yn flynyddol ar sicrwydd yr archwilio mewnol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor</b> |

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022. Roedd y Cynllun yn darparu amlinelliad o'r gwaith sy'n ofynnol gan yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn er mwyn ffurfio barn ynghylch sicrwydd.

Mae'r farn hon yn ffurfio rhan o fframwaith sicrwydd y Cyngor. Mae AM hefyd yn darparu cyngor annibynnol i wasanaethau er mwyn helpu rheolwyr i wella'u mesurau rheoli mewnol, eu dull o reoli risg, a'u trefniadau llywodraethu.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2023, ac mae'n ymgorffori barn yr adain archwilio.

Mae hefyd yn cofnodi'r sefyllfa bresennol o ran adnoddau, a chynlluniau sicrhau ansawdd, gwelliant a chynnydd yr Adain.

|                                      |  |
|--------------------------------------|--|
| <b>Argymhelliad:</b>                 | <b>Cymeradwyo'r Adroddiad</b>  |
| <b>Rhesymau dros y penderfyniad:</b> | <b>Bod y Pwyllgor Archwilio'n fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol wedi gwneud gwaith digonol a phriodol er mwyn darparu sicrwydd realistig ddiwedd y flwyddyn, gan ychwanegu gwerth, a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.</b> |
| <b>Atodiadau:</b>                    | <b>Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23</b>  |
| <b>Pennaeth y Gwasanaeth:</b>        | Elin Prysor<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro   |
| <b>Swyddog Adrodd:</b>               | Alex Jenkins<br>Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol   |
| <b>Date:</b>                         | 16 Mai 2023  |

# LEGAL AND GOVERNANCE SERVICES

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

**Adroddiad Blynyddol y Rheolwr  
Corfforaethol – Archwilio Mewnol 2022/23**  
**Annual Report of the Corporate Manager –  
Internal Audit during 2022/23**

Adroddiad wedi'i baratoi gan: Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mai 2023

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: 21 Mehefin 2023



# Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ar Waith Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23

## CYNNWYS

|  |    |
|--|----|
| CYFLWYNIAD   | 3  |
| BARN ARCHWILIO MEWNOL  | 3  |
| SAIL FY MARN   | 4  |
| Cwmpas   | 4  |
| Cyfyngiadau Cwmpas   | 4  |
| SICRWYDD A GAFWYD  | 5  |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol                                 | 6  |
| Mapio Sicrwydd   | 6  |
| Diwylliant   | 7  |
| CAMAU GWEITHREDU RHEOLWYR  | 7  |
| Camau Gweithredu Cyfredol  | 7  |
| Camau Gweithredu Blaenorol                                       | 8  |
| ADNODDAU SYDD AR GAEL  | 9  |
| Datganiad o Annibyniaeth   | 9  |
| PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL                                     | 9  |
| Cydymffurfio â Safonau Archwilio<br>Mewnol y Sector Cyhoeddus    | 11 |
| HYFFORDDIANT A DATBLYGU  | 11 |
| SICRWYDD A DDARPARWYD 2022/23                                    | 13 |
| MEINI PRAWF SICRWYDD   | 16 |
| CYDYMFFURFIO Â SAFONAU<br>ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR<br>CYHOEDDUS | 17 |

## 1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae cyfrifoldebau proffesiynol Archwilwyr Mewnol y sector cyhoeddus wedi'u nodi yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (y Safonau) ynghyd â Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol CIPFA.
- 1.2 Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (RhCAM) roi barn flynyddol o sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar system gyfan y Cyngor o reolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu corfforaethol.

Yn ôl y Safonau, rhaid i'r farn flynyddol gynnwys:

- Barn am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd gyffredinol prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r sefydliad.
- Datgelu unrhyw amodau i'r farn honno, ynghyd â'r rheswm dros yr amod.
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio y mae'r farn yn seiliedig arno, gan gynnwys y ddibyniaeth a roddir ar gyrff sicrwydd eraill.
- Tynnu sylw at unrhyw faterion y mae'r Prif Weithredwr Archwilio yn barnu sy'n arbennig o berthnasol o ran paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Crynhoi perfformiad y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn erbyn ei fesurau perfformiad.
- Rhoi sylwadau ar gydymffurfiaeth â'r Safonau a chyfathrebu canlyniadau rhaglen sicrhau ansawdd Archwilio Mewnol.

## 2 BARN ARCHWILIO MEWNOL

### 2.1 **Barn y Rheolwr Corfforaethol –Archwilio Mewnol 2022-23**

**Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 barn y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yw bod gan y Cyngor fframwaith boddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yn eu lle i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad.**

**Nid oes unrhyw feysydd o bryder corfforaethol arwyddocaol wedi codi trwy waith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod, fodd bynnag, mae angen gweithredu i wella a monitro mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni.**

**Nid oes unrhyw amodau i'r farn hon.**

## 3 SAIL FY MARN

### CWMPAS

- 3.1 Rwyf wedi llunio fy marn trwy ystyried y gwaith y mae Archwilio Mewnol wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:
- nifer, cwmpas a sicrwydd o adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, a'r
  - rheolwyr yn derbyn y camau gweithredu (os ydynt ar gael).
- 3.2 Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r Cyngor.
- 3.3 Rwyf wedi llunio fy marn yn dilyn y gwaith a gafodd ei gwblhau trwy'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol seiliedig ar risg a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2022.
- 3.4 Mae lefel y sicrwydd a ddarperir yn seiliedig ar y canlynol:
- Canlyniadau'r holl archwiliadau ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2022/23 (wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio)
  - Ymatebion rheolwyr i'r canlyniadau a'r camau gweithredu gofynnol, a
  - Sicrwydd amrywiol o ffynonellau eraill a gafodd ei gasglu a'i fonitro ym Map Sicrwydd Archwilio Mewnol
- 3.5 Nod y mwyafrif o adroddiadau archwilio a gyhoeddir yw rhoi barn i reolwyr ar lywodraethu, risg a rheolaethau yn y maes dan sylw, ac argymhell camau unioni i gryfhau unrhyw wendidau a nodwyd. Mae'r barnau hyn, ynghyd â'r tebygolrwydd o welliant, yn darparu'r sylfaen ar gyfer seilio barn sicrwydd flynyddol Archwilio Mewnol ar amgylchedd cyfan y Cyngor. Mae gwaith ymgynghorol hefyd yn ychwanegu gwerth trwy helpu rheolwyr i wella prosesau a chyflawni eu hamcanion yn fwy effeithiol.


### CYFYNGIADAU CWMPAS

- 3.7 Y canlyniadau a'r sicrwydd yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddaeth at sylw Archwilio Mewnol yn ystod ein gwaith o fewn y Cyngor trwy gydol y flwyddyn yn unig. Nid ydynt o reidrwydd yn gofnod cynhwysfawr o'r holl gryfderau a gwendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellid eu gwneud gan wasanaethau. Ni all sicrwydd fod yn absoliwt.
- 3.8 Mae Archwilio Mewnol yn pwysleisio bod rheolwyr yn gyfrifol am reolaeth fewnol, rheoli risg a gweithdrefnau llywodraethu, ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith ni i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a all fodoli.
- 3.9 Ni ddylai'r adroddiad hwn, na gwaith Archwilio Mewnol, gymryd lle cyfrifoldebau rheolwyr o ran arferion rheolaeth fewnol cadarn.

## 4 SICRWYDD A GAFWYD

- 4.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau cyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Adroddir ar ganlyniadau unigol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn Adroddiadau Cynnydd chwarterol Archwilio Mewnol.
- 4.2 Mae'r sicrwydd cyffredinol a ddarperir hefyd yn ystyried cynnydd gan reolwyr o ran gwneud gwelliannau, ystyried y gofrestr risg, a'r sicrwydd a ddarperir mewn adroddiadau a gyhoeddir gan reoleiddwyr allanol.
- 4.3 Sicrwydd Archwilio Mewnol a ddarparwyd yn ystod 2022-23.


Yn gyffredinol, roedd Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd 'Canolig' neu uwch ar gyfer yr un ar ddeg o ddarnau o waith a gwblhawyd. Ni chafwyd unrhyw sicrwydd 'Cyfyngedig'. Roedd gweddill y sicrwydd a gafwyd yn deillio o waith ymgynghorol neu waith gwrth-dwyll a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn.



- 4.4 Cafodd y gwaith o weithredu ar y cynllun gweithredol ei fonitro gan y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol (RhCAM) yn barhaus. Cafodd nifer o ychwanegiadau eu gwneud yn ystod y flwyddyn ar sail asesiad risg, gan olygu bod angen ail-flaenoriaethu tasgau a diwygio'r gwaith gwreiddiol a gynlluniwyd.

Mae'r holl waith adweithiol a ychwanegwyd at y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o Adroddiadau Cynnydd chwarterol y RhCAM.

4.5 Dangosir statws gwaith Archwilio Mewnol ar 31 Mawrth 2023 yn y siart isod:



4.6 Ceir crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd o'r cynllun gweithredol a'r sicrwydd a ddarparwyd yn ystod 2022/23 yn Atodiad I.

4.7 Rhoddwyd naill ai sicrwydd uchel neu sylweddol i'r mwyafrif o'r adolygiadau oedd wedi rhoi barn ar sicrwydd ar sail y gwaith a wnaed.

4.8 Ni roddwyd sicrwydd cyfyngedig i unrhyw feysydd a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd canolig i un maes. Yn ogystal â chynghori'r gwasanaethau ar adeg yr archwiliad o'r camau unioni sy'n ofynnol, bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal i asesu gwelliannau fel rhan o Raglen Camau Gweithredu Rheolwyr Archwilio Mewnol, a bydd Archwilio Mewnol yn parhau i weithio gyda'r gwasanaethau i gynorthwyo gyda'r gwaith o wreiddio gwelliannau yn y systemau.

4.9 Mae adroddiad ar wahân wedi'i gynhyrchu yn amlinellu'r gwaith gwrth-dwyll a wnaed gan y gwasanaeth yn ystod 2022/23, yn unol â chais y Pwyllgor.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

4.11 Mae Archwilio Cymru yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn rhoi barn sy'n cwmpasu ei gysondeb â'u gwybodaeth nhw ac â deddfwriaeth. Ategir y gwaith hwn gan adolygiad archwilio mewnol o broses y Fframwaith, a gyflwynir hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhoddodd y RhCAM sicrwydd uchel ynghylch y gweithdrefnau sydd yn eu lle i sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'i ddogfennau ategol yn effeithiol ac yn cael eu monitro trwy gydol y flwyddyn.

## MAPIO SICRWYDD

4.12 Mae ymarfer mapio sicrwydd Archwilio Mewnol wedi cael ei adolygu a'i gryfhau i ymgorffori 'Model Tair Llinell' y Sefydliad Archwilio Mewnol.

4.13 Mae mapio sicrwydd yn eitem safonol ar agenda cyfarfodydd tîm wythnosol Archwilio Mewnol i fonitro'n rheolaidd statws y sicrwydd sydd eisoes ar y map ac unrhyw sicrwydd newydd sydd i'w ychwanegu.


## DIWYLLIANT

- 4.14 Mae'r diwylliant moesegol o fewn y Cyngor yn dda, a disgwylir i weithwyr ac Aelodau gydymffurfio â'r Codau, y polisiau a'r canllawiau a gyhoeddir. Mae'r rhain ar gael yn hwylus ar wefan y Cyngor a/neu Ceri.
- 4.15 Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion, a ddarperir gan Adnoddau Dynol, wedi cael ei gloywi i gynnwys modiwlau ychwanegol megis rheoli timau o bell. Mae hyfforddiant yn cwmpasu agweddau amrywiol ar gynllunio, datblygu a rheoli'r gweithlu. Mae rheolwyr hefyd yn cael cyfle i gofrestru cymhwyster Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- 4.16 Mae'n rhaid i holl staff y Cyngor gwblhau modiwlau hyfforddi gorfodol ar faterion megis cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch ac ati sy'n cael ei fonitro ar Bwll Dysgu Ceredigion gan Reolwyr Llinell a'r Grŵp Arweinyddiaeth.

## 5 CAMAU GWEITHREDU RHEOLWYR

### CAMAU GWEITHREDU CYFREDOL

- 5.1 Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu proses ddilydol ffurfiol i gadarnhau bod Camau Gweithredu Rheolwyr a gyhoeddwyd mewn adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu rhoi ar waith gan reolwyr.
- 5.2 Mae cyfanswm o 76 o 'Gamau Gweithredu Rheolwyr' wedi'u cyhoeddi mewn adroddiadau archwilio terfynol a ddosbarthwyd yn ystod 2022/23, rhai ohonynt yn fân eu natur neu'n cynghori, ond yn haeddu eu hystyried (yn unol â'r siart isod).




- 5.3 Mae'r camau gweithredu arwyddocaol wedi cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Adroddiadau Cynnydd chwarterol Archwilio Mewnol, a chânt eu monitro'n barhaus fel rhan o'n rhaglen Diweddarau Camau Gweithredu Rheolwyr. Ni chyhoeddwyd unrhyw gamau gweithredu sylfaenol yn 2022/23.

5.4 Amlinellir y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu pob lefel sicrwydd yn Atodiad 2.


CAMAU GWEITHREDU BLAENOROL

- 5.5 Oherwydd y pandemig, mae ôl-groniad o ran ailedrych ar gamau gweithredu rheolwyr blaenorol. Mae Archwilio Mewnol wrthi'n gweithio trwy'r ôl-groniad trwy flaenoriaethu camau gweithredu rheolwyr 'angentrheidiol' ac 'sylfaenol' o'r blynyddoedd blaenorol.
- 5.6 Ar 31 Mawrth 2023, rydym yn monitro 40 o gamau gweithredu sydd wedi'u cyhoeddi'n flaenorol ond heb eu cwblhau fel rhan o'n rhaglen Diweddarau Camau Gweithredu Rheolwyr.
- 5.7 Mae'r siart isod yn amlinellu'r camau gweithredu cyfredol sydd heb eu cwblhau fesul blwyddyn.



O'r rhain, mae 7 yn gamau gweithredu 'angentrheidiol', 44 yn gamau gweithredu 'sylfaenol', 12 yn gamau gweithredu 'canolig' a 2 yn gamau gweithredu sy'n 'man sylwadau'.

5.8 Statws y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau ar 31 Mawrth 2023 yw:



## 6 ADNODDAU SYDD AR GAEL

- 6.1 Mae'r strwythur Archwilio Mewnol cyfredol wedi bod yn ei le ers penodi'r Cynorthwydd Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai 2022, sy'n darparu cymorth i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Swyddog Llywodraethu.
- 6.2 Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd cyfanswm o 735 diwrnod o waith archwilio (sy'n cyfateb i oddeutu 100% o'r diwrnodau gofynnol).
- 6.3 Mae'r Rheolwr Archwilio yn cydlynu ac yn gweithio ar ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn ystod y flwyddyn, sef yr ymarfer gorfodol a gynhelir gan Archwilio Cymru sy'n paru data electronig o fewn a rhwng cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn atal a chanfod twyll.
- 6.4 Mae staff hefyd wedi cyfrannu at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol eraill ac wedi mynychu gweithdai / cyfarfodydd gan gynnwys y Panel Rheoli Prosiect Corfforaethol, Gweithdai Rheolwyr Corfforaethol, Grŵp Rheoli Arian – Addasiad Economaidd, er mwyn cael sicrwydd.
- 6.5 Cawsom wybod gan Gyngor Sir Penfro ym mis Ebrill 2023 y byddai'n rhoi'r gorau i ddefnyddio meddalwedd rheoli archwiliad Pentana (rydym yn rhannu'r defnydd ohono) ym mis Awst 2023. Mae'r RhCAM wrthi'n trefnu ymarfer caffael i ystyried opsiynau eraill o ran meddalwedd. Yn y cyfamser, bydd ffolderi electronig a rennir yn cael eu defnyddio i gofnodi'r gwaith a gwblhawyd.

### DATGANIAD O ANNIBYNIETH

- 6.6 Yn ystod y flwyddyn mae'r holl Archwilwyr wedi gweithredu gydag unplygrwydd a gwrthrychedd ac nid yw eu hannibyniaeth wedi'i chyfaddawdu ar unrhyw adeg. Mae archwilwyr yn cwblhau Datganiad o Fuddiannau a Chadarnhad blynyddol i God Moseg Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Lle gwneir datganiadau, dyrennir gwaith i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau.
- 6.7 Mae Archwilio Mewnol mewn sefyllfa dda o fewn y Cyngor i sicrhau annibyniaeth. Mae'r RhCAM yn adrodd yn weinyddol i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyfreithiol a Llywodraethu (Swyddog Monitro'r Cyngor hefyd), ac â mynediad uniongyrchol at Arweinwyr ac Aelodau.

## 7 PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL

- 7.1 Mae'r RhCAM wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau Archwilio Mewnol sydd ar gael i gyflawni'r cynllun seiliedig ar risg trwy'r canlynol:
  - Canolbwyntio cwmpas yr archwiliadau i gael gwerth gorau a chyflawni amcanion
  - Blaenoriaethu gwaith sicrwydd a gwaith cynghori ar sail risg
  - Datblygu cyfathrebu gyda gwasanaethau eraill a gwneud defnydd gwell o'r dechnoleg sydd ar gael e.e. Teams, MS Forms, ActiveData
  - Symleiddio adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio



## Tudalen 225

- Adrodd ar sicrwydd yn chwarterol i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol
- Prynu arbenigedd gan arbenigwyr pwnc e.e. gwiriad iechyd Rheoli Gwybodaeth gan Zurich Municipal.

7.2 Mae Archwilio Mewnol wedi ychwanegu gwerth i'r awdurdod yn ystod 2022/23 trwy:

- Darparu sicrwydd sy'n gwrthrychol ac yn seiliedig ar risg.
- Monitro ac adrodd ar y gwelliant a wnaed gan rheolwyr ar gamau gweithredu â cytunwyd.
- Aelodaeth o baneli a grwpiau allweddol fel y Panel Rheoli Prosiect Corfforaethol, Grŵp Datblygu, Grwpiau Llywio
- Y Rheolwr Archwilio yn cydlynu ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol
- Ymgynghori a/neu gynghori ar ddatblygu polisiau a gweithdrefnau allweddol ar gam cynnar
- Darparu hyfforddiant i Benaethiaid y Sir ar ofynion Archwilio Mewnol yn eu rôl fel Penaethiaid

7.3 Mae'r RhCAM yn llunio ystod o ddangosyddion perfformiad a osodwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn seiliedig ar ddangosyddion meincnodi CIPFA:

| Dangosydd   | Mesur     | Targed | 2021/22 | 2022/23 |
|---|-----------|--------|---------|---------|
| Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd   | Nifer     | -      | 26      | 36      |
| Canran yr amser cynlluniedig a dreuliwyd ar archwiliadau                                    | %         | 80     | 102     | 100     |
| Canran yr Holiaduron Rheoli Ansawdd a ddychwelwyd   | %         | 50     | -       | 89      |
| Canran yr ymatebion gan gleientiaid sydd o leiaf yn 'fodlon'                                | %         | 95     | -       | 100     |
| Canran y camau gweithredu a dderbyniwyd yn erbyn y camau gweithredu a gwblhawyd             | %         | 95     | 96      | 100     |
| Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd o ddiwedd yr archwiliad hyd at gyhoeddi'r adroddiad drafft | Diwrnodau | 10     | 7.9     | 1.1     |
| Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd rhwng y cyfarfod ymadael a'r adroddiad terfynol            | Diwrnodau | 5      | 0       | 0.5     |

7.4 Perfformiodd Archwilio Mewnol yn dda yn erbyn ein targedau yn 2022/23. Roedd nifer y diwrnodau ar gyfartaledd rhwng diwedd y gwaith maes archwilio a chyhoeddi adroddiad drafft yn llai na'r flwyddyn ddiwethaf ac o fewn y targed o 10 diwrnod (priodolir hyn yn rhannol i adolygiadau grant / ymgynghorol sy'n cael eu cwblhau'n gyflym).

Mae'r amser a dreulir rhwng y cyfarfod ymadael archwilio a chyhoeddi'r adroddiad terfynol yn dda hefyd, gyda nifer o adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar

yr un diwrnod â'r cyfarfod ymadael. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i gynnal cyfarfodydd ymadael trwy Teams lle gellir diweddarau dogfennau mewn amser real a'u hanfon at y rhai a archwilir yn syth ar ôl y cyfarfod.


### CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS

- 7.5 Cynhaliwyd hunanasesiad blynyddol gan y RhCAM gan ddefnyddio rhestr wirio CIPFA i asesu cydymffurfiaeth Archwilio Mewnol â'r Safonau a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol.
- 7.6 Cynhaliwyd adolygiad allanol o'r asesiad yn ystod 2022/23 gan Bennaeth Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn. Yn unol â'r Safonau, mae'n ofynnol i'r asesiad hwn gael ei gynnal bob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys.
- 7.7 Yn dilyn yr hunanasesiad mewnol a'r asesiad allanol, mae Archwilio Mewnol yn parhau i gydymffurfio'n gyffredinol â'r Safonau. Mae'r prosesau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion y Safonau a'r Cod Moeseg. Nid yw cydymffurfiaeth cyffredinol yn gofyn am gydymffurfio cyflawn / perffaith.
- 7.8 Cyflwynwyd adroddiad ar hunanasesiad 2021/22 a'r cynllun gwella dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2022 ynghyd â'r adroddiad o'r adolygiad allanol. Mae crynodeb o ganlyniadau hunanasesiad 2021/22 ac Asesu Ansawdd yn Allanol wedi'u hatodi yn Atodiad 3.
- 7.9 Fel arfer, byddem yn cymryd rhan mewn ymarfer meincnodi perfformiad gyda'r 22 aelod o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Fodd bynnag, cafodd hyn ei oedi yn ystod y pandemig, ac mae bellach yn y broses o gael ei ailgyflwyno a'i goladu.
- 7.10 Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r Safonau. Nodir unrhyw wyriadau sylweddol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 7.11 Mae'r RhCAM yn sicrhau bod yr Adran yn cydymffurfio â Chenhadaeth y Safonau, y Diffiniad o Archwilio Mewnol, y Cod Moeseg a'r Safonau fel y'u nodir yn y Siarter trwy raglen sicrhau ansawdd a gwella benodedig.

### 8 HYFFORDDIANT A DATBLYGU

- 8.1 Yn unol â'r Safonau, mae Archwilio Mewnol yn ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) rheolaidd. Cyflwynir cofnodion blynyddol o hyfforddiant a DPP i'r RhCAM er mwyn monitro anghenion hyfforddi parhaus a dyrannu gwaith i archwilwyr profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.
- 8.2 Mae'r RhCAM a'r Rheolwr Archwilio wrthi'n astudio ar gyfer cymhwyster Archwiliwr Mewnol Ardystiedig gyda Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol.
- 8.3 Enillodd yr Uwch Archwilydd y cymhwyster Technegydd Atal Twyll Achrededig yn ystod 2022/23. Mae'r RhCAM hefyd yn Dechnegydd Atal Twyll Achrededig, tra bo'r Rheolwr Archwilio yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Ymarfer Ymchwilio.

8.4 Mae'r oriau hyfforddi a gwblhawyd yn ystod 2022/23 fel a ganlyn:



Archwiliadau 2022/23 wedi'u Cwblhau

| Archwiliad  | Math              | Sicrwydd    |
|---|-------------------|-------------|
| Rheolaeth Trysorlys   | Rheolaeth Allwedd | Uchel       |
| Trethi Annomestig   | Rheolaeth Allwedd | Sylweddol   |
| Credydwyr   | Rheolaeth Allwedd | Sylweddol   |
| Mân Ddyledwyr   | Rheolaeth Allwedd | Sylweddol   |
| Adolygu Fframwaith Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 – Diweddariad | Llywodraethu      | Uchel       |
| Adolygu Fframwaith Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23               | Llywodraethu      | Uchel       |
| Parhad Busnes   | Llywodraethu      | Sylweddol   |
| GDPR mewn ysgolion  | GDPR / DP         | Sylweddol   |
| Gwiriad Iechyd Llywodraethu Gwybodaeth                                    | Risg / Sicrwydd   | Cynghori    |
| Cyfrif Harbyrau 2021/22   | Cyfrif            | Cyfrif      |
| Incwm Harbyrau  | Cyfrif Cymorth    | Sylweddol   |
| Cyngor Chwaraeon Ceredigion   | Anrhydeddus       | Anrhydeddus |
| Crwneriaid – Cymhariaeth – Adroddiad Diwygiedig                           | Cynghori          | Cynghori    |

|   |                             |          |
|---|-----------------------------|----------|
| Crwneriaid – 'Ychwanegol'   | Cynghori                    | Cynghori |
| Crwneriaid – Tendr  | Cynghori                    | Cynghori |
| Gweithdrefnau Diogelu Corfforaethol   | Diogelu                     | Canolig  |
| Data Gweithredol – Grantiau Covid yn erbyn manylion banc y gyflogres                        | Moeseg / Atal Twyll         | Cynghori |
| Cyfleuster Adennill Deunydd Archwilio Cymru – Mynd i'r Afael â Thwyll                       | Amh                         | Amh      |
| Cyfleuster Adennill Deunydd Archwilio Cymru – Menter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21 | Amh                         | Amh      |
| Canolfan Groeso Brys  | Cynghori/Llywodraethu       | Cynghori |
| Canolfan Groeso Brys – Cronfa Arian   | Cynghori/Llywodraethu       | Cynghori |
| Canolfan Llesiant Llambod   | Cynghori/<br>Ymgynghoriaeth | Cynghori |
| Darpariaeth Gorchymyn Datblygu Lleol – diogelwch  | Cynghori                    | Cynghori |
| Y Gronfa Ffyniant Bro – Asesu Risg  | Llywodraethu                | Cynghori |
| Y Gronfa Ffyniant Bro – Cofrestr Datganiadau o Fuddiannau a Lletygarwch                     | Llywodraethu                | Cynghori |
| Y Gronfa Ffyniant Bro – Cofrestr Datganiadau o Fuddiannau a Lletygarwch – UK GOV            | Llywodraethu                | Cynghori |
| Llywodraethu – Prosiectau – Ymchwiliad Arbennig   | YA                          | YA       |
| Pryniant Coll – Ymchwiliad Arbennig   | YA                          | YA       |
| Cynllun Gofal Plant – Grant Cyfalaf   | YA                          | Grant    |

|  |                     |     |
|--|---------------------|-----|
| Grant Caledi Tenantiaeth – Awst 2021                     | Grant               | Amh |
| Taliadau Costau Byw                                      | Grant               | Amh |
| Taliadau Gofalwyr Di-dâl                                 | Grant               | Amh |
| Addasiad Economaidd – Grŵp Rheoli Arian                  | Sicrwydd            | Amh |
| Grŵp Brexit  | Risg / Llywodraethu | Amh |
| Taliadau Uniongyrchol – Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu | Llywodraethu        | Amh |
| Taliadau Uniongyrchol Cam 2 – Grŵp Llywio                | Llywodraethu        | Amh |

Canllaw i'r meini prawf sicrwydd a ddefnyddiwyd:

| Lefel:                           | Uchel   | Sylweddol  | Canolig  | Cyfyngedig   |
|----------------------------------|---|--|--|--|
| <b>Digonolrwydd Rheolaethau:</b> | Rheolaethau yn eu lle i sicrhau y cyflawnir amcanion y gwasanaeth ac i ddiogelu'r Cyngor rhag risgiau arwyddocaol y gellir eu rhagweld. Ni chanfuwyd unrhyw wendidau sylfaenol. | Rheolaethau yn eu lle i sicrhau y cyflawnir amcanion y gwasanaeth ac i liniaru risgiau arwyddocaol y gellir eu rhagweld. Nodwyd rhai meysydd i'w gwella. | Rheolaethau yn eu lle i raddau amrywiol. Bylchau wedi'u nodi sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau penodol. Angen gwella.                       | Ystyrir bod rheolaethau'n annigonol. Angen cryfhau gweithdrefnau yn sylweddol a sicrhau cydymffurfiaeth.   |
| <b>Risgiau:</b>                  | Mân risgiau yn unig.  | Cyfle i wella bod yn agored i risg.  | Angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiaeth.   | Mae methu â gwella rheolaethau yn gadael y Cyngor yn agored i risg arwyddocaol (colled ariannol sylweddol, enw da, methu â chyflawni amcanion allweddol y gwasanaeth). |
| <b>Canllaw:</b>                  | Dim angen unrhyw gamau gweithredu sylfaenol neu arwyddocaol.  | Dim angen unrhyw gamau gweithredu sylfaenol. Camau gweithredu arwyddocaol cyfyngedig.  | Nifer o gamau gweithredu arwyddocaol.  | Nifer o gamau gweithredu sylfaenol / arwyddocaol.  |
| <b>Camau dilynol i'w cymryd:</b> | Archwiliad cychwynnol yn unig.  | Dilyn i fyny unrhyw gamau gweithredu arwyddocaol yn unig / hunanasesiad gyda samplau i ddangos cydymffurfiaeth.  | Archwilio Mewnol i ddilyn i fyny gyda phrofion sampl wedi'u cynnal i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu wedi'u rhoi ar waith ac i ailasesu sicrwydd. | Archwilio Mewnol i ddilyn i fyny gyda phrofion llawn wedi'u cynnal i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu wedi'u rhoi ar waith, ac i ailasesu sicrwydd.                |

## CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS

| Cyf         | Safonol, Cam Gweithredu a Gynigir ac Amserlen  | Camau Gweithredu Hyd Yma (Ch4)   |
|-------------|--|--|
| Std<br>1210 | <p>5.3.1 A oes gan y Prif Weithredwr Archwilio gymhwyster proffesiynol, fel CMIIA/CCAB neu gymhwyster cyfatebol?</p> <p><b>RhCAM i ennill cymhwyster proffesiynol CMIIA.</b></p> <p><b>O fewn 3 blynedd i'r apwyntiad.</b></p>   | <p>Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn astudio ar gyfer cymhwyster IIA.</p>  |
| Std<br>1311 | <p>5.4.5 A yw monitro perfformiad yn barhaus yn cynnwys cael adborth gan randdeiliaid?</p> <p><b>Holiaduron Rheoli Ansawdd i'w rhoi i'r rhai a archwilir. Bydd archwiliadau sydd i ddod yn anfon Holiaduron Rheoli Ansawdd i'r rhai a archwilir trwy Pentana.</b></p> <p><b>Yn ystod 2022/23</b></p>   | <p>Rhoddir Holiadur Rheoli Ansawdd i bawb a archwilir ac adroddir ar y canlyniadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Bwrdd Perfformiad bob chwarter.</p>  |
| Std<br>2010 | <p>6.1.1 A yw'r Prif Weithredwr Archwilio wedi pennu blaenoriaethau'r gwaith archwilio mewnol mewn cynllun seiliedig ar risg ac a yw'r blaenoriaethau hyn yn gyson â nodau'r sefydliad?</p> <p><b>Cynhyrchu cynllun archwilio seiliedig ar risg yn unol â chynlluniau ffyrdd gwasanaethau sy'n nodi'n glir y blaenoriaethau archwilio sy'n gyson â blaenoriaethau'r Cyngor.</b></p> <p><b>Yn ystod 2022/23</b></p> | <p>Roedd y RhCAM wedi creu'r Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2023-24 trwy gynnal asesiad risg blynyddol ac ymarfer mapio sicrwydd. Roedd y RhCAM yn blaenoriaethu gwaith i Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, gan gyfateb â'r blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor.</p> |
| Std<br>2050 | <p>6.1.15 Defnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd.</p> <p><b>System fapio sicrwydd i'w diweddarau a'i monitro mewn cyfarfodydd tîm wythnosol.</b></p> <p><b>Drwy gydol 2022/23</b></p>   | <p>Mae'r RhCAM wedi datblygu'r broses Mapio Sicrwydd i ymgorffori'r 'Model Tair Llinell Amddiffyn', gan geisio sicrwydd gan reolwyr, Archwilio Mewnol a ffynonellau allanol o sicrwydd e.e. rheoleiddwyr ac arolygiaethau. Trafodir mapio sicrwydd mewn cyfarfodydd tîm wythnosol.</p>                     |



| Cyf  | Safonol, Cam Gweithredu a Gynigr ac Amserlen   | Camau Gweithredu Hyd Yma (Ch4)  |
|------|--|---|
| 2500 | <p>6.6.1 Lle mae materion wedi codi yn ystod y broses ddilynol a yw'r Prif Weithredwr Archwilio wedi ystyried diwygio'r farn archwilio mewnol?</p> <p><b>Bydd yr archwiliadau dilynol sydd i'w cynnal yn cael eu cario ymlaen i 2022/23. Bydd tracio argymhellion ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol yn cael ei fonitro yn Pentana.</b></p> <p><b>31 Mawrth 2023</b></p> | <p>Mae'r RhCAM wedi creu taenlen monitro camau gweithredu rheolwyr. Mae camau gweithredu rheolwyr sydd heb eu cwblhau yn cael eu hailystyried a'u hasesu. Mae'r RhCAM wedi creu adroddiad ar gamau gweithredu rheolwyr a fydd yn cael ei adrodd i GAC yn rheolaidd.</p> |
| AJ   | <p>Ni chanfuwyd bod system Pentana (MKI) yn ddefnyddiol wrth weithio'n adweithiol.</p> <p><b>Mae'r system wedi cael ei gwerthuso ac mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi cael hyfforddiant ar y system. Cynllun Archwilio Mewnol yn cael ei fewnbynnu ar gyfer Ch3 a Ch4.</b></p>   | <p>Cafodd system Pentana ei hailgyflwyno i'r tîm Archwilio Mewnol. Mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi dilyn hyfforddiant uwch-ddefnyddwyr.</p>   |

# Tudalen 234

## Cydymffurfiaeth Archwilio Mewnol â Safonau 2021/22

| Cydymffurfiaeth â'r Safonau                 | Cydymffurfiaeth 2021/22  |                       |                      | Cyfanswm                  |
|---|--------------------------|-----------------------|----------------------|---------------------------|
|   | Ie                       | Rh                    | Na                   |                           |
| 1. Cenhadaeth Archwilio Mewnol              | 1                        |                       |                      | 1                         |
| 2. Diffiniad o Archwilio Mewnol             | 2                        |                       |                      | 2                         |
| 3. Egwyddorion Craidd                       | 10                       |                       |                      | 10                        |
| 4. Cod Moeseg                               | 5                        |                       |                      | 5                         |
| 5. Safonau Priodoleddau                     |                          |                       |                      |                           |
| 1000 Diben, Awdurdod a Chyfrifoldeb         | 4                        |                       |                      | 4                         |
| 1100 Annibyniaeth a Gwrthrychedd            | 21                       |                       |                      | 21                        |
| 1200 Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyladwy | 9                        | 1                     |                      | 10                        |
| 1300 Sicrhau Ansawdd a Gwella               | 14                       | 1                     |                      | 15                        |
| 6. Safonau Perfformiad                      |                          |                       |                      |                           |
| 2000 Rheoli Gwaith Archwilio Mewnol         | 14                       | 3                     |                      | 17                        |
| 2100 Natur y Gwaith                         | 10                       |                       |                      | 10                        |
| 2200 Cynllunio ar gyfer Ymgysylltu          | 12                       |                       |                      | 12                        |
| 2300 Cyflawni Ymgysylltu                    | 7                        |                       |                      | 7                         |
| 2400 Cyfathrebu Canlyniadau                 | 18                       |                       |                      | 18                        |
| 2500 Monitro Cynnydd                        | 1                        | 1                     |                      | 2                         |
| 2600 Cyfathrebu Derbyn Risgiau              | 1                        |                       |                      | 1                         |
| <b>Cyfanswm</b>                             | <b>229</b><br><b>97%</b> | <b>6</b><br><b>3%</b> | <b>0</b><br><b>-</b> | <b>235</b><br><b>100%</b> |

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

|                             |  |
|-----------------------------|--|
| <b>Adroddiad i:</b>         | <b>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</b>  |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>  | <b>21 Mehefin 2023</b>   |
| <b>Teitl:</b>               | <b>Adroddiad Archwilio Mewnol – Atal Twyll 2022/23</b>   |
| <b>Pwrpas yr adroddiad:</b> | <b>Darparu crynodeb i'r Aelodau'r o'r gwaith atal twyll mae archwilio mewnol wedi ei ymgymryd yn 2022/23</b> |

Mae Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth, ac mae'n ymgorffori barn yr adain archwilio.

Yn y gorffennol, roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys rhan ar Dwyll, i roi fraslun o'r gwaith roedd y gwasanaeth wedi ymgymryd ar y testun. Newidiwyd hwn bellach gan Adroddiad ar wahân ar gyfer Atal Twyll sy'n cefnogi'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn.

|                                      |   |
|--------------------------------------|---|
| <b>Argymhelliad:</b>                 | <b>CYMERADWYO'R Adroddiad</b>   |
| <b>Rhesymau dros y penderfyniad:</b> | <b>Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol wedi gwneud gwaith digonol a phriodol yn y testun yma i gefnogi'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn</b> |
| <b>Atodiadau:</b>                    | <b>Adroddiad Archwilio Mewnol – Atal Twyll 2022/23</b>  |
| <b>Pennaeth y Gwasanaeth:</b>        | Elin Prysor<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau<br>Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro   |
| <b>Swyddog Adrodd:</b>               | Alex Jenkins<br>Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol  |
| <b>Dyddiad:</b>                      | 24 Mai 2023   |

# GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

## LEGAL & GOVERNANCE SERVICES

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE



**ADRODDIAD ARCHWILIO 2022/23 – ATAL TWYLL**

**AUDIT REPORT 2022/23 – COUNTER FRAUD**

Paratowyd yr Adroddiad gan: Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol –  
Archwilio Mewnol

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mai 2023

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: 21 Mehefin 2022



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## ADRODDIAD ARCHWILIO 2022/23 – ATAL TWYLL

### AUDIT REPORT 2022/23 – COUNTER FRAUD

#### 1. Cyflwyniad


- 1.1 Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno'r Gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022 – 23 er mwyn lleihau risg twyll, llygredd a llwgrwobrwyo o fewn ac yn erbyn Cyngor Sir Ceredigion.
- 1.2 Bydd unrhyw dwyll yn fygythiad i'r Cyngor felly mae cryn ymrwymiad i sicrhau bod strategaeth effeithiol mewn bodolaeth i atal, ddatgelu, a chlustnodi twyll, llygredd a llwgrwobrwyo ac unrhyw gamymddygiad arall fydd yn cynnwys gwyngalchu arian.
- 1.3 Mae gan y Cyngor Strategaeth ar Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian). Mae nifer o bolisiau a gweithdrefnau'n cefnogi'r Strategaeth megis Codau Ymddygiad, Polisi Chwythu Chwiban ayb er mwyn cydnabod ymrwymiad y Cyngor o ran mynd i'r afael â thwyll a lleihau unrhyw botensial risg neu ddifrod yn sgil twyll

#### 2. Pam fod mynd i'r afael â Thwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo yn bwysig?

- 2.1 Yn ôl y Fenter Twyll Genedlaethol (Rhagfyr 2022)<sup>1</sup>, ystyrir bod Twyll yn 40% o'r holl droseddau a gyflawnir ar draws y Deyrnas Unedig ac y mae twyll yn rhywbeth y bu gwasanaethau cyhoeddus yn ymdrin ag ef ers cryn amser. Mae Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA yn ddiffinio Twyll yn eu Rhestr Termau fel:

“Unrhyw weithred anghyfreithlon â nodweddion o dwyll, cuddiad neu ymyrraeth ag ymddiriedaeth. Nid yw'r gweithredoedd yma'n ddibynnol ar fygythiad o drais neu orfodaeth corfforol. Cyflawnir twyll gan bartïon a sefydliadau er mwyn derbyn arian, eiddo neu wasanaethau; er mwyn osgoi taliadau neu gollu gwasanaethau; neu er mwyn sicrhau mantais personol eu fantais mewn busnes”.

- 2.2 Mae Deddf Twyll 2006 yn nodi tair ffordd y gall twyll gael ei wneud:



<sup>1</sup> National Fraud Initiative Report December 2022

- 2.3 Mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i ddiogelu arian ddylai gael ei ddefnyddio er budd y cyhoedd. Bydd Twyll yn medru effeithio ar air da y Cyngor gan fynd ag arian o wasanaethau cyhoeddus allweddol, a bydd yn ei dro yn effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd, cynaladwyedd ariannol ac effeithlonrwydd o fewn y sefydliad.
- 2.4 Nodau ac amcanion y Cyngor yn ei Strategaeth Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo yw atal, darganfod ac archwilio achosion o dwyll a llygredd.
- 2.5 Nodir y dulliau ar gyfer adrodd unrhyw dwyll, twyll posib, lladrad, anghysondebau, defnydd amhriodol neu gamddefnydd o eiddo neu adnoddau'r Cyngor yn Strategaeth Atal Twyll y Cyngor.
- 2.6 Gall mesurau atal twyll effeithiol y Cyngor ailadeiladu ymddiriedolaeth y cyhoedd a sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus er budd y cyhoedd.
- 2.7 Mae'n gyfrifoldeb ar holl reolwyr i sicrhau bod trefniadau a rheolau da mewn lle er mwyn atal a darganfod twyll a llygredd. Fel arfer mae achosion o dwyll yn codi os ydy mesurau rheoli'r system, prosesau risg a/neu lywodraethu'n wan, neu'n bodoli ond na chedwir atynt.

### 3. Rôl Archwilio Mewnol wrth Atal Twyll

- 3.1 Yn dilyn trosglwyddo Archwilwyr Twyll o Lywodraeth Leol i'r Adran Gwaith a Phensiynau, nid oes mwyach gan Gyngor Sir Ceredigion na nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru adnodd benodol ar draws y sir i fynd yn mynd i'r afael ag atal twyll. Yn hytrach mae Archwilio Mewnol bellach wedi eu dynodi â'r rôl atal twyll yn y Cyngor.
- 3.2 Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol (RhCAM) a'r Uwch Archwilydd yn Dechnegwyr Atal Twyll Achrededig (ACFTech) ac mae'r Rheolwr Archwilio (AM) yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwiliol (CCIP). Bydd y Cyngor o dro i dro hefyd yn hyfforddi grŵp o archwilwyr mewnol ar draws yr holl wasanaethau; ac y mae rhai staff gorfodi wedi derbyn hyfforddiant PACE.
- 3.3 Mae gan Gynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Mewnol adran ar "Atal Twyll" ac y mae gan y gwasanaeth yr hawl i gael mynediad i:
  - Fynd ar unrhyw eiddo neu dir y Cyngor ar unrhyw amser rhesymol,
  - Holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor,
  - Ofyn neu dderbyn gwybodaeth ac esboniadau angenrheidiol parthed unrhyw fater sydd i'w hystyried / archwilio,
  - Gofyn i unrhyw weithiwr o'r Cyngor roi cyfrif am unrhyw arian parod, deunyddiau neu unrhyw eiddo arall y Cyngor sydd o dan ei reolaeth, a
  - Chofnodion sydd ym meddiant trydydd parti megis contractwyr neu asiantaethau partneriaeth yn unol ag amodau'r contract perthnasol.

Mae hyn yn ffurfio rhan o Reoliadau Ariannol y Cyngor a'r Gweithdrefnau Ariannol Cysylltiedig sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

- 3.4 Bydd y RhCAM yn cyfarfod â'r Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) yn rheolaidd yn ogystal â'r Swyddog Monitro er mwyn trafod achosion o dwyll.


- 3.5 Hefyd bydd y RhCAM yn cysylltu â phenaethiaid archwilio ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n cyfarfod yn chwarterol, a byddant hefyd yn dosbarthu unrhyw ohebiaeth i aelodau yn nodi unrhyw ymdrechion / digwyddiadau twyll maent yn ymwybodol ohonynt. Mae Penaethiaid Archwilio Gogledd Cymru hefyd yn cyfarfod ac yn rhannu'r un wybodaeth.
- 3.6 Mae Penaethiaid Archwilio Gogledd Cymru wedi sefydlu is-grŵp i rannu a hyrwyddo arfer dda o ran atal twyll. Bydd y grŵp yma'n cyfarfod bob chwarter ac y mae'r Rheolwr Archwilio'n cynrychioli Tîm Archwilio Mewnol Ceredigion. Bydd y grŵp yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu gwaelodlin ar gyfer trefniadau atal twyll ar draws saith awdurdod lleol yn y gogledd a chanolbarth Cymru.
- 3.7 Pan gaiff achosion o dwyll neu weithgaredd anghyfreithlon arall eu canfod a'u hymchwilio, gall hefyd fod angen i Archwilio Mewnol gynnal archwiliad ar wahân i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd a rhoi camau ar waith i gryfhau'r mesurau rheoli. Mae'r camau unioni sy'n ofynnol yn dilyn archwiliadau o'r fath wedi eu nodi yn yr Adroddiadau Cynnydd Chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA). Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliadau dilynol lle y bo'n briodol.
- 3.8 Fodd bynnag, rhaid pwysleisio na all sicrwydd o ran twyll fyth fod yn absoliwt.

## 4. Gwaith Atal Twyll a wneir gan Archwilio Mewnol

- 4.1 Bydd Archwilio Mewnol yn derbyn sicrwydd oddi wrth wasanaethau penodol fod systemau mewn lle i ddarganfod ac atal llygredd e.e:
- Y Cyngor oedd un o'r rhai cyntaf i fabwysiadu safon e-byst diogel y Llywodraeth er mwyn cynorthwyo wrth leihau risg cyfeiriadau e-byst yn cael eu defnyddio drwy dwyll,
  - Mae'r system daliadau'n cynnwys rhaglen feddalwedd fewnol sy'n medru darganfod taliadau dyblyg,
  - Gofynnir am ddatganiadau penodol ar gyfer Gostyngiad Person Sengl o ran Treth y Cyngor a chânt eu hadolygu'n flynyddol,
  - Gweithdrefnau Darganfod Twyll Mandad mewn lle, a
  - Chanoli'r adain daliadau er mwyn lleihau anghysondebau o ran archebion ac anfonebau.
- 4.2 Mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredol i fod yn rhan o 'Fenter Twyll Genedlaethol' (NFI) Archwilio Cymru, sy'n ymarfer paru data cenedlaethol sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o risgiau twyll a wynebir gan y sector cyhoeddus. Caiff y gwaith yma ei gydlyn yn y Cyngor gan y Rheolwr Archwilio.
- 4.3 Ymhellach i waith profi'r NFI y mae ymarferion dadansoddi data pellach sy'n cydweddu â hyn lle y bo'n bosib. Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio meddalwedd ActiveData i ddadansoddi data sy'n gweithio law yn llaw ag *Excel*. Bydd y meddalwedd yma'n medru perfformio tasgau archwilio perthnasol drwy ddefnyddio technegau paru data, samplo ac elfennau eraill i ddarganfod anghysondebau.
- 4.4 Bu i Archwilio Mewnol ymgymryd ag ymarfer paru ActiveData yn 2022/23 ar gefnogaeth Covid-19 yn erbyn Cyflogres Cyngor Sir Ceredigion. Bwriedir ymgymryd ag ymarfer Atal Twyll ActiveData ychwanegol yn 2023/24 fel y nodwyd yng Nghynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y PLIA a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023.

- 4.5 Mae'n bosib y gall dylanwadau allanol all gael effaith ar wasanaethau'r Cyngor hefyd achosi archwiliad arbennig e.e. mae nifer o ymdrechion twyll yn erbyn awdurdodau lleol sy'n ceisio newid manylion cyfrif banc cyflenwr (twyll mandad). Bydd Archwilio Mewnol yn derbyn hysbysiadau oddi wrth CIPFA, NAFN (Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol) a chyrrff allanol eraill all hysbysu'r Cyngor o unrhyw dwyll corfforaethol / cenedlaethol cyffredin
- 4.6 Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw faterion penodol yn cael eu dwyn at sylw AM yn fuan a gellir ymateb iddo drwy atgyfnerthu systemau rheoli priodol ymlaen llaw.
- 4.7 Mae'n ofynnol yn ôl Archwilio Cymru i bob awdurdod adrodd manylion pob twyll i'r Archwilwyr Allanol a Chadeirydd PLIA.
- 4.8 O ganlyniad i'r argyfwng costau cyfredol mae taliadau cefnogaeth yn parhau i gael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd Archwilio Mewnol yn cefnogi'r Tîm Cyllid â mesurau Atal Twyll drwy gynnal gwiriadau dyblyg ar gyfeirnodau, enwau, cyfeiriadau, manylion banc a chyfeiriadau e-byst.
- 4.9 Bydd y RhCAM yn derbyn Rhybuddion rheolaidd oddi wrth NAFN a lle y bo'n berthnasol yn rhoi cyfarwyddyd lle y bo'n berthnasol i gynnal ymchwiliadau pellach gan y Tîm Archwilio Mewnol a/ neu rannu'r rhybudd gyda'r gwasanaethau perthnasol er mwyn codi ymwybyddiaeth neu gynnal ymchwiliad.

Mae'r siart isod yn nodi faint o Rybuddion NAFN y bu i Archwilio Mewnol ei rannu gyda gwasanaethau:



- 4.10 Bu i wasanaeth TGCh y Cyngor drefnu 'ymarfer 2 awr mewn bocs' gyda *Cybershare* ym mis Ionawr 2022, sef darparwr hyfforddiant diogelwch seiber, er mwyn darparu hyfforddiant i staff ar ymwybyddiaeth ymosodiadau Seiber.

## 5. Menter Twyll Genedlaethol


- 5.1 Mae Menter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data sy'n cynorthwyo wrth ddatgelu ac atal twyll. Gweithredir hyn yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'i bwerau paru data statudol a nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.



- 5.2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ynparu data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi twyll a gordaliadau ar lefel genedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithio gyda Swyddfa'r Cabinet, *Audit Scotland* a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod y Fenter Twyll Genedlaethol yn weithredol dros Brydain yn gyfan gwbl. Ers i'r Fenter Twyll Genedlaethol ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at ganfod ac atal gwerth dros £49.4 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru, a £2.4 biliwn ar draws y DU.
- 5.3 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn datblygu'n gyson er mwyn parhau i fod yn arf effeithiol ar gyfer canfod ac atal twyll a chamgymeriadau ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n cydnabod bod twyllwyr bob amser yn chwilio am feysydd newydd i gamfanteisio arnynt a gwneud arian ar draul pobl eraill. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ceisio gwrthsefyll y bygythiad hwn drwy weithio'n gyson gyda'r gymuned atal twyll i ddyfeisio ffyrdd newydd o ddefnyddio data i ganfod twyll ar draws y sector cyhoeddus – ar gyfer problemau twyll sy'n bodoli eisoes a thwyll newydd.
- 5.4 Mae prif ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn digwydd bob dwy flynedd ar draws setiau data lluosog, gan gynnwys Bathodynau Glas, Tocynnau Teithio Rhatach, Cynllun Gostyngiad Treth Gyngor, Rhestrau Aros am Dai, Trwyddedau, Cyflogres, Caffael, a Chredydwy'r Masnach. Mae paru rhwng data Treth Gyngor â'r Gofrestr Etholiadol yn digwydd bob blwyddyn.
- 5.5 Mae staff yng Ngheredigion wedi llwytho data ac yn ymgymryd â gwaith ar adroddiadau 2022-23. Gall y paru data hwn olygu bod modd canfod hawliadau a thaliadau twyllodrus ar draws amryw o wasanaethau'r Cyngor, ac mae'n fuddiol o ran lleihau'r perygl o dwyll o fewn yr Awdurdod.


## 6. Ymgais Twyll 2022/23

- 6.1 Bydd gwasanaethau'n rheolaidd yn adrodd achosion ymgais o dwyll i Archwilio Mewnol a TG (lle y bo'n briodol e.e. e-byst gwe-rwydo neu amheus, twyll seiber ayb). Mae'r siart canlynol yn nodi faint o adroddiadau fesul gwasanaeth a dderbyniwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23:



- 6.2 Canfuwyd pump achos o fandad gyflogres gan staff y gyflogres yn ystod y

flwyddyn. Adroddwyd y ddau yma i Archwilio Mewnol. Roedd un achos o e-bost gwe-rwydo a dderbyniwyd gan dîm y Gyflogres a 3 achos pellach o e-byst amheus a dderbyniwyd gan dîm y gyflogres a chaffael.



### 7. Risg Twyll sy'n bodoli eisoes a Twyll newydd

- 7.1 Ers pandemig Covid-19, gorfodwyd i fwyafrif o wasanaethau'r Cyngor weithio ar-lein, ac roedd hyn yn wir hefyd am droseddwr. Wrth i'r Cyngor ddatblygu dulliau newydd o weithio, a'r posibilrwydd o reoli mewnol mwy gwan mae mwy o risg am 'fygythiad mewnol' o dwyll yn ogystal â bygythiadau allanol.
- 7.2 Yn ôl Adroddiad Cenedlaethol 2020 CIPFA y prif feysydd o dwyll (yn ôl nifer) mewn Awdurdodau Llywodraeth Leol yw Treth y Cyngor, Parcio i'r Anabl (Bathodynau Glas), Twyll Tai a Thenantiaid a Threthi Busnes. Mathau eraill o dwyll a welir yn aml mewn Awdurdodau Llywodraeth Leol yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Yswiriant, Caffael, Cyflogres ac Adnoddau Dynol a thwyll mandad neu grant.
- 7.3 Yn sgil yr argyfwng costau byw a chyfraddau chwyddiant uchel mae risgiau critigol eraill i fusnes wedi cynyddu o ran cyfleoedd twyll megis cadw staff a bygythiadau seiber. Bydd twyllwyr yn achub mantais o'r sefyllfa drwy ddefnyddio offer sy'n fwy fwy soffistigedig i droseddu.

### 8. Casgliad

- 8.1 Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i edrych am fesurau atal twyll wrth ymgymryd ag archwiliadau a chynghori rheolwyr ac adrannau am ddulliau o gryfhau'r camau rheoli yma lle y bo hynny'n briodol.
- 8.2 Bydd y RhCAM yn parhau i drafod twyll a rheoliadau mewnol gyda'r Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro a'r Rheolwyr Uwch er mwyn gwella'r diwylliant o amgylch twyll a gwella mesurau gwrth twyll gwasanaethau a rheolau mewnol, a thrwy hynny lleihau risg twyll.

Mae Archwilio Mewnol yn cynllunio asesiad risg twyll ar draws y Cyngor yn gyfan gwbl er mwyn cael cymorth pellach ar fesurau gwrth twyll ar draws y Cyngor a chynllunio Archwilio Mewnol yn fwy effeithiol.

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Dyddiad y cyfarfod:** Mehefin 21<sup>ain</sup> 2023

**Teitl:** Cofrestr Risgiau Corfforaethol

**Pwrpas yr adroddiad:** Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

**Portffolio'r Cabinet ac Aelod Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor y Cabinet ac Aelod y Cabinet ar gyfer Polisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd**

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Cynhaliwyd adolygiad o'r statws risg diweddaraf yng nghyfarfod y Grŵp Arweiniol ar 24.5.23 lle trafodwyd a chytunwyd ar ymgeiswyr ar gyfer dyrchafu / israddio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

**Isgyfeiriwyd o gorfforaethol i wasanaeth**

R004: Parhad Busnes – mae'r sgôr risg gyffredinol wedi gostwng i 12 gan fod prosesau a strwythurau wedi bod yn eu lle sydd yn ddibynadwy gyda digwyddiadau sylweddol. Mae cynlluniau wrth gefn a threfniadau busnes yn eu lle sy'n rhoi sicrwydd nad oes angen iddo fod ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

R015: Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch - mae'r sgôr risg gyffredinol wedi gostwng i 9 wrth i adnoddau diogelu'r cyhoedd gael eu dargyfeirio i glirio'r ôl-groniad ac mae camau lliniaru wedi bod yn llwyddiannus.

R018: Covid-19 – mae'r sgôr risg gyffredinol wedi gostwng i 9 gan fod Covid-19 wedi'i isgyfeirio ar lefel genedlaethol.

**Uwchgyfeiriwyd o wasanaeth i gorfforaethol**

Dim

Mae Atodiad A yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddiweddaraf.

Mae'r sgôr risg ar gyfer R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch wedi cynyddu i 20. Roedd mesurau lliniaru blaenorol yn annigonol i atal risgiau rhag cynyddu. Felly, mae mesurau lliniaru newydd wedi eu rhoi mewn lle er mwyn lleihau'r risg. Y rhain yw:

1. Datblygu adolygiad rheolaidd ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth
2. Ailstrwythuro i ganolbwyntio adnoddau ac arbenigedd yn well
3. Mudo data a chynnwys i leoliadau mwy addas
4. Gweithredu amgryptiad segur

Mae cam gweithredu lliniaru newydd wedi'i ychwanegu at R017: Diogelu – gweithredu'r strwythur Llesiant Gydol Oed diwygiedig i wella'r gweithgarwch o ran Sicrhau Ansawdd a Diogelu Strategol a Lles Meddyliol a Chamdddefnyddio Sylweddau ym Mhorth Cynnal.

Mae'r holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac maent yn cynnwys statws RAG diwygiedig o gamau lliniaru a sylwadau wedi'u diweddarau.

**Argymhelliad: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sydd wedi'i diweddarau**

**Rheswm dros y penderfyniad: Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli Risgiau Corfforaethol yn briodol yn unol â'r Strategaeth a'r Fframwaith Risgiau Corfforaethol**

**Atodiadau:** Atodiad A – Cofrestr Risgiau Corfforaethol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

**Swyddog Adrodd:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd)

**Dyddiad:** 24<sup>ain</sup> Mai 2023

# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

---



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council























## Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

|   |            |
|---|------------|
| Adolygwyd a diweddarwyd gan y Grŵp Arweiniol ar                       | 24/05/2023 |
| Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei monitro oedd | 09/03/2023 |
| I'w chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio                  | 21/06/2023 |




# Cofrestr Risgiau Corfforaethol

## Cynnwys a Chrynodeb




Tudalen 246

| Teitl y Risg  | Perchennog                              | Statws y Risg |   |   |
|---|---|---------------|---|---|
|   |   | Sgôr          | Statws  | Tuedd   |
| R004: Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl          | Diana Davies                            | 12            |    |    |
| R005: Cynllun Ariannol Tymor Canolig                    | Duncan Hall                             | 20            |    |    |
| R006: Rhaglen Llesiant Gydol Oed                        | James Starbuck                          | 15            |    |    |
| R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch | Alan Morris                             | 20            |    |    |
| R015: Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch     | Carwen Evans                            | 9             |    |    |
| R017: Diogelu   | Audrey Somerton-Edwards                 | 15            |    |    |
| R018: Covid-19  | Alun Williams                           | 9             |   |   |
| R019: Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol/Llifogydd      | Russell Hughes Pickering / Rhodri Llwyd | 25            |  |  |
| R020: Clefyd Coed Ynn                                   | Rhodri Llwyd                            | 20            |  |  |
| R021: Ffosffadau  | Russell Hughes-Pickering                | 20            |  |  |
| R022: Recriwtio a Chadw                                 | Geraint Edwards                         | 15            |  |  |

### Allwedd y Risg

|   |       |             |
|---|-------|-------------|
|  | Red   | High Risk   |
|  | Amber | Medium Risk |
|  | Green | Low Risk    |

### Trend Key

|   |                          |
|---|--------------------------|
|  | Risk score has increased |
|  | No change to risk score  |
|  | Risk score has decreased |

# Risg Gorfforaethol R004 Parhad Busnes

Tudalen 247

Perchennog: Rheolwr Corfforaethol Diana Davies

**Disgrifiad**



Mae peidio â meddu ar gydnerthedd busnes neu ddelio â digwyddiadau brys yn debygol o effeithio'n fawr ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol ac ar fywydau pobl yn ein cymunedau.

**Y Canlyniadau Posibl**

Mae nifer o risgiau sefydliadol a risgiau i ddinasyddion yn gysylltiedig â threfniadau gwael ar gyfer parhad busnes a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil posibl gan y gallai gwasanaethau gael eu heffeithio yn ystod digwyddiadau, a gall digwyddiadau mawr fod â chanlyniadau uniongyrchol a hirdymor, gan gynnwys peidio â darparu gwasanaethau hanfodol, anafiadau/marwolaethau, hawlio iawndal, difrod i eiddo, sylw negyddol yn y cyfryngau, ac ymchwiliadau cyhoeddus.

**Tystiolaeth o'r Risg**

Gall ymosodiadau meddalwedd wystlo amharu'n fawr ar ein gwaith a golygu llawer o amser adfer er mwyn ail-alluogi gwasanaethau hanfodol. Gall y digwyddiadau hyn fod yn rhai proffil uchel hefyd gan ennyn diddordeb eang yn gyhoeddus ac yn y cyfryngau. Wrth i'r rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu'n ddigidol ac o bell erbyn hyn (o ganlyniad i Covid), byddai'n arwain at ganlyniadau trychinebus i'n gallu i weithredu. Mae cynlluniau parhad busnes sydd wedi'u hymarfer a'u profi'n dda gennym ar gyfer senarios megis colli pŵer mewn adeiladau, llifogydd, boeleri neu'r pŵer yn methu, prinder tanwydd a digwyddiadau eraill sy'n gyfyngedig yn ddaearyddol, megis ar gyfer gwasanaethau unigol ac amserlenni gweddol gyfyngedig. Mae meddalwedd wystlo yn her arbennig oherwydd byddai'n amharu ar yr holl TGCh am gyfnodau amhenodol.



| Camau Lliniaru  | Erbyn Pryd  | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|---|-------------|-----|------|------|-----|
| R004T03: Sicrhau bod cyfarfodydd cynllunio parhad busnes mewnol yr awdurdod cyfan yn effeithiol                               | 31 Maw 2024 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R004T04: Datblygu, mireinio a phrofi cynlluniau Parhad Busnes   | 31 Maw 2024 | ●   | ●    | ●    | ★   |
| R004T05: Cymryd rhan a chyfrannu at grwpiau cydlynu Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys, a diweddarau Cynlluniau Argyfwng | 31 Maw 2024 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R004T06: Sicrhau bod cyfarfodydd mewnol Seibergadernid yn effeithiol  | 31 Maw 2023 | ★   | ★    | ★    | ✘   |
| 004T07: Adolygu Cynlluniau Argyfwng i sicrhau bod ymateb i ymosodiad meddalwedd wystlo yn cael ei gynnwys                     | 31 Maw 2023 | ●   | ●    | ●    | ★   |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r rhan fwyaf o'r camau lliniaru wedi'u cyflawni'n llwyddiannus yn ystod y cyfnod adrodd felly mae'r sgôr effaith risg wedi'i gostwng o 5 i 4. Bydd un cam lliniarol yn cael ei ddileu o'r adrodd ar gyfer y cyfnod nesaf gan ei fod yn cyd-fynd â'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn R009 Bydd pedwar o'r camau lliniaru yn parhau wrth symud ymlaen gan eu bod yn allweddol i sicrhau bod y sgôr risg yn cael ei chadw mor isel â phosibl. Mae'r grŵp Rheoli Parhad Busnes Argyfwng mewnol yn cyfarfod bob chwarter a chaiff ei gadeirio gan Ddeiliad Portfolio'r Cabinet ac mae Arweinydd y Cyngor yn ei fynyachu. Roedd y cyfarfod diweddaraf yn canolbwyntio ar y bygythiad o Doriad Pŵer Cenedlaethol a ddilynodd Ymarferion Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys (Lemur) a'r DU (Mighty Oak) i archwilio'r effeithiau a thynnu sylw at yr ymateb a'r parodrwydd pe bai Toriad Pŵer Cenedlaethol yn digwydd. Bydd y gwaith a'r hyn a ddysgir o'r ymarferion hyn gan swyddogion Cyngor Sir Ceredigion yn helpu i ffurfio'r sail ar gyfer datblygu Cynllun Toriad Pŵer Cenedlaethol Ceredigion. Yn dilyn adolygiad archwilio mewnol ac argymhelliad, bydd fersiwn diwygiedig o dempled y Cynllun Parhad Busnes yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rheoli Parhad Busnes Argyfwng a fydd yn cynnwys ystyried amseriad a hyd digwyddiadau posibl. Mae gan yr holl wasanaethau Gynlluniau Parhad Busnes cyfredol sy'n cael eu hadolygu'n barhaus yn unol â thrafodaethau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt o gyfarfodydd y Grŵp Rheoli Parhad Busnes Argyfwng. Argymhelliad arall o'r adolygiad Archwilio Mewnol oedd creu dogfen yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau i gydymffurfio â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae hwn wedi'i baratoi a bydd yn sail i gynllun cyflawni a fydd yn cynnwys cylchoedd adolygu cynlluniau argyfwng a chynlluniau parhad busnes rhanbarthol a lleol ac yn llywio gwaith y Grŵp Rheoli Parhad Busnes Argyfwng. Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwneud yn llawn â grwpiau niferus Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys megis: Grŵp Cydlynu Strategol, Grŵp Cydlynu a Hyfforddi, Parhad Busnes, Grwpiau Risg ac Iechyd. Mae Swyddogion yr awdurdod lleol hefyd yn cadeirio'r Grwpiau Adfer a Seiber a Seilwaith Digidol. Dau gynllun Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd yw'r Cynllun Parhad Marwolaethau Ychwanegol a'r Cyd-lawlyfr Gweithdrefnau Digwyddiadau Mawr. Mae cyfarfodydd misol y grŵp Cynnerthedd Seiber yn cael eu cynnal. Mae llawer yn dod i'r cyfarfodydd gydag agenda dda o eitemau yn cael eu trafod a chamau gweithredu cadarn yn cael eu rhoi ar waith. Mae adroddiadau ar y prif bwyntiau yn cael eu bwydo bob mis i'r Grŵp Arweiniol gan sicrhau bod llywodraethu yn ei le.

# Risg Gorfforaethol R005 Cynllun Ariannol Tymor

## Canolig

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Duncan Hall

### Disgrifiad



Bydd lleihau cyllid craidd a chyllid allanol yn arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir mewn rhai meysydd. Bydd peidio ag addasu, gweithredu'r arbedion a nodwyd ac ystyried modelau gwahanol o ran darparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ac ar gyfrifoldebau

### Y Canlyniadau Posibl

- Risg o beidio â chwrrd â'r terfynau amser o ran pennu'r gyllideb statudol.
- Risg y bydd llai o adnoddau, llai o amser i roi newidiadau i wasanaethau ar waith, neu fetu â blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethu corfforaethol, yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau.
- Risg na fydd y cynlluniau arbedion a nodwyd yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad.
- Risg bod y gwaith o bennu'r gyllideb yn flynyddol yn rhwystro'r broses gynllunio ar gyfer y tymor hwy

### Tystiolaeth o'r

- Nododd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol (a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2022) angen posibl i arbed tua £15m erbyn mis Mawrth 2025.
- Mae hon wrthi'n cael ei ddiweddarau, ond gydag arbedion o £8.8m wedi bod yn ofynnol ar gyfer Cyllideb 23/24 a chynnydd dangosol o 3.1% i Gymru gyfan ar gyfer 24/25 (a fyddai ond yn darparu cynnydd cyllid o £4m), mae lefel yr arbedion yn debygol iawn o fod yn uwch na'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol.
- Mae lefel cyllid allanol cyfun Llywodraeth Cymru wedi gostwng dros y blynyddoedd o tua 80% i lawr i ychydig dros 70% o'r gyllideb refeniw, gan roi llawer mwy o faich ar gyllid a godir yn lleol drwy Dreth y Cyngor.
- Mae lefelau chwyddiant uchel yn dal i gael eu gweld mewn nifer sylweddol o feysydd, ac yn bennaf oll mae Tâl Gweithwyr sy'n rhan sylweddol o'r Gyllideb yn ogystal â chwyddiant Ynni, Bwyd a Chontractwyr / Darparwr.
- Cydnabuwyd llawer o'r rhain a darparwyd ar eu cyfer yng Nghyllideb 23/24, fodd bynnag y risg yw bod chwyddiant (ac felly pwysau costau) yn parhau i fod yn uchel am gyfnod hwy.
- Mae 'Gwneud Pethau'n Wahanol': Dull Corfforaethol o Weithredu' newydd bellach ar waith ac yn dechrau cyflawni ar gyfer 23/24. Mae'r Strategaeth Gydol Oed a Llesiant newydd hefyd yng nghyfnodau cynnar ei thaith weithredu ac mae sawl prif ffrwd ariannu Economaidd naill ai'n dwyn ffrwyth neu'n agos at ddwyn ffrwyth. Bydd angen i'r Rhaglenni hyn gyflawni ar draws y tymor canolig, yn ogystal â pharhau i fanteisio ar gyfleoedd Buddsoddi i Arbed pan fyddant yn codi.
- Mae hanes cadarn blaenorol yn bodoli o fantoli Cyllidebau a sefyllfa gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn o ran Alldro gydag opsiynau diamed Archwilio Cymru o fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae Mantolen y Cyngor ar 31/03/2022 yn gryf sy'n cyfrannu at gydnerthedd ariannol cryf.
- Mae enghreifftiau o Risgiau Gwasanaeth unigol sy'n dod o fewn y Risg Gorfforaethol gyffredinol hon e.e. Methiant posibl i gynnal rhwydwaith y Prifffyrdd i safonau derbyniol os nad oes digon o arian yn cael ei ddyrannu, cyllid annigonol i alluogi rhaglen adnewyddu fflyd cerbydau gynhwysfawr (gan gynnwys y newid i Sero Net) a risg y gallai'r arbedion sy'n ofynnol mewn Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig gael effaith fawr ar ddarpariaeth mewn rhai ysgolion.



| Camau Lliniaru   | Erbyn Pryd   | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|--|--------------|-----|------|------|-----|
| R005T01: Parhau â'r trefniadau o ran rheolaeth ariannol  | 31 Ma 2024 w | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R005T03: Sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd o ran trawsnewid a gwasanaethau yn cael eu datblygu a'u gweithredu                   | 31 Ma 2024 w | ★   | ●    | ★    | ★   |
| R005T04: Diweddarau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i adlewyrchu lefel ddangosol o 3.1% o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25 | 30 Meh 2023  |     |      | ●    | ●   |



### Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r sefyllfa bresennol yn y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 22/23 wedi bod yn heriol yn bennaf oherwydd dyfarniadau cyflog a oedd bron ddwywaith y lefel a gyllidebwyd yn wreiddiol. Yn ogystal, mae effaith chwyddiant i'w gweld mewn sawl gwasanaeth (e.e. Tanwydd, contractau Trafnidiaeth, Deunyddiau). Cymerwyd amryw o gamau lliniaru i reoli'r sefyllfa, gyda'r gyllideb sylfaenol yn cael ei hail-alinio fel rhan o broses pennu Cyllideb 23/24. Dylai'r sefyllfa alldro derfynol y gellir ei rheoli fod ar gael erbyn diwedd Mai 2023 a rhagwelir sefyllfa weddol gytbwys, er y defnyddir rhai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd mewn meysydd penodol i gyflawni hyn. Rhoddodd Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru gynnydd cyllid o 8.1% (£9.6m) ar gyfer 23/24. Fodd bynnag, gyda thua £22m o bwysau Costau (sy'n cyfateb i gyfradd chwyddiant o dros 13%), mae hynny'n dal i arwain at arbedion o tua £9m ar gyfer 23/24 a chynnydd o 7.3% yn Nhrefn y Cyngor. Mabwysiadwyd dull newydd o weithredu o ran Arbedion y Gyllideb a oedd yn cynnwys adolygiad o benawdau cyllideb Corfforaethol (£2.9m), Cyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr Gostyngol y Gronfa Bensiwn (£0.8m), terfyn ar y cynnydd a gymhwyswyd i gyllidebau Ysgolion Dirprwyedig (£2.1m) a Rhaglen Arbedion aml-flwyddyn newydd o'r enw 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu' wedi'i rhoi ar waith (£3m ar gyfer 23/24 a chynigion cychwynnol pellach ar gyfer y 2 flynedd y tu hwnt i hynny). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyllid Setliad Cyllid Llywodraeth Leol 24/25 o 3.1% yn unig ar gyfartaledd (a fyddai'n rhoi £4m ychwanegol). Ni chytunir ar ddyfarniad Cyflog Staff Cyffredinol ar gyfer 23/24 ac mae'r Undebau wedi gwrthod cynnig sy'n fwy na'r Ddarpariaeth Gyllideb gyffredol o tua 0.6m (ar ôl darparu ar gyfer y swm Wrth Gefn a neilltuwyd ar gyfer Cyflogau ac Ynni). Mae'r rhain a ffactorau eraill yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddarau sydd i'w gwblhau yn ystod Ch1 2023/24. Bydd y canlyniad yn arwain at her ariannol sylweddol yn y tymor canolig.

# Risg Gorfforaethol R006 Rhaglen Llesiant Gydol Oed

Perchennog: Cyfarwyddwr Corfforaethol James Starbuck

## Disgrifiad

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed wedi'i sefydlu a'i datblygu i drawsnewid y ffordd y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Felly bydd y rhaglen yn goruchwyllo datblygiad gwasanaethau a thrawsnewid gofal cymdeithasol. Bydd methu â chyflawni hyn yn creu risg y bydd yr awdurdod yn peidio â bodloni ei ofynion statudol a deddfwriaethol a'r heriau a wynebir gyda'r pwysau cynyddol ar gyllidebau gofal cymdeithasol.



Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed yn symud ymlaen i ddatblygu a gweithredu trefniadau gwasanaethau a strwythur staffio i gefnogi'r pwyslais ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan. Bydd angen rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o ail-gydbwysio gwasanaethau.

## Y Canlyniadau Posibl

- Anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol ar draws pob oed
- Colli cyfleoedd i ddatblygu cymunedau cydnerth a gofalgar
- Cynnydd parhaus yn yr hyn sy'n cael ei wario i ddarparu gwasanaethau sydd â chost uchel
- Anallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau
- Heb fodloni dyletswyddau statudol a gofynion deddfwriaethol

## Tystiolaeth o'r

- Pwysau parhaus ar gyllidebau gofal cymdeithasol
- Cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n derbyn gwasanaethau statudol ar gyfer gofal a chymorth wedi'i gynllunio
- Angen darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan yn unol â deddfwriaeth
- Cyfnod hir o 'Broses rheoli newid' yn effeithio ar y gweithlu
- Anawsterau wrth gadw a recriwtio staff



| Camau Lliniaru   | Erbyn Pryd   | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|--|--------------|-----|------|------|-----|
| R006T01: Cyflwyno adroddiadau i'r bwrdd prosiect ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r model newydd ar gyfer gwasanaethau. | 30 Medi 2023 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R006T03: Sicrhau bod rhaglenni Adnoddau Dynol/y Gweithlu yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r gweithdrefnau rheoli newid           | 30 Meh 2023  | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R006T05: Craffu'n rheolaidd ar y cyllidebau a'r goblygiadau ariannol o ran gweithredu'r model newydd.                              | 31 Maw 2023  | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R006T07: Cyfathrebu a Llesiant Gydol Oed i'w gytuno a'i weithredu  | 30 Medi 2023 | ★   | ★    | ★    | ★   |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Cynnydd parhaus gyda Chynllun Gweithredu Llesiant Gydol Oed a chydâ'r ffrydiau gwaith penodol. Mae'r rhan fwyaf o'r ailstrwythuro wedi'i gwblhau ac mae bellach wedi'i ymgorffori fel rhan o'r model. Mae'r gydran derfynol (Gwasanaethau Uniongyrchol) yn mynd rhagddi ac mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid gwasanaethau i'w gynnal yn Ch1 2023/24. Tra bod y model Gydol Oed a Llesiant yn lleihau'r tebygolrwydd o risg, mae hyn yn cael ei wrthbwysio gan y galw ar wasanaethau sy'n parhau i dyfu. Yn bwysig, mae Swyddogion yn parhau i gynnal gwasanaeth diogel. Mae recriwtio ar draws yr holl dimau staff yn heriol iawn, gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol yng Nghymru a ledled y DU. Felly mae recriwtio a chadw yn parhau i fod yn ffocws allweddol ac rydym yn parhau i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol newydd bob blwyddyn ac yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu cyrsiau addysgol lleol gyda phartneriaid Addysg Uwch yn y Sir. Mae Uwch Swyddogion yn monitro cynnydd trwy Fwrdd Rhaglen Llesiant Gydol Oed bob mis yn ogystal â'r holl Swyddogion allweddol yn cyfarfod bob wythnos. Mae recriwtio, yn gorfforaethol, wedi ei adnabod fel risg i'r Cyngor.

# Risg Gorfforaethol R009 Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alan Morris

## Disgrifiad



Bydd peidio â sicrhau bod gennym drefniadau gwybodaeth, TGCh, diogelwch a chydymffurfiaeth yn eu lle yn effeithio ar allu'r Awdurdod i addasu i newid, gwella ei wasanaethau, a chyfathrebu mewn modd effeithiol â dinasyddion ac unigolion eraill sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

## Y Canlyniadau Posibl

Bydd peidio â chael systemau seiberddiogelwch cadarn ar waith yn effeithio ar ddarparu pob gwasanaeth, gan olygu na fydd mynediad neu fynediad cyfyngedig at systemau gwybodaeth sy'n allweddol ar gyfer cyflenwi busnes. Gallai prosesau Rheoli Gwybodaeth annigonol ac ymwybyddiaeth annigonol staff mewn perthynas â rheoli data personol arwain at gamddefnyddio/golli data, a gallai hynny olygu peidio â chydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a gall beri gofid i'r sawl y mae ei ddata wedi cael ei gamreoli. Bydd peidio â rheoli'r holl ddata mewn modd sy'n unol â'r gyfraith yn arwain at ddirwy fawr bosibl gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn tansellio enw da yr Awdurdod. Bydd darparu gwasanaethau digidol yn cynyddu'r galw am wasanaethau TGCh ac ymosodiadau seiber posibl, a rhaid cael adnoddau digonol ar gyfer hyn o ran costau staffio a seilwaith.

## Tystiolaeth o'r

- Ni chafodd dim digwyddiadau mawr o fygythiadau seiber allanol eu hadrodd ac mae mân ymosodiadau wedi cael eu rheoli heb golli gwasanaeth
- Mae pob seilwaith TGCh yn parhau i gael ei chywiro i'r lefel ofynnol, a llwyddwyd i sicrhau'r achrediad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Ni roddwyd gwybod am unrhyw achos mawr o golli data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Mae cyrsiau ymwybyddiaeth o wybodaeth yn parhau i gael eu cynnal, yn ogystal ag arferion o gydweithio mewn modd rhagweithiol â meysydd gwasanaethau er mwyn sicrhau bod eu data yn cael ei gadw mewn modd diogel a phriodol.
- Bu'r staff yn bresennol mewn hyfforddiant seiber i sicrhau ein bod dal gennym lefel dda o ddiogelwch wrth i'r risgiau o ymosodiad o'r tu allan gynyddu.
- Cydymffurfir â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a chynnal Hysbysiadau Preifatrwydd a sicrhau cydsyniad lle bo angen.



| Camau Lliniaru  | Erbyn Pryd  | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|---|-------------|-----|------|------|-----|
| R009T04: Parhau ag Archwilio Data ar draws pob maes gwasanaeth                                  | 31 Maw 2024 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R009T05: Gweithredu amserlen cadw cofnodion a gymeradwywyd                                      | 31 Maw 2024 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R009T06: Cefnogi pob maes Gwasanaeth i ddatblygu cynlluniau parhad Busnes Seiberddiogelwch      | 31 Maw 2023 | ★   | ★    | ★    | ✘   |
| R009T08: Datblygu adolygiad rheolaidd ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth | 31 Maw 2024 |     |      |      |     |
| R009T09: Ailstrwythuro i ganolbwyntio adnoddau ac arbenigedd yn well                            | 31 Maw 2024 |     |      |      |     |
| R009T10: Mudo data a chynnwys i leoliadau mwy addas   | 31 Maw 2024 |     |      |      |     |
| R009T11: Gweithredu amgryptiad segur  | 31 Maw 2024 |     |      |      |     |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Roedd mesurau lliniaru blaenorol yn annigonol i atal risgiau rhag cynyddu. Felly, mae mesurau lliniaru newydd wedi eu rhoi mewn lle er mwyn lleihau'r risg. Mae nifer o fân achosion o dor diogelwch data wedi digwydd yn ystod y chwarter diwethaf, a achoswyd yn bennaf gan gamgymeriadau dynol. Ymchwiliwyd i'r rhain a rhoddwyd argymhellion a chyngor. Ni chafwyd dim toriad sylweddol na cholli data. Mae gwaith Llywodraethu Gwybodaeth bron wedi'i gwblhau gydag uwchraddio i drwyddedu Microsoft wedi'i gaffael a fydd yn caniatáu gweithredu cadw a labelu yn y flwyddyn i ddod. Mae gwelliannau diweddar i systemau cywiro yn gweithio'n dda ac yn lliniaru

## Tudalen 252

llawer o risgiau seiberddiogelwch. Fodd bynnag, mae'r lefelau bygythiad uwch a rhybuddion gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn parhau i godi pryderon am sawl bygythiad i seilwaith TG y DU. Mae TG Ceredigion yn aelod gweithgar o Grŵp Cydnerthedd Seiberddiogelwch Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i wrthsefyll y bygythiadau hyn ac i rannu gwybodaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

# Risg Gorfforaethol R015 Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch

Perchennog: Rheolwr Corfforaethol Carwen Evans

## Disgrifiad



Gall peidio â chynnal arolygiadau digonol a chyson o safleoedd risg uchel, nac arolygiadau amserol o safleoedd newydd, olygu bod busnesau yn cael cymorth annigonol a allai arwain at safonau gwaeth, gan effeithio ar y busnes ei hun a'r economi leol. Os na fydd y Cyngor yn bodloni ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gallai hynny arwain at risg o danseilio ei enw da.

## Y Canlyniadau Posibl

Mae'r prif ganlyniadau ar gyfer y Cyngor yn rhai gwleidyddol, a allai danseilio'i enw da ac arwain at wasanaethau gwaeth i fusnesau a'r effaith ar ddinasyddion y Sir. Gwenwyn bwyd yw'r prif risg a allai o bosibl gael effaith ddifrifol ar ddinasyddion. Gallai hyn arwain at adroddiadau rheoleiddio gwaeth, ymyrraeth a cholli hyder mewn sector busnes pwysig, a allai effeithio ar fywiogrwydd a hyfywedd yr economi leol.

## Tystiolaeth o'r

Ers aildechrau arolygiadau o safleoedd bwyd yn ystod rhan olaf y pandemig, mae arolygiadau wedi'u cynnal yn unol â'r cerrig milltir a nodir yng Nghynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd aruthrol o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad o arolygiadau, ac er nad yw pob un wedi'i gwblhau, bydd y rheini sy'n parhau i fod angen arolygiad yn cael eu blaenoriaethu yn chwarter 1 2023/24. Mae recriwtio staff cymwys o ran bwyd yn her, ac mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn hyfforddi ac yn datblygu rhai o'r staff presennol i ddod yn gymwys i gynnal arolygiadau o safleoedd bwyd. Yn ystod y pandemig cafodd dau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd profiadol eu hadleoli i gyflawni dyletswyddau cysylltiedig â Covid-19. Tra bod un swyddog yn parhau i gyflawni'r dyletswyddau hyn, sy'n cynnwys dyletswyddau atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau risg uchel megis cartrefi gofal, mae'r ail swyddog wedi dychwelyd i dîm Diogelu'r Cyhoedd a fydd yn darparu adnoddau ychwanegol.



| Camau Lliniaru   | Erbyn Pryd  | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|--|-------------|-----|------|------|-----|
| R015T02: Blaenoriaethu sefydliadau bwyd yr ystyrir eu bod yn risg uchel a/neu ddim yn cydymffurfio | 31 Maw 2024 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R015T06: Uwchsgilio staff presennol i fod yn gymwys i gynnal arolygiadau diogelwch bwyd            | 31 Maw 2024 | ●   | ●    | ★    | ★   |
| R015T07: Cynnal ymarfer caffael i gyflogi contractwyr arbenigol i ddarparu adnoddau ychwanegol     | 31 Maw 2024 | ●   | ●    | ★    | ★   |
| R015T10: Arolygu pob sefydliad bwyd risg uchel yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd               | 31 Maw 2024 | ●   | ●    | ●    | ●   |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i arolygu sefydliadau bwyd yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynhaliwyd cyfanswm o 151 o arolygiadau hylendid bwyd risg uchel yn ystod y chwarter diwethaf. Hefyd, cynhaliwyd 12 o ail-ymweliadau statudol â'r safleoedd hynny nad oeddent yn cydymffurfio i gadarnhau bod y gwelliannau gofynnol wedi'u cyflawni'n foddhaol. Cyflogwyd contractwyr bwyd arbenigol hefyd i gynorthwyo'r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o arolygiadau. Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau 92% o'r holl arolygiadau risg uchel wedi'u rhaglennu yn ystod y flwyddyn. Dim ond 29 o safleoedd oedd heb fod yn destun arolygiad wedi'i raglennu, ac maent wedi'u blaenoriaethu ar gyfer arolygiad yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Mae hyfforddiant yn parhau i gael ei roi i swyddogion gynnal arolygiadau bwyd risg uchel. Ar hyn o bryd mae 9 o swyddogion bwyd sy'n gymwys o ran bwyd yn y tîm. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at allu'r awdurdod i gydymffurfio â gofynion cynllun adfer yr ASB. Cwblhaodd Swyddog Diogelu'r Cyhoedd y cymhwyster, ac asesiad o gymhwysedd yn llwyddiannus ym mis Mawrth 2023, ac mae swyddog arall yn sefyll y cymhwyster a disgwylir iddo gyflawni'r un peth tua mis Mawrth 2024. Mae'r awdurdod yn parhau i fuddsoddi mewn swyddogion i feithrin cydnherthedd yn y gwasanaeth, ac i fodloni gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Cod Ymarfer. Mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa llawer cryfach o ran arolygiadau bwyd risg uchel nag yr oedd y llynedd.

# Risg Gorfforaethol R017 Diogelu

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro Audrey Somerton-Edwards

## Disgrifiad



Risg o fethiant i gynnal dyletswyddau statudol y sefydliad mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn ystod y cyfnod pontio i'r Model Darparu Gwasanaethau Integredig.

## Y Canlyniadau Posibl

Mae risg y gallai plant, pobl ifanc ac oedolion ddiodesdef niwed sylweddol a allai arwain at effaith andwyol ar enw da'r corff corfforaethol ynghyd ag effaith gyfreithiol ac effaith ariannol.

## Tystiolaeth o'r Risg

- Cynnydd mewn atgyfeiriadau oherwydd newidiadau deddfwriaethol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ac effaith Covid-19 ar unigolion a grwpiau sy'n agored i gamdriniaeth ac esgeulustod
- Cynnydd yn y galw a chymhlethdod yn benodol o ran plant a theuluoedd a phobl ifanc
- Cydnabyddir bod hwn yn faes gwaith sydd â risg uchel



| Camau Lliniaru  | Erbyn Pryd   | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|---|--------------|-----|------|------|-----|
| R017T06: Cynnal Tîm Diogelu Gydol Oed wedi'i Integreiddio'n llawn   | 31 Maw 2024  | ●   | ●    | ●    | ●   |
| R017T07: Sicrhau bod hyfforddiant diogelu a datblygiad sgiliau yn cael eu cyflwyno i'r holl staff         | 31 Maw 2024  | ●   | ●    | ●    | ●   |
| R017T08: Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Rhanbarthol ar draws pob tîm        | 31 Maw 2024  | ●   | ●    | ●    | ●   |
| R017T09: Monitro/rhoi gwybod yn rheolaidd am bryderon/gweithgareddau diogelu i fforymau diogelu           | 31 Maw 2023  | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R017T10: Cyfranogiad gweithredol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol o bob rhan o'r model     | 31 Maw 2023  | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R017T11: Gweithredu strwythur Llesiant Gydol Oed diwygiedig i wella'r Sicrwydd Ansawdd, Diogelu Strategol | 30 Medi 2023 |     |      |      | ★   |

### Sylwadau (e.e. cynnydd hyd yma)

Mae'r Model Llesiant Gydol Oed yn parhau i gael ei ymgorffori mewn arferion. Mae'r dull ymyrraeth gynnar o weithredu yn cael ei gydnabod fel dull gweithredu effeithiol a chadarn o atal ar draws anghenion pob oed. Mae addasiadau adferol wedi'u gwneud i'r strwythur i wella gallu a sicrhau defnydd llawn o ethos Llesiant Gydol Oed ar draws y gwasanaeth. O ran cyflawni'r dyletswyddau statudol, bu angen dibynnu ar staff wrth gefn asiantaeth i gynnal gwasanaeth diogel sy'n cyflawni'r holl swyddogaethau statudol o fewn terfynau amser. Mae strategaethau a chynlluniau ar waith i hyrwyddo recriwtio a chadw gweithlu parhaol a thorri'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth asiantaethau. Mae'r Tîm Arloesi yn wasanaeth a gomisiynir sydd wedi ategu'r diffyg yng ngwaith cymdeithasol Plant Gofal wedi'i Gynllunio. Mae nifer uchel o atgyfeiriadau ar draws y maes diogelu Plant ac Oedolion yn parhau i fod yn gymhleth ac sydd angen cymorth dwys. Mae'r galw uwch am wasanaethau yn cael ei ailadrodd ar draws y Llesiant Gydol Oed i gyd. Heb y camau lliniaru sydd ar waith, mae'n bosibl y bydd canlyniadau difrifol pe na bai'n cyflawni dyletswyddau statudol yn briodol.

# Risg Gorfforaethol R018 Covid-19

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Alun Williams

### Disgrifiad



Effaith lleadaeniad y pandemig byd-eang Covid 19 ar iechyd dinasyddion, gan gynnwys y galw cynyddol ar wasanaethau'r Cyngor ac effaith y cyfnodau clo a'r llacio wrth i bolisi'r Llywodraeth newid yn gyson, yr economi ehangach a llesiant dinasyddion y Sir.

### Y Canlyniadau Posibl

Lefelau uchel o'r haint, salwch difrifol a marwolaethau ychwanegol ymhlith y boblogaeth ynghyd â dirywiad sylweddol yn yr economi, amharu'n eang ar ddarparu gwasanaethau, a niwed i lesiant personol. Effaith ar ddarpariaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau gan y Cyngor a'r gallu i ymateb i'r argyfwng economaidd a heriau eraill a grëwyd o ganlyniad i'r pandemig. Ar ôl y pandemig, mae hefyd risg o ôl-groniadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan arwain at ragor o anawsterau iechyd a gofal cymdeithasol a phroblemau lles i'r boblogaeth. Mae'n debygol y bydd mwy o wrthdaro rhwng gwahanol fodolau ymateb i'r pandemig.

### Tystiolaeth o'r Risg

Dechreuodd cyfnod clo yn y DU ar Fawrth 23ain 2020 a digwyddodd ddwywaith wedi hynny. Caedd y Cyngor ei swyddfeydd, ei ysgolion a'i gyfleusterau. Mae gwasanaethau wedi aildechrau ar ôl i gyfyngiadau ddod i ben. Mae'r sector gofal preswyl wedi gweld mesurau'n cael eu llacio ac mae achosion o heintio wedi lleihau mewn difrifoldeb o ganlyniad i frechu rheolaidd a straen llai difrifol o Covid. Mae ein disgyblion ysgol wedi wynebu tarfu sylweddol ar eu haddysg. Hyd yn hyn, mae Ceredigion wedi osgoi lefel uchel o farwolaethau. Fodd bynnag, mae dyfodiad amrywiolion newydd wedi cymhlethu pethau ac yn destun pryder a'r risg fwyaf sy'n ein hwynebu. Costau uwch a llai o incwm yn deillio o Covid19. Ad-dalodd Llywodraeth Cymru y mwyafrif helaeth o'r costau hyd at fis Mawrth 2022 a rhoddodd swm llai o gyllid ar gyfer 2022/23. Nid oes dim cyllid pellach wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar wahân i gyllid cyfyngedig ar gyfer Profi ac Orlhain. Er bod absenoldebau staff yn gymharol isel oherwydd staff yn gweithio o gartref i ryw raddau, bu cynnydd anochel yn y llwythi gwaith gan ein bod yn y cyfnod adfer. Mae'n ymddangos bod y lefel uchel o frechu yng Ngheredigion wedi lliniaru effaith afiechyd difrifol. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y tonnau omicron o'r haint yn dal i ddigwydd yn rheolaidd ond nid yw'n arwain at lefelau uchel o broblemau iechyd gwanychol neu farwolaethau. Mae Cymru mewn "cyflwr sefydlog", sy'n golygu bod llawer o wasanaethau yn ôl i fusnes fel arfer, fodd bynnag, erys ôl-groniadau sylweddol mewn rhai gwasanaethau. Er bod mwyafrif y cyfyngiadau wedi dod i ben, mae'r risg o amrywiolion pellach yn parhau'n uchel.



| Camau Lliniaru  | Erbyn Pryd   | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|---|--------------|-----|------|------|-----|
| R018T01: Cydymffurfio a chefnogi trefniadau Cyfnod Clo Cenedlaethol a Lleol yn llawn      | 31 Maw 2023  |     | ★    | ★    | ★   |
| R018T03: Cymryd rhan lawn mewn trefniadau rhanbarthol o ran ymateb i argyfwng ac adfer    | 31 Maw 2023  | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R018T04: Cyfathrebu effeithiol gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid Ceredigion                  | 31 Maw 2023  |     | ★    | ★    | ★   |
| R018T07: Cefnogi'r economi a busnesau lleol drwy bob cam o'r pandemig                     | 30 Medi 2023 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R018T08: Gweithio gydag eraill i gynnal profion, olrhain cysylltiadau a brechiadau torfol | 31 Maw 2023  |     | ★    | ★    | ★   |
| R018T09: Gweithredu rhaglen effeithiol o gymorth a hyfforddiant lles staff                | 30 Medi 2023 | ★   | ★    | ★    | ★   |
| R018T10: Trawsnewid tîm olrhain cysylltiadau yn dîm diogelu iechyd                        | 31 Maw 2024  |     |      |      | ★   |

### Comments (eg progress to date)

Er bod Covid yn parhau i fod yn risg i'r gymuned ac i'r Awdurdod, mae'r feirws Omicron yn llai difrifol na'i ragflaenwyr ac ynghyd â chyfraddau uchel o frechu, mae'r pandemig fwyfwy dan reolaeth. Ynghyd â pholisiau'r Llywodraeth, mae'r mesurau lliniaru a gymerwyd gan yr Awdurdod a'i bartneriaid dros y deuddeg mis diwethaf

## Tudalen 256

wedi cael effaith gadarnhaol wrth leihau effaith y pandemig o fewn y Sir. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ill dau wedi llacio rheoliadau ac mae cyfyngiadau wedi'u codi. Mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith. Mae ymyrraeth a chyllid y Llywodraeth wedi'u cwtogi'n sylweddol ac mae ein tîm olrhain cysylltiadau wedi'i leihau o 80 aelod o staff ddeuddeng mis yn ôl i 4. Mae olrhain cysylltiadau wedi dod i ben ac mae profi wedi'i atal ar gyfer y gwanwyn a'r haf. Mae'r tîm olrhain cysylltiadau yn trawsnewid yn dîm diogelu iechyd aml-asiantaeth "Pob-perygl", a fydd yn ymateb i nifer o fygythiadau iechyd y cyhoedd, gan gynnwys Covid, Mpox, TB, ac ati. Mae polisi'r Llywodraeth wedi cydnabod bod y coronafeirws wedi symud o bandemig i sefyllfa endemig. Mae'n rhaid i ni fyw gyda'r feirws yn cylchredeg yn ein cymunedau a'n gweithleoedd. Serch hynny, erys risg y bydd amrywiolyn newydd yn ymddangos a allai fod yn fygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd.



# Risg Gorfforaethol R019 Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd

Tudalen 257

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering / Rhodri Llwyd

## Disgrifiad



Newid hinsawdd yw un o'r heriau amgylcheddol mwyaf a wynebwn. Er y bydd peidio â chyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon ac ynni yn cael effaith ariannol ac amgylcheddol i'r Awdurdod, ceir goblygiadau ehangach ar gyfer y Sir gyfan, e.e. mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd, a allai gael effaith enfawr ar ein cymunedau ac ar ystâd y Cyngor sy'n cynnwys ein hadeiladau, ysgolion, Gwarchodfeydd Natur, Parciau, rhandiroedd a hefyd daliadau eraill nad ydynt wedi'u rheoli'n weithredol. Cydnabyddir bod rhaid i ni arwain trwy esiampl a gwneud popeth y gallwn ei wneud i leihau newid hinsawdd yn y dyfodol, a rhoi sylw i'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn a'u lliniaru. Rhaid datblygu mentrau polisi a strategaethau sy'n cynnwys cydnerthedd ecosystemau, gwelliannau bioamrywiaeth a chynlluniau lleihau llifogydd a'u gweithredu os ydym am lwyddo i leihau ein hól troed carbon a lleihau'r risg i'n prif seilwaith, asedau, trigolion, cymunedau a thirwedd.

## Y Canlyniadau Posibl

Mae newid hinsawdd yn golygu y byddwn efallai'n wynebu digwyddiadau tywydd amlach neu fwy difrifol megis llifogydd, sychder a stormydd. Gyda'r digwyddiadau hyn daw 'risgiau ffisegol' sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau ac effaith bosibl ar yr economi. Mae rhannau o forlin Ceredigion yn agored i erydu arfordirol a llifogydd, ac mae rhai cymunedau mewndirol mewn perygl o lifogydd a cholli tir o gyrsgiau dŵr. Gallai'r effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, gyda rhanddeiliaid yn wynebu canlyniadau sy'n bygwth bywyd neu'n newid bywyd, gydag effaith ar rannau mawr o'r Sir/Cyngor. Yn ogystal, gallai peidio â lleihau effeithiau newid hinsawdd gael canlyniadau o ran enw da, canlyniadau ariannol ac amgylcheddol ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys ar ffurf cosbau ariannol am beidio â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli carbon a bioamrywiaeth. Bydd effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i bryfed, plâu a chlefydau a fydd yn cytrefu ac yn effeithio ar ein hamgylchedd. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol y rhain, bydd yr effeithiau ar amser staff a chostau eraill i ddelio â hyn yn sylweddol. Mae colli brigdwf oherwydd clefyd coed ynn eisoes wedi cael canlyniadau ar gyfer microhinsoddau lleol a bydd yn gwaethygu effeithiau newid hinsawdd yn ogystal â chyfrannu atynt.

## Tystiolaeth o'r

Mae newid hinsawdd yn realiti ac yn digwydd ar draws y byd; mae'n cael effaith ar gymunedau lleol yng Ngheredigion. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Ceredigion wedi nodi lleoliadau yn y Sir sydd mewn perygl nawr ac a fydd mewn perygl yn y dyfodol oherwydd erydu arfordirol a llifogydd, a llifogydd o brif afonydd/cyrsgiau dŵr/dŵr wyneb. Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos er mwyn atal newid hinsawdd rhaid atal allyriadau carbon – nid yw eu lleihau yn ddigonol, mae'n rhaid i ni fynd ymhellach a gweithio tuag at fod yn awdurdod lleol sero-net.



| Camau Lliniaru  | Erbyn Pryd  | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|---|-------------|-----|------|------|-----|
| R019T01: Datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Corfforaethol                | 31 Maw 2024 | ●   | ●    | ●    | ■   |
| R019T03: Cynyddu faint o ynni a gynhyrchir trwy ffynonellau adnewyddadwy. | 31 Maw 2024 | ★   | ★    | ●    | ★   |
| R019T04: Nodi a rheoli'r ystâd gorfforaethol                              | 31 Maw 2024 | ★   | ★    | ●    | ■   |

| R019T05: Datblygu Cynlluniau Lleihau Llifogydd   | 31 Maw 2024 |   |   |   |   |
|--|-------------|---|---|---|---|
| R019T06: Monitro'r arfordir gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru, datblygu Amddiffyniad yr Arfordir | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ★ |
| R019T08: Gwneud cais am arian i weithredu prosiectau sy'n lliniaru effaith newid hinsawdd              | 31 Maw 2024 | ● | ● | ● | ● |
| R019T09: Datblygu Strategaeth ULEV Gorfforaethol, Cynllun Gweithredu a rhaglen gyflenwi cyfalaf        | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ✘ |
| R019T10: Adolygu a chyhoeddi Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a rhaglen gyflenwi cyfalaf cysylltiedig  | 31 Maw 2024 | ★ | ★ | ★ | ✘ |

## Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Nid oes Strategaeth Gorfforaethol ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi'i datblygu eto, ond mae gwaith rhanbarthol ar Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru a Chynllun Gweithredu dilynol wedi symud ymlaen. Hefyd mae gwaith i gyflwyno Cynllun Ynni Ardaloedd Lleol ar gyfer Ceredigion wedi dechrau a byddai'n fuddiol pe bai'r darnau hyn o waith yn cael eu cwblhau er mwyn bod yn sail i strategaeth newid hinsawdd bosibl.

Mae Cynlluniau Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer pob un o'r 6 thref wedi'u datblygu a'u cyhoeddi'n ddwyieithog yn ogystal ag Asesiad Seilwaith Gwyrdd ledled y sir i gefnogi'r newid ym Mholisi Cynllunio Cymru a ragwelir tua diwedd 2023 a'r ffocws ar enillion net ar gyfer bioamrywiaeth. Pan fydd CDLI2 yn aildechrau, bydd polisi strategol penodol ar y newid yn yr hinsawdd yn cael ei ddatblygu.

Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ynni Ranbarthol wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, ac mae gwaith ar Gynllun Ynni Ardaloedd Lleol ar gyfer Ceredigion wedi dechrau, gyda nifer o weithdai bellach wedi'u cynnal. Mae Swyddog Ynni Rhanbarthol wedi'i benodi ac mae bellach yn ei swydd, bydd yn helpu'n benodol gyda phroses y Cynllun Ynni Ardaloedd Lleol ac efallai y bydd hefyd yn gallu rhoi rhywfaint o gymorth ychwanegol ar gyfer cynlluniau datgarboneiddio eraill. Mae templedi adrodd allyriadau Llywodraeth Cymru wedi'u rhyddhau, a bydd swyddogion yn cyfrifo'r ffigurau sy'n berthnasol i Geredigion yn y misoedd nesaf i'w cyflwyno ym mis Medi.

Daeth y Cynllun Rheoli Carbon i ben ar 31/03/23, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynllun newydd hyd at 2030 ac sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Sero Net.

Gosodwyd PV ychwanegol yn ysgol Llwyn yr Eos, hefyd gosodwyd PV yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Gynradd Aberteifi yn ystod 2022/23. Yn anffodus, torrodd y Gwaith biomas yn Aberystwyth i lawr a olygodd fod y safleoedd cysylltiedig yn rhedeg ar nwy am nifer o fisoedd, gan gynyddu ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil am gyfnod byr. Mae hyn bellach wedi'i atgyweirio ac mae gwres a dŵr poeth yn cael eu darparu trwy'r biomas.

Mae'r Strategaeth ULEV wedi'i mabwysiadu yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r gwaith o gyflawni Cam 2 y rhaglen pwyntiau gwefru cyhoeddus cerbydau trydan wedi'i gwblhau, ac mae ceisiadau grant wedi'u cyflwyno ar gyfer ariannu rhaglen gwefru cerbydau trydan cyhoeddus Cam 3 yn BA2023/24 - Cronfa trawsnewid cerbydau allyriadau isel iawn Llywodraeth Cymru (£350k) ac OZEV Llywodraeth y DU ar gyfer grant ORCS (£60k)

Mae dyfynbrisiau ar gyfer cysylltiadau grid y Depo wedi'u cael a fydd yn defnyddio'r grant o £300k sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae APSE hefyd wedi'u comisiynu i gynnal asesiad o gynllun y depos i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Cyngor yn y dyfodol o ran seilwaith gwefru cerbydau trydan. Mae cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael eu datblygu ar gyfer Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentref Llandre - Achos Cyfiawnhad Busnes; Cynllun Lliniaru Llifogydd Camlas y Borth - Achos Cyfiawnhad Busnes; Achos Busnes Amlinellol Capel Bangor; ac Achos Busnes Amlinellol Tal-y-bont wedi'u hoedi ychydig, gan fod yr Awdurdod yn aros am ddata hanfodol gan drydydd partion (gan gynnwys Network Rail a Chyfoeth Naturiol Cymru). Mae'r dyddiad cwblhau ar gyfer pob cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i ymestyn i 30 Mehefin 2023.

Mae'r Drwydded Forol a chaniatâd cynllunio wedi dod i law mewn perthynas â Chynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron a disgwylir caniatâd cynllunio a phenodiad contractwr yn gynnar yn 2023. Mae achosion busnes yn cael eu datblygu ar gyfer y cynlluniau posib yn Aberystwyth, y Borth a Llangrannog.

Mae Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn parhau i arolygu'r arfordir amddiffynedig ar ran Cyngor Sir Ceredigion, ac mae eu defnydd o dechnoleg yn cynyddu maint a chywirdeb y data y gellir ei gasglu. Mae Canolfan Monitro Arfordirol hefyd yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Pensaerniaeth a Pheirianeg Sifil - Prifysgol Caerfaddon, sy'n bwriadu gosod sganiwr laser parhaol yn y Borth am gyfnod o 12 mis fel rhan o gais ar gyfer Pwnc Uchafbwynt ar Draethau Graean Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol gwerth £3m a gyhoeddwyd yn ddiweddar a fydd yn cynorthwyo gyda monitro symudiad y traeth graean fel rhan o Amddiffynfa Arfordir y Borth i sefydlu rhaglen weithredol a chynnal a chadw yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod wrthi'n adolygu perfformiad arfordirol yr amddiffynfeydd môr ar hyd glan y Borth, oherwydd pryderon ynghylch gorlifo lleol yn ystod stormydd.

Mae'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol a gymderadwywyd wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir, ac mae gwaith wedi parhau ar ddatblygu a chyflwyno rhaglen y Gronfa Teithio Llesol yn BA2022/23 a datblygu cynllun ar gyfer Llwybrau Diogel yn y Gymuned Llanrhystud.

Ceisiadau a baratwyd ac a gyflwynwyd ar gyfer cyllid grant Llywodraeth Cymru yn BA2023/24 gan gynnwys: Grant Craidd Cronfa Teithio Llesol (£0.5M); Plas Gogerddan i Waunfawr Rhan 1 (£1.5M); £50k SRICS ar gyfer datblygiad parhaus y cynllun yn Llanrhystud.

# Risg Gorfforaethol R020 Clefyd Coed Ynn

Tudalen 259

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Rhodri Llwyd

## Disgrifiad

Clefyd coed ynn yw'r clefyd coed mwyaf arwyddocaol i effeithio ar y DU ers clefyd llwyfen yr Isalmaen, a bydd yn arwain at ddirywiad a marwolaeth oddeutu 90% i 95% o goed ynn yn y DU, ac mae coed ynn yn gyffredin ar draws Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys ar gyrion coetiroedd ar ffurf gwrychoedd a choed sbesimen ar hyd ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus eraill ac mewn mannau agored cyhoeddus. Mae'r haint clefyd coed ynn yn achosi i'r coed freuo, colli canghennau ac yn y pen draw gallent gwympto. Mae'r newidiadau strwythurol i'r pren mewn coed ynn sy'n marw yn cynyddu'n sylweddol y risg o'r coed yn cwmpo.



Mae clefyd coed ynn eisoes yn cael effaith ar y brigdwf ar draws y sir. Amcangyfrifir bod 42,000 o goed ynn aeddfed ar hyd y ffyrdd sirol yn unig, a 10,000 pellach ar Ystâd Gorfforaethol y Cyngor. Gan gymryd bod dwysedd tebyg o goed ynn ar draws yr holl dir cyhoeddus a phreifat arall, gan gynnwys coetiroedd a gwrychoedd, mae effaith a gaiff colli coed oherwydd clefyd coed ynn dros y 5 mlynedd diwethaf a dros y 5 mlynedd nesaf ar ôl troed carbon Ceredigion, y microhinsawdd ac effeithiau lleol ar newid hinsawdd yn sylweddol.

## Y Canlyniadau Posibl

Ceir posibilrwydd parhaus ar gyfer marwolaeth neu anafiadau o ganlyniad i ddigwyddiadau cysylltiedig â chlefyd coed ynn, gan gynnwys risgiau i swyddogaethau statudol neu ddarparu gwasanaethau, gyda phroblemau iechyd a diogelwch cynyddol oherwydd dirywiad coed ynn ar ffyrdd, parciau gwledig, ystadau tai, ysgolion, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a llwybrau troed. Cynnydd yn y gwariant o gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ganlyniad i Glefyd Coed Ynn. Bydd allyriadau carbon o goed sy'n cwmpo/angen eu symud yn cael effaith ar darged carbon sero-net 2030 y Cyngor, a bydd angen paratoi rhaglen blannu sylweddol dros y degawd nesaf i wneud iawn am y coed ynn a gollwyd. Bydd yr ecosystemau a ddarperir gan goed ynn yn cael eu colli, e.e. ansawdd aer, lleihau llifogydd, cysgodi trefol, cynnydd mewn lefelau sŵn a cholli sgriniau gweledol gyfagos â'r priffyrdd, storio carbon, atafaelu carbon a chynefin ar gyfer bioamrywiaeth, a risgiau i rywogaethau/safleoedd a warchodir trwy newid a cholli strwythur, sefydlogrwydd a chyfansoddiad cynefinoedd.

## Tystiolaeth o'r

Mae clefyd coed ynn eisoes yn gyffredin ac yn weladwy ar draws y Sir. Mae canllaw cenedlaethol ar gyfer asesu coed sydd â'r clefyd, gan ddefnyddio system yn seiliedig ar y ganran o frigdwf byw, wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pryd y mae angen gweithredu i roi sylw i'r risgiau sy'n codi yn sgil dirwyniad coed. Argymhellir y dylid gweithredu pan fydd oddeutu 50% o'r goron yn weddill. Oherwydd graddfa cwblhau arolwg ar draws yr holl goed sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, mae dull blaenoriaethol o weithredu wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr ardaloedd risg uchel yn cael eu harolygu gyntaf. I gyflawni hyn mae dadansoddiad risg ansoddol wedi cael ei gwblhau sy'n ystyried y tebygolrwydd o gael anaf a difrifoldeb ar gyfer pob gwasanaeth yn yr awdurdod y nodwyd y bydd yn debygol o gael ei effeithio gan glefyd coed ynn. Rhoddwyd ystyriaeth i newidynnau megis y nifer amcangyfrifedig o goed ynn, y nifer amcangyfrifedig o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac o ran cyflymder a gweledd ar y priffyrdd. Mae Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn yn amcangyfrif y gallai'r cyfanswm cost i'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risg o glefyd coed ynn fod tua £9.4m dros gyfnod o 10 mlynedd, a bydd angen £20m pellach i ddelio â choed ynn ar dir preifat.



| Camau Lliniaru   | Erbyn Pryd   | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|--|--------------|-----|------|------|-----|
| R020T04: Ymgymryd â chynllun gwaith â blaenoriaeth i docio/symud coed fel y bo angen                                       | 31 Maw 2024  | ★   | ★    | ●    | ●   |
| R020T05: Ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru a chyfleoedd cyllid eraill i fynd i'r afael â'r risg a achosir gan             | 31 Maw 2024  | ●   | ●    | ■    | ■   |
| R020T06: Ymgymryd â rhaglen waith gychwynnol ar goed yr effeithiwyd arnynt gan glefyd coed ynn mewn ysgolion               | 30 Medi 2022 | ★   | ✓    | ✓    | ✓   |
| R020T07: Cynnal arolwg mewnol o ardaloedd blaenoriaethol ar gyfer 2022 fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn | 30 Medi 2022 | ★   | ✓    | ✓    | ✓   |
| R020T08: Comisiynu arolwg ffyrdd A, B, C a ffyrdd Diddosbarth fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn          | 30 Tach 2022 | ★   | ★    | ✓    | ✓   |

### Sylwadau (e.e. cynnydd hyd)

Mae arolwg Haf 2022 o'r holl goed priffyrdd wedi'i gwblhau ac mae'r data o'r ymarfer hwnnw wedi'i fewnforio i system reoli'r Cyngor. Mae gwaith ar goed ar ymyl y ffordd sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael ei flaenoriaethu ar hyn o bryd yn ôl risg, gyda gwaith ar goed blaenoriaeth uchel a'r rheini ar lwybrau blaenoriaethol i'w wneud gan ddefnyddio fframwaith presennol Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru cyn gynted â phosib nes bod fframwaith newydd y cyngor yn dod ar-lein. Mae gwaith yn parhau i ddod o hyd i berchnogion coed ar ymyl y ffordd sydd mewn perchnogaeth breifat, ac yna cyhoeddir hysbysiad ffurfiol o dan Adran 154 Deddf Priffyrdd 1980 yn gofyn i'r perchennog fynd i'r afael â'r problemau o fewn cyfnod penodol o amser. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â chyfarwyddo perchnogion coed preifat yr ystyrir eu bod yn risg i'r cyhoedd/traffig lle maent yn hongian dros y briffordd. Mae'r un dull o weithredu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer coed sy'n cael eu dwyn i'n sylw gan ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd ac mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith arolygu coed a nodwyd. Mae gwaith torri coed sydd â chlefyd coed ynn ar frys yn ysgolion ac yn eu cyffiniau wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith o gaffael y Fframwaith Gwaith Coed newydd ar gyfer Clefyd Coed Ynn a'r holl waith coed arall ar fin digwydd. Ymdrechwyd yn helaeth i chwilio am opsiynau ariannu allanol, ond eto nid oes dim cyfleoedd cyllid grant o'r fath ar gael. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud gan y Swyddog clefyd coed ynn i nodi cyfleoedd i leihau costau a sicrhau'r enillion mwyaf posibl o waith tynnu coed/cangen. Bydd cynllun gwaith newydd ar gyfer coed sy'n eiddo i'r Cyngor ar ymyl y ffordd a manau agored cyhoeddus yn dechrau ar gyfer 2023.

# Risg Gorfforaethol R021 Tystiolaeth 261

Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Russell Hughes-Pickering

## Disgrifiad



Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth o lefelau ffosffadau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru (gan gynnwys Afon Teifi) ynghyd â chyfarwyddyd safbwynt cynllunio dros dro (wedi'i ddiweddarau Mai 2021).  
Y Cyngor yw'r awdurdod cymwys fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n ofynnol iddo roi sylw i'r cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ac o ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae effaith ffosffadau ar 50% o'r Ganolfan Gwasanaeth Trefol a 14% o'r Ganolfan Gwasanaeth Lleol a ddynodwyd yn y CDLI. Cyfanswm y tir a effeithir yng Ngheredigion yw 806 km<sup>2</sup> / 44.6% o'r sir. Gallai 14 o safleoedd tai a neilltuwyd ddarparu 572 o gartrefi ac o'r rhain disgwylir i 114 ohonynt fod yn rhai fforddiadwy. Mae problemau arwyddocaol o ran datblygu yn yr ardal hon. Disgwylir i'r ardal a effeithir gynyddu pan fydd gwybodaeth a chyfarwyddyd pellach yn cael eu rhyddhau mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol.

## Y Canlyniadau Posibl

Mae'n debygol iawn y bydd datblygu ar draws y Sir yn cael ei gyfyngu'n fawr hyd nes y gall mesurau gael eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau maethynnau ar amgylcheddau afonol a morol. Gallai hyn gyfyngu ar allu'r Cyngor i ddarparu prof elfennau ei Strategaeth Gorfforaethol, y Strategaeth Economaidd, y Cynllun Datblygu Lleol, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol. Disgwylir i'r sefyllfa waethygu pan fydd data yn ymwneud ag asesiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn cael eu rhyddhau yn 2022 a fydd â goblygiadau mawr ar gyfer gweddill y Sir.

## Tystiolaeth o'r Risg

Mae monitro maethynnau gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu nad yw 8 o'r 16 gorsaf fonitro ar Afon Teifi yn cwrdd â'u targedau a osodwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Felly, nid ydynt yn bodloni gofynion eu statws ffafriol cadwriaethol, ac o bosib yn difrodi'r ecosystemau bregus a oedd yn sail i'w dynodiad fel Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae targedau o'r fath hefyd yn cael eu monitro ar gyfer maethynnau eraill yn Ardal Cadwraeth Arbennig Teifi a'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ar hyd ein harfordir.



| Camau Lliniaru  | Erbyn Pryd   | Meh | Me di | Rhag | Maw |
|---|--------------|-----|-------|------|-----|
| R021T01: Sicrhau bod pob cais, cynllun a phrosiect yn cael ei sgrinio yn unol â chyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru       | 31 Maw 2024  | ★   | ★     | ★    | ★   |
| R021T02: Codi ymwybyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol a nodi ffyrdd i fireinio'r cyfarwyddyd                            | 31 Maw 2024  | ★   | ★     | ★    | ★   |
| R021T03: Gweithio ar lefel is-genedlaethol a chenedlaethol trwy'r gweithgornau i gael atebion                             | 31 Maw 2024  | ★   | ★     | ★    | ★   |
| R021T04: Ceisio atebion lleol, dysgu o arferion gorau mewn mannau eraill, defnyddio asedau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor | 30 Medi 2023 | ★   | ★     | ★    | ●   |
| R021T06: Penodi ymgeisydd i rôl swyddog rhaglen rhanbarthol y Bwrdd Rheoli Maethynnau                                     | 31 Maw 2023  | ●   | ●     | ★    | ✓   |
| R021T07: Parhau i lobio am ddull 'Tîm Cymru' o weithredu gan gynnwys rhestr liniaru genedlaethol a data                   | 31 Maw 2024  | ●   | ●     | ★    | ★   |
| R021T08: Ystyried atebion lleol megis Cyfleusterau Trin Preifat a gweithio gyda Dŵr Cymru                                 | 31 Maw 2024  | ●   | ●     | ★    | ★   |

Mae cynnig i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi ei gyflwyno ar gyfer Swyddog Rheoli Maethynnau a monitorau ansawdd dŵr ar hyd y Teifi. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb gwlyptir wedi'i chwblhau ochr yn ochr â'r cyfrifiannell rhanbarthol a'r canllawiau lliniaru; Mae 2 astudiaeth dichonoldeb gwlyptir ar y safle hyd at y cam cynllunio i gychwyn yn fuan. Mae polisi wedi cymryd yr awenau ar y prosiect PRAM i symud y pethau y mae modd eu cyflawni eu blaenau. Mae rhestrau gwirio datblygwyr a chymorth HRA yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ac mae templed drafft Cynllun y Bwrdd Rheoli Maethynnau yn cael ei lunio. Mae digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau mis Mehefin. Mae awaith Tîm Cymru yn mynd rhaaddo avda'r rhanbarth yn chwarae rhan allweddol wrth ddvianwadu ar

# Risg Gorfforaethol R022 Recriwtio a Chadw

**Perchennog: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Geraint Edwards**

### Disgrifiad



Bydd methu â recriwtio staff i rolau allweddol yn cael effaith ar y gallu i gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol a'r gofyniad i fodloni cyfrifoldebau statudol a deddfwriaethol.

### Y Canlyniadau Posibl

Gall effaith methu â recriwtio mewn modd amserol arwain at anallu i fodloni dyletswyddau statudol neu ofynion deddfwriaethol; anallu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol; neu ei gwneud yn heriol i wasanaethau ymateb i alwadau sy'n newid. Byddai hyn yn arwain at ymyrraeth gan reoleiddwyr a/neu gael eu rhoi mewn mesurau arbennig, gan greu pwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb a niweidio enw da'r Cyngor, a fyddai'n effeithio ymhellach ar frand ein cyflogwr a'n gallu i recriwtio. Yn ogystal, gallai methu â recriwtio arwain at effaith negyddol ar weddill y gweithlu o ganlyniad i orfod rhannu'r llwyth gwaith ychwanegol.

### Tystiolaeth o'r Risg

Marchnad lafur heriol a welir yn y nifer uchel hanesyddol o swyddi gwag ledled y DU, y gyfradd isaf o ddiweithdra ers 1974 a'r cynnydd yn nifer y bobl economaidd anweithgar. Methiant i recriwtio mewn nifer o rolau proffesiynol er gwaethaf sawl ymgyrch. Mwy o ddefnydd o staff asiantaeth i gyflawni rolau allweddol â chymwysterau proffesiynol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac uwch reolwyr.



| Camau Lliniaru  | Erbyn Pryd    | Meh | Medi | Rhag | Maw |
|---|---------------|-----|------|------|-----|
| R022T01: Cyflogi asiantaeth recriwtio i recriwtio i rolau parhaol o ddomestig a rhyngwladol | 03 Chwe 2023  |     |      | ★    | ★   |
| R022T02: Ymgymryd â meincnod cyflogau holl awdurdodau lleol Cymru                           | 31 Gorff 2023 |     |      | ●    | ●   |
| R022T03: Adolygu'r ffurflen gais a'r broses   | 30 Meh 2023   |     |      | ●    | ★   |
| R022T04: Ystyried cynllun prentisiaeth aml-lefel  | 30 Meh 2023   |     |      | ★    | ★   |
| R022T05: Parhau i lobïo dros raddfa gyflog Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol      | 30 Medi 2023  |     |      | ■    | ★   |

### Sylwadau (e.e. Cynnydd Hyd Yma)

Mae Cynllun Gweithlu 2023-2028 yng nghamau olaf y drafftio a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei gymeradwyo erbyn diwedd yr haf. Mae'r Cynllun yn cynnig pedair blaenoriaeth allweddol: Profiad Ymgeisydd a Denu Talent; Ein Diwylliant; Ffyrdd Newydd o Weithio; a Gwireddu Potensial. Mae mynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw wrth wraidd y cynllun gyda ffocws ar farchnata, y broses ymgeisio, llais y gweithiwr, uwchsgilio digidol, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynllun graddedigion a rhaglenni prentisiaeth. Mae'r berthynas waith gydag asiantaeth recriwtio arbenigol i ddenu gweithwyr cymdeithasol cymwys, yn y DU ac yn rhyngwladol, bellach wedi'i sefydlu ac mae'r garfan gyntaf o ymgeiswyr addas yn cael ei hasesu ar hyn o bryd.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



**21 Mehefin 2023 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio****Eitemau Sefydlog:**

Adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth

Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth

Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol

Adroddiad Cynnydd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Y Flaenraglen Waith

Cofnod o gamau gweithredu cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Adroddiadau ar Gwynion

Adroddiadau ar Berfformiad

**Eitemau ychwanegol i'w hystyried**

|                 |  |   |
|-----------------|--|---|
| 21 Mehefin 2023 | Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol –<br>Chwarter 4<br>Adroddiad ynghylch Camau Gweithredu'r<br>Rheolwyr<br>Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol<br>Adroddiad Atal Twyll Blynyddol Archwilio<br>Mewnol 2022-2023<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 4   | Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alun Williams             |
| 27 Medi 2023    | Hunanasesu arfer da a gwerthuso<br>effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac<br>Archwilio<br>Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol –<br>Chwarter 1<br>Hunanasesiad Archwilio Mewnol 2022-2023<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 1<br>Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o<br>Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid<br>Gwybodaeth | Harry Dimmack<br>Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alun Williams<br>Marie-Niege<br>Hadfield |
| Tachwedd 2023   | Datganiad Ariannol Blynyddol yn unig (gan<br>gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol)   | Duncan Hall   |
| Ionawr 2024     | Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol –<br>Chwarter 2<br>Adroddiad ynghylch Camau Gweithredu'r<br>Rheolwyr<br>Siarter Archwilio Mewnol<br>Hunanwerthusiad Archwilio Mewnol ynghylch y<br>Fenter Twyll Genedlaethol<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 2   | Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alun Williams             |
| Mawrth 2024     | Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol –<br>Chwarter 3<br>Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol ar<br>gyfer 2024-2025<br>Adroddiad Archwilio Mewnol – Adolygiad o'r<br>Fframwaith Llywodraethu 2023/2024<br>Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2023-<br>2024<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 3                             | Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Alex Jenkins<br>Hannah Rees<br>Alun Williams              |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol